Rhif Ymchwil Gymdeithasol:

4/2025

Dyddiad cyhoeddi:

09/01/2025

# Y Warant i Bobl Ifanc:

# asesiad gwerthusadwyedd a fframwaith gwerthuso arfaethedig

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron

ISBN Digidol 978-1-83715-104-2

# Y Warant i Bobl Ifanc: asesiad gwerthusadwyedd a fframwaith gwerthuso arfaethedig

Awduron: Dr Duncan Holtom gyda Dr Leon Quinn

Adroddiad Ymchwil Llawn: Holtom, Duncan gyda Quinn, Leon (2025). Y Warant i Bobl Ifanc: Asesiad Gwerthusadwyedd a fframwaith gwerthuso arfaethedig. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 4/2025.
Ar gael ar: https://www.llyw.cymru/y-warant-i-bobl-ifanc-asesiad-gwerthuso-fframwaith-gwerthuso-arfaethedig

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Enw:
Is-adran:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: LMI@llyw.cymru

**Tabl cynnwys**


Rhestr o dablau ........ 2

Rhestr o ffigurau ........ 3

Rhestr Termau ........ 4

1. Cyflwyniad ........ 5

2. Ymagwedd a dulliau ........ 12

3. Y broblem (neu'r her) y mae'r Warant yn ceisio mynd i'r afael â hi a'r cyd-destun y mae'n gweithredu ynddo ........ 17

4. Canlyniadau: Y newid y mae'r Warant yn ceisio ei sicrhau ........ 30

5. Y dulliau: y ffyrdd y disgwylir i'r Warant greu'r newidiadau hyn ........ 32

6. Cwestiynau Gwerthuso ........ 533

7. Mesur newid: lefelau system a rhaglen ........ 633

8. Data: argaeledd, digonolrwydd a dadansoddi/defnyddio ........ 755

9. Gwerthusadwyedd y Warant ........ 922

10. Gwerthusadwyedd y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid ..... 1066

11. Cryfderau a gwendidau'r dulliau arfaethedig ........ 10808

12. Amserlenni amcangyfrifedig ........ 1111

13. Casgliadau ac argymhellion ........ 1144

14. Cyfeiriadau ........ 1211

15. Atodiad A. Trafodo DPA sy'n seiliedig ar gydraddoldeb ........ 1266

16. Atodiad B. Trafod DPA perfformaid ........ 1300

17. Atodiad C. Manylion ychwanegol am gyfweliadau â rhanddeiliaid ........ 1333

18. Atodiad D: Model Ymgysylltu Pum Haen Gyrfa Cymru i Bobl Ifanc Ôl-16 1366

19. Atodiad E. Adolygiad desg o'r gwerthusiad o Warantau Ieuenctid Ewropeaidd ........ 13939

20. Atodiad F. Asesiad Gwerthusadwyedd a Gwerthusiad Proses o'r Warant i Bobl Ifanc: Rhestr gyfweld polisi (Mai 2023) ........ 1444

**Rhestr o dablau**

Tabl 7.1. Defnyddio mesurau lefel system a rhaglen............................................ 655
Tabl 8.1. Crynodeb o ffynonellau data – rhanddeiliaid llywodraethol ..................... 776
Tabl 8.2. Crynodeb o ffynonellau data – pobl ifanc .................................................. 79
Tabl 8.3. Crynodeb o ffynonellau data – dogfennau a data rhaglen.......................... 81
Data gwybodaeth reoli rhaglenni................................................................................ 822
Tabl 8.4. Crynodeb o ffynonellau data – gwerthusiadau rhaglen ac ymchwil eilaidd ............................................................................................................................ 844
Tabl 8.5. Crynodeb o ffynonellau data – data ystadegol ac economaidd ............... 888
Tabl 9.1. Ymddygiad pobl ifanc: goblygiadau gwahanol fathau o gwestiynau effaith ar gyfer gwerthuso newidiadau ....................................................................... 944
Tabl 9.2. Canlyniadau cymdeithasol: goblygiadau gwahanol fathau o gwestiynau effaith ar gyfer gwerthuso newidiadau ..................................................... 1022
Tabl 11.1. Gwerthusadwyedd newid mewn polisi ac ymarfer: ymddygiad pobl ifanc a chymdeithas ........................................................................................... 10808
Tabl 17.1. Enghreifftiau dangosol o feysydd i'w harchwilio gyda rhanddeiliaid sy'n ymwneud â chyflawni'r Warant a/neu'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid ..................................................................................................... 1333
Tabl 19.1. Crynodeb o DPA ar gyfer Gwarant Ieuenctid yr UE ............................ 1411

**Rhestr o ffigurau**

Ffigur 2.1. Damcaniaeth newid lefel uchel (‘meta’) y Warant .................................. 16
Ffigur 3.1. Y Fframwaith COM-B (Galluogrwydd, Cyfle, Cymhelliant – Ymddygiad) 19
Ffigur 3.2. Map Polisi Llywodraeth Cymru: cymorth i bobl ifanc ymgysylltu ag EET 25
Ffigur 3.3. Enghreifftiau o'r ffyrdd y mae'r cyd-destun cymdeithasol, gwleidyddol, economaidd a diwylliannol yn llunio galluoedd, cyfleoedd, cymhelliant ac ymddygiad Cenhedlaeth Z.......................................................................... 27
Ffigur 5.1. Y berthynas rhwng y gwahanol fapiau systemau a damcaniaethau newid ......................................................................................................... 333
Ffigur 5.2. Map Cyd-destun a Systemau'r Warant................................................ 355
Ffigur 5.3. Y system gymorth EET ôl-16............................................................... 388
Ffigur 5.4. Damcaniaeth newid ar gyfer y system cymorth EET i bobl ifanc........... 400
Ffigur 5.5. Damcaniaeth newid ar gyfer pobl ifanc NEET, neu sydd mewn perygl o fod yn NEET ........................................................................................ 455
Ffigur 5.6. Y Fframwaith COM-B a'r prif ragdybiaethau sy'n sail i'r Warant ............ 477
Ffigur 5.7. Damcaniaeth newid ar gyfer effaith y Warant....................................... 500
Ffigur 7.1. Fframwaith perfformiad: prif DPA arfaethedig ........................................ 69
Ffigur 7.2. Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru, 2004 i 2022 ...................................................................... 744
Ffigur 8.1. Ateb cwestiynau sut a pham ................................................................ 766
Ffigur 15.1. Data ar bobl ifanc.............................................................................. 12727

**Rhestr Termau**

| | |
|---|---|
| ABB | Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth |
| BC | Busnes Cymru |
| CFW | Cymunedau am Waith |
| CFW+ | Cymunedau am Waith a Mwy |
| EET | Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant |
| EETSE | Addysg, Cyflogaeth, Hyfforddiant neu Hunangyflogaeth |
| LCA | Lwfans Cynhaliaeth Addysg |
| CGE | Cronfa Gymdeithasol Ewrop |
| UE | Yr Undeb Ewropeaidd |
| HESA | Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch |
| ILO | Y Sefydliad Llafur Rhyngwladol |
| JETS | Cymorth wedi'i Dargedu at gael Swydd |
| TSC+ | Twf Swyddi Cymru a Mwy |
| KAS | Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi |
| DPA | Dangosydd Perfformiad Allweddol |
| ALl | Awdurdod Lleol |
| NATCEN | Canolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol |
| NEET | Nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant |
| GIG | Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| PaCE | Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth |
| QCA | Dadansoddiad Cymharol Ansoddol |
| SCQF | Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban |
| LlC | Llywodraeth Cymru |
| CG | Cymru'n Gweithio |
| YTS | Cynllun Hyfforddi Ieuenctid |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Warant i Bobl Ifanc (y Warant) yn un o ymrwymiadau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, a lansiwyd gan Weinidog yr Economi ar y pryd ym mis Tachwedd 2021. Nod y Warant yw darparu cynnig cymorth i bobl ifanc 16-24 oed yng Nghymru gael lle mewn addysg neu hyfforddiant, dod o hyd i swydd neu ddod yn hunangyflogedig. Mae'n 'darparu strwythur ymbarél sydd uwchlaw'r holl raglenni i bobl ifanc 16 i 24 oed, a'i nod yw defnyddio'r holl ymyraethau sy'n bodoli er mwyn creu taith syml i bobl ifanc beth bynnag fo'u hamgylchiadau a'u cefndir.' (t. 3 Llywodraeth Cymru, 2024a)

1.2 Mae'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid, a gyhoeddwyd gyntaf yn 2013, a'i adnewyddu yn 2022, yn ategu'r Warant ac yn anelu at gefnogi

> '…adnabod y bobl ifanc 11 i 18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) neu'n ddigartref, neu mewn perygl o fod yn hynny, i ddeall eu hanghenion, rhoi cymorth a/neu ddarpariaeth briodol ar waith a monitro eu cynnydd.' (Llywodraeth Cymru, 2022a, t. 3).

1.3 Mae'r prosesau sy'n ofynnol i nodi, cefnogi a monitro cynnydd pobl ifanc sydd mewn perygl yn cael eu harwain 'gan awdurdodau lleol, sy'n gweithio gyda'u partneriaid darparu.' (Llywodraeth Cymru, 2022a, t. 6).

1.4 Mae'r cyd-destun polisi ar gyfer yr asesu gwerthusadwyedd hwn hefyd yn cynnwys nodau ehangach Llywodraeth Cymru a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, y Cynllun Plant a Phobl Ifanc (2022) a'r Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau (2022b). Mae'r Warant a'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid yn ceisio cyfrannu at fodloni dangosyddion cenedlaethol a cherrig milltir cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (a ddefnyddir i fesur cynnydd yn erbyn y nodau Llesiant), fel y garreg filltir o sicrhau bod o leiaf 90% o bobl ifanc 16 i 24 oed

mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050 (Llywodraeth Cymru, 2021a; Llywodraeth Cymru, 2022a).

**Cwmpas y Warant**

1.5 Mae'r Warant yn cynnwys sawl rhan, ac mae diffinio ei ffiniau a'i chwmpas yn heriol. At ddibenion yr Asesiad Gwerthusadwyedd hwn a'r fframwaith gwerthuso ategol, mae'r Warant wedi'i diffinio fel cynnig cymorth i ddod o hyd i le mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant (EET), yn hytrach na chynnig swydd neu le penodol mewn addysg neu hyfforddiant ynddo'i hun. Mae Prentisiaethau, sy'n cynnig cymorth i bobl ifanc ennill y sgiliau a'r cymwysterau sydd eu hangen arnynt i wneud cynnydd yn eithriad rhannol i'r diffiniad hwn (ac maent wedi'u cynnwys yn y Warant, gweler er enghraifft, Llywodraeth Cymru, 2023a). Mae cynnig cymorth y Warant hefyd yn cynnwys rhaglenni cymorth cyflogadwyedd fel TSC+ a Cymunedau am Waith a Mwy sy'n cynnig addysg a hyfforddiant, a darperir rhywfaint o hyn mewn lleoliadau addysg a hyfforddiant fel ysgolion a cholegau. Yn 2023, er enghraifft, roedd camau polisi'r Warant yn cynnwys ehangu'r ystod oedran ar gyfer rhaglen TSC+ i 19 oed a lwfans hyfforddi uwch a lwfans ehangach ar gyfer costau cymorth trafnidiaeth i gyfranogwyr ar y rhaglen hon (Llywodraeth Cymru, 2024a). Mae Cymru'n Gweithio, y gwasanaeth cyngor ac arweiniad gyrfa annibynnol, a ddarperir gan Gyrfa Cymru, yn brif ddull darparu arall ar gyfer y Warant (Llywodraeth Cymru, 2022a).

1.6 At ddibenion yr Asesiad Gwerthusadwyedd a'r fframwaith gwerthuso, mae "cyfranogwr" (neu fuddiolwr) y Warant wedi'i ddiffinio fel rhywun sy'n cael mynediad at gymorth neu'n manteisio ar gymorth gan un o'r rhaglenni sy'n galluogi darparu'r Warant, neu, yn achos y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid, gweithio ar y cyd â'r Warant i Bobl Ifanc (gweler y testun mewn blwch). At ddibenion gwerthuso economaidd, byddai costau'r Warant hefyd yn seiliedig i raddau helaeth ar wariant ar y rhaglenni hyn.[1]

[1] Byddai hefyd, er enghraifft, yn cynnwys costau tîm polisi'r Warant ac ymchwil a gwerthuso.

**Y prif raglenni, cyllid a gwasanaethau sy'n darparu neu'n ategu cynnig cymorth y Warant i gael lle mewn addysg neu hyfforddiant, neu brentisiaeth, dod o hyd i swydd neu ddod yn hunangyflogedig**

- Marchnata: Ymgyrch 'Bydd Bositif'.
- Addysg: cyllid craidd chweched dosbarth, cyllid craidd addysg bellach, pecyn cymorth Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith, cyllid arloesi a phontio ychwanegol ar gyfer ysgolion a cholegau.
- Dysgu seiliedig ar waith: prentisiaethau, Cyfrifon Dysgu Personol.
- Nodi a chymorth cynnar: y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid.
- Rhaglenni cyflogadwyedd: TSC+, Cymunedau am Waith a Mwy, ReAct+, y Gwasanaeth Di-waith (OoWS), Cymru'n Gweithio.
- Cymorth hunangyflogaeth: Busnes Cymru, Biwroau Cyflogaeth a Menter, Syniadau Mawr Cymru, Grant Dechrau Busnes i Bobl Ifanc
- Cyngor a chymorth ar yrfaoedd a chyflogaeth: Gyrfa Cymru a Cymru'n Gweithio, Biwroau Cyflogaeth a Menter.
- Ymgysylltu â chyflogwyr: Busnes Cymru, Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl.
- Cymorth ariannol; Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA), Cyllid Myfyrwyr Cymru, Cronfa Ariannol Wrth Gefn Addysg Bellach.

1.7 Ers lansio'r Warant ym mis Tachwedd 2021, mae dros 43,000 o bobl ifanc wedi dechrau ar raglenni cyflogadwyedd a sgiliau cysylltiedig. O'r rhain, mae mwy na 5,000 o bobl ifanc wedi symud ymlaen i gyflogaeth, mae dros 500 o grantiau dechrau busnes wedi'u cymeradwyo, mae mwy na 650 o bobl ifanc wedi dechrau eu busnes eu hunain, ac mae dros 20,000 wedi dechrau prentisiaeth. (Ffigurau monitro mewnol dros dro Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2024).

1.8 Mae gan y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid chwe elfen graidd:

- **'Nodi'n gynnar'** y bobl ifanc rhwng 11 a 18 oed sydd mewn perygl o fod yn NEET, sy'n NEET, a/neu mewn perygl o fod yn ddigartref;
- '**Broceriaeth'**, cyflwyno pobl ifanc i gymorth priodol a'u cysylltu â'r cymorth hwn (gan gynnwys gweithio gyda gwasanaethau i sicrhau eu bod yn gweithio gyda'i gilydd ac yn gallu ymateb i anghenion pobl ifanc);
- '**Monitro'** a gwerthuso cymorth, darpariaeth, cynnydd a chanlyniadau i bobl ifanc;
- Harneisio **'darpariaeth'** briodol i gynorthwyo pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET, sy'n NEET a/neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref[2];
- Mynediad  at '**gyflogadwyedd a chyfleoedd cyflogaeth**'; a
- ''Partneriaid yn rhannu cyfrifoldeb ac **atebolrwydd** am gyflawni'r Fframwaith' (pwyslais wedi'i ychwanegu, Llywodraeth Cymru, 2022a, t. 8).

1.9 Fel yr amlinellir uchod, 'Awdurdodau lleol sy'n darparu'r arweinyddiaeth strategol a gweithredol ar gyfer gweithredu'r Fframwaith [Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid], tra bod gan bartneriaethau lleol rôl hollbwysig i'w chwarae wrth gefnogi'r broses o'i gyflawni.' (Llywodraeth Cymru, 2022a, t. 8). Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid, mae Llywodraeth Cymru yn cyllido awdurdodau lleol drwy'r Grant Cymorth Ieuenctid ac mae cyflawni'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid yn seiliedig ar dair prif rôl ar lefel awdurdod lleol:

- Y Cydlynydd Ymgysylltiad a Chynnydd (EPC), sy'n goruchwylio'r gwaith o gyflawni'r Fframwaith;
- gweithwyr arweiniol, sy'n dod o wahanol wasanaethau fel y Gwasanaeth Ieuenctid a Gyrfa Cymru, sy'n cefnogi pobl ifanc 'sydd angen cymorth parhaus'; a

[2] Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, addysg prif ffrwd ac amgen, addysg bellach a rhaglenni dysgu seiliedig ar waith a chyn-ymgysylltu, 'cymorth penodol i hybu iechyd meddwl, llesiant a hunan-barch unigolyn ifanc' ac 'ymyriadau i atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc' (Llywodraeth Cymru, 2022a, t. 8).

- y cydgysylltydd digartrefedd ymhlith pobl ifanc, sy'n canolbwyntio ar atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc (Llywodraeth Cymru, 2022a, t. 9).

1.10 Mae'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid a'r Warant yn ‘gorgyffwrdd’ i bobl ifanc 16 i 18 oed, gan ddarparu ‘rhwyd ddiogelwch i bobl ifanc yn ystod cyfnod pontio allweddol yn eu bywydau’ (Llywodraeth Cymru, 2022a, t. 3) ac o ganlyniad, mae'r Asesiad Gwerthusadwyedd hwn yn gwerthuso'r ddau fframwaith.

**Yr Asesiad Gwerthusadwyedd**

1.11 Nodau Asesiad Gwerthusadwyedd y Warant yw (1) asesu dichonoldeb gwerthuso'r gwaith o weithredu a chyflawni'r Warant a'i heffeithiau hirdymor a (2) datblygu fframwaith i gefnogi'r gwaith o werthuso'r dull ‘system gyfan’ o gyflawni'r Warant (Llywodraeth Cymru, 2022c, t. 11). Mae hyn yn adlewyrchu natur y Warant, sy'n ‘strwythur ymbarél sydd uwchlaw’r holl raglenni i bobl ifanc 16 i 24 oed, a’i nod yw defnyddio’r holl ymyraethau sy’n bodoli er mwyn creu taith syml i bobl ifanc beth bynnag fo’u hamgylchiadau a’u cefndir’ (Llywodraeth Cymru, 2022d, t. 3). Felly, mae deall sut y mae'r rhaglenni gwahanol hyn (sy'n ffurfio'r Warant) yn rhyngweithio â'i gilydd a phobl ifanc, a sut y maent wedi'u llunio gan y Warant, yn ganolog i werthuso'r gwaith o gyflawni'r Warant.

1.12 Mae amcanion Asesiad Gwerthusadwyedd y Warant fel a ganlyn:

- Datblygu damcaniaeth rhaglen gadarn ar gyfer y Warant ymhellach gan nodi'r brif dystiolaeth a rhagdybiaethau a darparu darlun clir o'r ‘system o wasanaethau’ sydd ar gael i bobl ifanc a'r prif randdeiliaid sy'n ymwneud â'r Warant.

- Adolygu tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o Sgwrs Genedlaethol Llywodraeth Cymru gydag amrywiaeth eang o bobl ifanc i ddeall profiad bywyd wynebu rhwystrau o ran cael mynediad at addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a chynnal hyn.

- Nodi'r cwestiynau gwerthuso ac archwilio i ba raddau y gellir eu hateb yn gredadwy ac yn ddibynadwy gan ddefnyddio ffynonellau data presennol, a newydd.

- Nodi opsiynau ar gyfer gweithgarwch ymchwil a chasglu data sy'n ofynnol ar gyfer gwerthuso effeithiol.

- Arfarnu opsiynau a strategaeth monitro a gwerthuso fanwl (gan gynnwys DPA[3]) ar gyfer mynd i'r afael â'r cwestiynau gwerthuso.

**Y papur hwn**

1.13 Mae'r Warant yn bolisi cymhleth i'w werthuso ac mae'n anochel bod yr Asesiad Gwerthusadwyedd a'r fframwaith gwerthuso hyn ychydig yn gymhleth hefyd. Yn dilyn y cyflwyniad hwn:

- Mae adran 2 yn amlinellu dull a methodoleg yr astudiaeth.
- Mae Adrannau 3 i 5 yn amlinellu damcaniaeth newid y Warant, gan fanylu ar y cyd-destun a'r her y ceisiodd y Warant fynd i'r afael â hi (adran 3), y canlyniadau a fwriedir (adran 4), a'r dulliau yr oedd disgwyl i'r Warant eu defnyddio i greu'r canlyniadau hyn (adran 5).
- Mae adran 6 yn amlinellu'r cwestiynau gwerthuso arfaethedig ar gyfer pob un o'r tair lefel y disgwylir newid ynddynt (hynny yw, polisi, ymddygiad pobl ifanc a chanlyniadau cymdeithasol).
- Mae adran 7 yn ystyried mesurau newid ar draws y system, fel cyfran y bobl ifanc sy'n NEET, yn ogystal â mesurau lefel rhaglen sy'n canolbwyntio ar un elfen o'r Warant, gan amlaf rhaglen fel Cymunedau am Waith a Mwy neu Syniadau Mawr Cymru.
- Mae adran 8 yn amlinellu'r fframwaith perfformiad arfaethedig ar gyfer y Warant. Mae'n ystyried sut y gellir mesur newidiadau mewn ymddygiad pobl ifanc ar lefel system a rhaglen. Mae'n canolbwyntio ar ddau fath o ymddygiad: ymgysylltu â chymorth, a chymryd rhan mewn EET, ac mae'r

[3] Rydym yn cydnabod anawsterau nodi un dangosydd y gellir ei ystyried ar ei ben ei hun i gadarnhau perfformiad y Warant oherwydd y cymhlethdodau a'r newidynnau lluosog sy'n gallu effeithio ar gyfnodau pontio pobl ifanc i addysg a gwaith, a phenderfynu'r cyfnodau pontio hyn

ddau ohonynt yn ganolog i nodau'r Warant. Yn ogystal, mae'r atodiadau yn trafod y cwmpas disgwyliedig i bennu dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb, prif fater arall ar gyfer y fframwaith.

- Mae adran 9 yn trafod argaeledd a digonolrwydd data presennol neu bosibl i ateb y cwestiynau gwerthuso a amlinellir yn adran 6. Mae hyn yn cynnwys data perfformiad (fel y trafodir yn adran 7) yn ogystal â mathau eraill o ddata y gallai fod eu hangen i archwilio newid ar lefelau polisi a chymdeithasol, a sut a pham y gellir archwilio newidiadau a welwyd ar bob un o'r tair lefel (hynny yw, polisi, ymddygiad pobl ifanc a chymdeithas).
- O ystyried y materion a amlinellir yn adrannau 3 i 9, mae adran 10 wedyn yn ystyried gwerthusadwyedd y Warant yn ei chyfanrwydd.
- Mae adran 11 yn ystyried y mater cysylltiedig o ran gwerthusadwyedd y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid fel rhan o'r gwerthusiad o'r Warant.
- Mae adran 12 yn ystyried cryfderau a gwendidau'r dulliau a gynigir.
- Mae adran 13 yn amlinellu'r amserlenni amcangyfrifedig ar gyfer gwerthuso.
- Mae adran 14 yn amlinellu casgliadau'r adroddiad hwn ac argymhellion ar gyfer y camau nesaf.

## 2. Ymagwedd a dulliau

2.1 Mae damcaniaethau newid, asesiad gwerthusadwyedd a fframwaith gwerthuso'r Warant wedi'u datblygu drwy'r canlynol:

- trafodaethau ac ymgyngoriadau gyda rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â datblygu a gweithredu'r Warant a'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid (gan gynnwys y rhai sydd â chyfrifoldebau mewn meysydd fel addysg bellach a phrentisiaethau, Gwaith Teg, Gyrfa Cymru a pholisi cyflogadwyedd) (gweler y testun mewn blwch, 'Ymgysylltu â Rhanddeiliaid';
- adolygiad desg o ddogfennau sy'n gysylltiedig â pholisi gan gynnwys, er enghraifft, Asesiad o Effaith y Warant (Llywodraeth Cymru, 2022d) ac adroddiadau blynyddol (Llywodraeth Cymru, 2023a);
- adolygiad desg o ymchwil a thystiolaeth sy'n ymwneud â ffocws y Warant ar bobl ifanc sy'n NEET, neu mewn perygl o fod yn NEET (gweler y testun mewn blwch, 'Adolygiad Desg o'r Dystiolaeth');
- adolygiad desg o ymchwil a thystiolaeth ar werthuso systemau cymhleth[4] (gweler e.e. Trysorlys EM, 2020a; Skivington, et al., 2021), gwerthuso effaith (gweler e.e. Trysorlys EM, 2020b; Bond, 2015), a gwerthusiadau o Warantau i Bobl Ifanc yn yr Alban a'r Undeb Ewropeaidd (UE) (gweler, er enghraifft, Llywodraeth yr Alban, 2022; y Comisiwn Ewropeaidd, 2017) (a amlinellir yn Atodiad E);
- adolygiad desg o ddata perthnasol,[5] gan gynnwys ystadegau gwladol (fel y Datganiad Ystadegol Cyntaf ar bobl ifanc sy'n NEET), data gweinyddol (fel Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a data categoreiddio Gyrfa Cymru), a data rhaglenni (fel data gwybodaeth reoli); ac

[4] Mae system gymhleth yn un a nodweddir gan lawer o elfennau gwahanol sy'n rhyngweithio (sydd gyda'i gilydd yn ffurfio'r system) nad ydynt yn cael eu rheoli'n ganolog nac yn gweithio tuag at gynllun a bennwyd ymlaen llaw. Mae'r rhyngweithio rhwng yr elfennau hyn yn llunio priodoleddau'r system gyfan, sy'n golygu bod y cyfan yn fwy swm y rhannau, a gall y rhyngweithio hwn greu effeithiau aflinol, gan olygu bod newidiadau mewn systemau a'u priodoleddau yn anrhagweladwy (Trysorlys EM, 2020a).

[5] Adeiladodd yr Asesiad Gwerthusadwyedd ar yr adolygiad data cychwynnol a gynhaliwyd fel rhan o'r Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth (Llywodraeth Cymru 2024b, 2024c) i fapio ac arfarnu'r ffynonellau data posibl gwahanol y gellid eu defnyddio ar gyfer y gwerthuso proses ac unrhyw werthuso effaith yn y dyfodol.

- adolygiad desg o werthusiadau presennol ac wedi'u cynllunio o raglenni elfennau sy'n rhan o'r Warant, fel Cymunedau am Waith a Mwy, TSC+ a Cymru'n Gweithio, wedi'i ategu gan gyfweliadau a thrafodaethau gyda'r timau sy'n cynnal y gwerthusiadau ac aelodau o Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS) Llywodraeth Cymru.

**Ymgysylltu â Rhanddeiliaid**

Mae dealltwriaeth o sut y disgwylir i'r Warant weithio yn hanfodol er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu damcaniaeth newid rhaglen (Trysorlys EM, 2020b). Mae angen i hyn gynnwys:

- y cyd-destun a'r broblem y mae'r Warant yn ceisio mynd i'r afael â hi, fel effeithiau disgwyliedig y pandemig ar gyfnodau pontio pobl ifanc i EET;
- canlyniadau a fwriedir y Warant, fel cynnydd yn y nifer y bobl ifanc mewn EET; a
- y dulliau y disgwylir iddynt sicrhau'r newid, fel ehangu'r cynnig cymorth i bobl ifanc.

Er mwyn llywio a phrofi'r set hon o ragdybiaethau (neu ddisgwyliadau), cynhaliwyd rownd gychwynnol o gyfweliadau gyda swyddogion polisi ac ymchwil Llywodraeth Cymru ym mis Mai a mis Mehefin 2023 (mae copi o'r rhestr gyfweld wedi'i gynnwys yn Atodiad F). Defnyddiwyd y cyfweliadau, ochr yn ochr â mathau eraill o ddata, fel y rhai a gynhyrchwyd drwy adolygiad desg o ddogfennau, er mwyn:

- archwilio a mapio'r cyd-destun, gan gynnwys tirwedd polisi a system gymorth ar gyfer pobl ifanc, er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu'r map systemau (gweler adran 3);
- asesu sut y datblygwyd y Warant a nodi disgwyliadau'r Warant, er mwyn llywio datblygiad y ddamcaniaeth newid (gweler adran 5); a
- nodi barn rhanddeiliaid ar werthuso'r Warant, ac, er enghraifft, y cwestiynau a'r fethodoleg ymchwil (gweler adran 6).

Trafodwyd a mireiniwyd y ddamcaniaeth newid ymhellach drwy gyfres o weithdai gyda rhanddeiliaid ym mis Hydref 2023. Daeth y rhain ag amrywiaeth o staff at ei gilydd o bob rhan o Lywodraeth Cymru, gan gynnwys aelodau o dimau polisi'r Warant a'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid, a staff sydd â

chyfrifoldebau mewn maes fel entrepreneuriaeth a Busnes Cymru, cymorth cyflogaeth, cymorth cyflogadwyedd cysylltiedig ag iechyd, gwasanaethau gwybodaeth a dadansoddol, addysg ôl-16, hyfforddiant a sgiliau a staff o bartneriaid fel Gyrfa Cymru a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.

**Datblygu damcaniaeth newid ar gyfer y Warant**

2.2 O ystyried ehangder a chymhlethdod y Warant, yn hytrach nag un ddamcaniaeth newid gyffredinol sy'n ceisio gwneud popeth (ar unwaith), datblygwyd cyfres o ddamcaniaethau newid cydgysylltiedig sy'n canolbwyntio ar wahanol agweddau ar gyd-destun, dulliau a chanlyniadau'r Warant.[6] Ceir amlinelliad o'r rhain yn adrannau 3 i 5. Fel yr amlinellwyd uchod, defnyddiodd hyn ddata o adolygiad desg o ymchwil (Llywodraeth Cymru 2024b, 2024c) a pholisi ynghyd â thrafodaethau a gweithdai gyda rhanddeiliaid (a amlinellwyd uchod).

**Adolygiad desg o'r dystiolaeth**

Mae canllawiau'r Llyfr Magenta ar werthuso yn nodi y gall synthesis o dystiolaeth bresennol helpu i gynnal prawf straen ar ddamcaniaeth newid drwy, er enghraifft, amlygu meysydd lle mae'r sylfaen dystiolaeth yn wannach, a helpu i nodi trywydd ymholi pwysig ar gyfer y gwerthusiad (Trysorlys EM, 2020b).

Felly, yr Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth: cynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (Llywodraeth Cymru 2024b, 2024c), sy'n syntheseiddio'r dystiolaeth bresennol, oedd y brif sylfaen ar gyfer datblygu'r ddamcaniaeth newid ar gyfer y Warant. Mae'r adolygiad hefyd yn llywio'r asesiad gwerthusadwyedd a'r fframwaith gwerthuso, er enghraifft drwy ddarparu mewnwelediad i werthusiadau o ymyriadau tebyg.

[6] Bydd deall y perthnasoedd a'r rhyngweithio rhwng y cyd-destun a'r dulliau ar gyfer newid darpariaeth ac ymddygiad pobl ifanc, ac ar gyfer creu canlyniadau, yn hanfodol wrth ddeall sut, pam ac i bwy y mae'r Warant yn 'gweithio' (gweler, er enghraifft, Pawson a Tilly, 1997; Westhorpe, 2014).

**Datblygu'r asesiad gwerthusadwyedd a'r fframwaith gwerthuso**


2.3 Mae'r asesiad gwerthusadwyedd hwn a'r fframwaith gwerthuso arfaethedig yn defnyddio'r damcaniaethau newid. Er enghraifft, mae'r damcaniaethau newid yn rhoi ffocws yn yr asesiad gwerthusadwyedd a'r fframwaith gwerthuso arfaethedig ar werthuso newid ar dair lefel gydgysylltiedig:

- **Polisi ac ymarfer:** sut y mae'r cynnig cymorth i bobl ifanc 16 i 24 oed yn newid (canlyniadau polisi[7]);
- **Ymddygiad pobl ifanc:** sut y mae ymddygiad pobl ifanc 16 i 24 oed yn newid mewn ymateb i newidiadau yn y cynnig cymorth (canlyniadau ymddygiadol); a
- **Chanlyniadau cymdeithasol**: sut y mae newidiadau yn ymddygiad pobl ifanc 16-24 oed yn cyfrannu at ganlyniadau ehangach, fel cryfhau ffyniant, iechyd ac iaith Cymru yn unol â nodau cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

2.4 Mae Ffigur 2.1. yn dangos y ddamcaniaeth newid lefel uchel (‘meta’) ar gyfer y Warant sy'n cysylltu'r tair damcaniaeth newid a gyflwynir yn adran 5. Mae’n dangos sut y disgwylir i newid ar lefel polisi greu newidiadau yng ngalluoedd pobl ifanc, eu mynediad at gyfleoedd a chymhellion ac, felly, eu hymddygiad. Disgwylir i'r newidiadau hyn mewn ymddygiad pobl ifanc, yn eu tro, arwain at ganlyniadau cymdeithasol.

[7] Bydd angen i hyn ystyried polisi ar bapur ac yn ymarferol (er enghraifft, ystyried cyflwyno/gweithredu).

**Ffigur 2.1. Damcaniaeth newid lefel uchel ('meta') y Warant**




2.5 Er mwyn archwilio sut (a pham) mae ymddygiad pobl ifanc 16 i 24 oed yn newid, mae'r fframwaith gwerthuso yn defnyddio'r model COM-B o newid ymddygiadol, a ddefnyddiwyd yn yr Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth y cyfeiriwyd ato uchod. Caiff hyn ei drafod ymhellach yn adran 4.

## 3. Y broblem (neu'r her) y mae'r Warant yn ceisio mynd i'r afael â hi a'r cyd-destun y mae'n gweithredu ynddo

### Cyflwyniad

3.1 Mae diweithdra ymhlith pobl ifanc neu anweithgarwch economaidd, a/neu adael addysg (neu hyfforddiant) yn gynnar yn niweidiol i unigolion, economi a chymdeithas Cymru. Er enghraifft, mae diweithdra ac anweithgarwch economaidd yn gysylltiedig â lefelau is o lesiant ac iechyd meddwl a chorfforol gwaeth. Gall yr effeithiau hyn barhau drwy oes, a ddisgrifir fel ‘creithio’ (Arulampalam et al., 2001) ac mae effeithiau negyddol tebyg yn gysylltiedig â gadael addysg yn gynnar (Schuller, 2017).

3.2 Trafodir yr effeithiau tymor byr a hirdymor hyn sy'n gysylltiedig ag ymddieithrio oddi wrth EET yn fanylach yn yr Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth: cynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (Llywodraeth Cymru 2024b, 2024c) ac yn nid ydynt yn cael eu hailadrodd eto yn yr adroddiad hwn. Maent yn cynrychioli'r brif her y ceisiodd y Warant fynd i'r afael â hi yn wreiddiol, o ystyried y pryderon y byddai pandemig COVID-19 yn arwain at gynnydd sydyn mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc. Ofnwyd, heb weithredu pendant, y byddai hyn yn creu ‘cenhedlaeth goll’, a ffurfiodd rhan bwysig o'r cyd-destun pan gafodd y Warant ei datblygu (gweler er enghraifft, Ymchwil y Senedd, 2021).

### Y rhesymeg dros ganolbwyntio ar ymddygiad pobl ifanc

3.3 Mae ymddygiad pobl ifanc, fel gwneud cais am swyddi neu gyrsiau addysgol neu hyfforddi, a pharhau i weithio neu astudio, yn amodau angenrheidiol, hyd yn oed os nad ydynt yn amodau digonol, ar gyfer pobl ifanc sy'n mynd i EET ac yn cynnal hyn. Er enghraifft, yn ogystal â gwneud cais am swyddi neu gyrsiau, neu eisiau parhau i weithio neu astudio, mae angen y galluogrwydd a'r cyfle ar bobl ifanc i wneud hynny. Felly, bydd newid nifer (neu gyfran) y bobl ifanc mewn EER yn gofyn am newidiadau o ran ymddygiad pobl ifanc. Fodd bynnag, bydd y newidiadau hyn mewn ymddygiad dim ond yn arwain at ganlyniadau, fel cyfran uwch o bobl ifanc

mewn EET, os bydd amodau eraill, fel sicrhau digon o gyfleoedd EE sy'n agored i bobl ifanc, yn cael eu bodloni hefyd.

3.4 Fel y dengys ffigur 3.1 isod, mae ymddygiad person ifanc, fel chwilio am waith yn effeithiol a gwneud cais am swyddi, yn gofyn am y canlynol:


- y gallu - neu'r **galluogrwydd** - i gyflawni'r ymddygiad (er enghraifft, meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r hunaneffeithiolrwydd neu'r hunan-gred sy'n ofynnol);
- y bwriad - neu'r **cymhelliant** - i gyflawni'r ymddygiad; ac
- absenoldeb cyfyngiadau amgylcheddol (er enghraifft, peidio â wynebu rhwystrau fel diffyg gofal plant) neu, i'r gwrthwyneb, cael y **cyfle** i gyflawni'r ymddygiad (Michie et al., 2011).

3.5 Fel y mae'r saethau un pen yn ffigur 3.1 yn dangos, mae galluogrwydd a chyfle ill dau yn dylanwadu ar gymhelliant. Er enghraifft:

- gall hyder yn y gallu i gyflawni ymddygiad yn llwyddiannus, fel chwilio am waith, a'r cyfle i wneud hynny, gynyddu cymhelliant person ifanc i chwilio am waith.
- i'r gwrthwyneb, gall galluogrwydd cyfyngedig (er enghraifft, oherwydd salwch neu brofiad a/neu ddealltwriaeth gyfyngedig o'r farchnad lafur) a/neu wynebu rhwystrau o ran cael mynediad at gyfleoedd (er enghraifft, oherwydd cyfrifoldebau gofalu neu allgáu digidol) danseilio cymhelliant.

3.6 Fel y mae'r saethau pen dwbl yn ffigur 3.1 yn dangos, mae galluogrwydd, cymhelliant a chyfleoedd yn dylanwadu ar ymddygiad ac yn cael eu dylanwadu gan ymddygiad. Er enghraifft, gall ymddygiad, fel cymryd rhan mewn EET, gynyddu galluoedd (er enghraifft, os dysgir sgiliau newydd), gall gynyddu mynediad at gyfleoedd (er enghraifft, drwy ddarparu incwm i dalu am drafnidiaeth breifat) a gall gynyddu cymhelliant (er enghraifft, o ganlyniad i wireddu manteisio ymgysylltu mewn EET, fel ennill sgiliau ac incwm).

**Ffigur 3.1. Y Fframwaith COM-B (Galluogrwydd, Cyfle, Cymhelliant – Ymddygiad)**




Ffynhonnell: Michie et al., 2011, atgynhyrchwyd gyda chaniatâd yr awdur.

3.7 Dyma'r model COM-B (Michie, et al., 2011), model sefydledig o newid ymddygiadol a ddefnyddiwyd yn yr Adolygiad Cyflym o Dystiolaeth: cynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (Llywodraeth Cymru 2024b, 2024c) i helpu i archwilio a deall sut y mae ymddygiad pobl ifanc yn newid (neu beidio) mewn ymateb i bolisïau fel y Warant. Yn yr adroddiad hwn bydd yn cael ei ddefnyddio fel yr 'edefyn aur' sy'n cysylltu'r dadansoddiad o'r canlynol:

- y **cyd-destun** ar gyfer y Warant, gan gynnwys y broblem neu'r her y mae'r Warant yn ceisio mynd i'r afael â nhw, a drafodir yn yr adran hon;
- **canlyniadau** a fwriedir y Warant a drafodir yn adran 5; a
- y **dulliau** y disgwylir iddynt greu'r canlyniadau hyn, a drafodir yn adran 6.

3.8 Dylid nodi mai un o gryfderau'r model, ond un o'i wendidau posibl hefyd, yw ei ffocws ar yr unigolyn. Yn y model COM-B, mae 'galluoedd' yn ymwneud â galluoedd seicolegol a chorfforol unigol, yn yr ystyr o feddu ar y gallu i wneud rhywbeth, ac mae cyfleoedd yn dibynnu ar ffactorau amgylcheddol. Gellir cyferbynnu'r cysyniad hwn â'r cysyniad o 'alluogrwydd' yn y 'Dull Galluoedd' a ddatblygwyd gan Amartya Sen ac eraill. Mae'r Dull Galluoedd yn canolbwyntio ar alluoedd person yn yr ystyr o'i ryddid a'i allu i weithredu (hynny yw, ei gyfleoedd), o ystyried ei adnoddau a'i amgylchiadau unigol, fel

ei iechyd, gwybodaeth a sgiliau, a ffactorau allanol fel amodau cymdeithasol ac amgylcheddol (Lewis, 2012). Mae'r ddau ddull damcaniaethol yn amlygu'r angen i ystyried cyfyngiadau amgylcheddol, neu rwystrau i gyfle.

3.9 Mae hyn yn codi cwestiynau am sut y mae cymorth yn cael ei gysyniadu yn y model COM-B. Gall cymorth gynyddu 'galluoedd' pobl, yn yr ystyr o'u rhyddid i weithredu (fel y diffinnir gan y Dull Galluoedd). Yn bwysig, fodd bynnag, yn y model COM-B, gall wneud hynny drwy'r canlynol:

- gwella 'galluogrwydd' mewnol unigolyn, er enghraifft, lle mae cymorth yn cynyddu gwybodaeth neu hyder unigolyn; a/neu
- wella 'cyfle' unigolyn i weithredu, er enghraifft, lle mae cymorth yn helpu unigolyn i oresgyn, neu ddileu, rhwystrau y byddent yn eu hwynebu fel arall.

3.10 Yn ogystal, gall cymorth wella cymhelliant unigolyn i weithredu, naill ai'n uniongyrchol, er enghraifft, drwy anogaeth, neu'n anuniongyrchol, drwy wella galluoedd unigolyn a/neu fynediad at gyfleoedd.

**Pandemig COVID-19**

3.11 Mewn sawl ffordd, roedd pandemig COVID-19 yn brofiad unigryw gyfer Cenhedlaeth Z (Cen Z). [8] Roedd y cyfnod yn wahanol i unrhyw un arall a brofwyd gan bobl ifanc yn y cyfnod modern, ac roedd yr effaith ar alluoedd a chymhellion pobl ifanc a'u mynediad at gyfleoedd (ac felly eu haddysg, hyfforddiant a chyfnodau phontio i gyflogaeth, a'u gallu i gynnal cyflogaeth) yn sylweddol. Fel yr amlinellwyd yn y cyflwyniad, cafodd y Warant ei datblygu i ddechrau mewn ymateb i effaith ddisgwyliedig y pandemig ar ddiweithdra ymhlith pobl ifanc.

3.12 Fodd bynnag, er bod y pandemig yn brofiad unigryw i bobl ifanc mewn llawer o ffyrdd, nid yw hyn yn wir am gynnydd mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc

[8] Mae Cen-Z yn disgrifio'r garfan o bobl ifanc a anwyd rhwng canol y 1990au a dechrau'r 2010au. Maent yn dilyn carfannau cynharach fel Mileniaid, Cenhedlaeth X a chenhedlaeth y 'Baby Boomers'.

ar ôl crebachu cyfleoedd economaidd[9] ac mae hyn wedi'i brofi gan genedlaethau blaenorol. Efallai fod cenhedlaeth y ‘baby boomers’ wedi ymuno â marchnad lafur fywiog yn y 1970au, pan oedd y rhan fwyaf o bobl ifanc yn gadael yr ysgol yn 16 oed a dechrau gweithio. Fodd bynnag, mae profiadau cenedlaethau dilynol, Cen-X (y rhai a anwyd yn ail hanner y 1960au neu unrhyw bryd yn y 1970au), Mileniaid (y rhai a anwyd yn y 1980au a dechrau'r 1990au), a Cen-Z (sy'n ganolbwynt i'r Warant) wedi bod yn wahanol iawn. Yn enwedig o'r 1980au ymlaen:

- roedd dad-ddiwydiannu wedi tarfu ar farchnadoedd llafur pobl ifanc;
- cafwyd cynnydd sydyn mewn pryder y llywodraeth ynghylch cynnydd mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc, a chymorth ac ymyriad i fynd i'r afael â hyn; a
- ehangwyd cyfleoedd addysg bellach ac uwch, a pharhaodd nifer cynyddol o bobl ifanc mewn addysg bellach ac addysg uwch (McGuire, 2022; Jones, 2005; Roberts, 1995).

**Y cyd-destun cymdeithasol ac economaidd ar gyfer Cen Z a'r Warant**

3.13 Mae'r newidiadau cymdeithasol ac economaidd ers y 1980au wedi creu amrywiaeth ehangach o gyfleoedd EET, ond mwy o risgiau hefyd, i bobl ifanc, sy'n gynyddol gyfrifol am lywio strwythur cymhleth o gyfleoedd heriau (gweler, er enghraifft, Jones, 2005; Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, 2005; Roberts, 1995). Gellir cymharu'r economi a'r gymdeithas hyd at y 1980au fel model ‘optio allan’, a'r disgwyliad oedd y byddai'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn dilyn llwybrau cyflogaeth cul ac a oedd yn aml ar wahân ar gyfer y rhywiau ar ôl gadael yr ysgol. Er enghraifft, ar gyfer dynion ifanc, llwybrau i'r gwaith dur, y ffatri neu'r pwll glo, ac i fenywod ifanc, llwybrau i waith gweinyddol neu ysgrifenyddol, arlwyo neu lanhau. Yn dilyn hynny, symudodd yr economi i fodel a oedd yn fwy tebyg i un ‘optio i mewn’, lle roedd llwybrau i gyflogaeth, a hefyd i addysg a hyfforddiant ôl-16, yn hollti ac yn amlhau. O ganlyniad,

[9] Mae pobl ifanc yn arbennig o agored i niwed i ddirywiadau economaidd, a phan fo llai o gyfleoedd cyflogaeth, efallai y bydd rhai pobl ifanc, na fyddent wedi gwneud fel arall, yn dewis aros mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16, ond mae'r rhai sydd naill ai ddim yn aros mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16, neu'n gadael, neu'n cwblhau ac yna'n gadael yn fwy tebygol o fod yn NEET yn ystod dirwasgiad (Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, 2015).

mae pwysigrwydd gweithrediad pobl ifanc eu hunain (ac felly eu galluoedd, eu cymhellion a'u cyfleoedd unigol) wedi cynyddu.[10]

3.14 Arweiniodd y newidiadau economaidd-gymdeithasol hyn, ynghyd â'r cynnydd mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc yn y 1980au, at sefydlu rhaglenni newydd i gynorthwyo cyfnodau pontio pobl ifanc i gyflogaeth, fel y Cynllun Hyfforddi Ieuenctid (YTS) - rhaglenni sydd wedi parhau i ddatblygu hyd heddiw (gweler y testun mewn blwch). Arweiniodd y pandemig at ddatblygiad pellach rhaglenni, gan Lywodraeth Cymru ac Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU, a datblygwyd y Warant yn y dirwedd lawn hon.

**Rhaglenni cymorth cyflogaeth ieuenctid yn 2021**

Roedd tirwedd cymorth cyflogaeth Cymru yn 2021 yn cynnwys cymysgedd o brosiectau a rhaglenni Llywodraeth Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau, awdurdodau lleol a'r trydydd sector (Ymchwil y Senedd, 2021). Roedd gan y prosiectau a'r rhaglenni grwpiau targed (a meini prawf cymhwystra) gwahanol gyda rhai, er enghraifft, wedi'u targedu at bobl ifanc 16 i 24 oed ac eraill yn agored i'r rhai 16 oed a throsodd, a chynigion cymorth gwahanol, yn amrywio o rai ysgafn i rai dwys. Ymhlith y rhaglenni roedd:

- Hyfforddeiaethau, a olynwyd gan TSC+, sef rhaglen hyfforddi a datblygu ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed;
- ReAct (ReAct+ bellach) gan gynnig cymorth wedi'i deilwra i'r rhai sydd mewn perygl o golli swydd, neu y mae eu swyddi wedi'u dileu;
- Rhieni, Gofal Plant, Cyflogaeth (PaCE), gan gynnig cymorth cyflogaeth i'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu;
- Cymunedau am Waith, a Cymunedau am Waith a Mwy - cymorth cynghori cyflogaeth arbenigol a mentora dwys ar gyfer y rhai 16 oed a throsodd sydd bellaf o'r farchnad lafur.

[10] Cymharodd Roberts (1995) hyn â phobl ifanc mewn ardal benodol yn dal yr un trên (trosiadol) wrth bontio o'r ysgol i fyd gwaith, gan gyferbynnu hyn â'r sefyllfa yn y 1990au, pan oedd yn rhaid i bobl ifanc ddewis a gwneud eu teithiau eu hunain o'r ysgol i fyd gwaith.

- Cymorth yr Adran Gwaith a Phensiynau gan hyfforddwyr gwaith, a rhaglenni wedi'u targedu hefyd, fel y Rhaglen Gwaith ac Iechyd ar gyfer y rhai sy'n ddi-waith yn yr hirdymor[11] a'r rhai â chyflyrau iechyd, a rhaglenni a ddatblygwyd mewn ymateb i'r pandemig fel Kickstart, Cymorth wedi'i Dargedu at gael Swydd (JETS) ac Ailgychwyn.
- Rhaglenni a phrosiectau cyflogadwyedd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), fel Cronfa Cynhwysiant Gweithredol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), gan helpu pobl dan anfantais i ddychwelyd i gyflogaeth.

3.15 Ers 2021, mae'r dirwedd wedi parhau i ddatblygu. Mae rhaglenni a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop fel Cymunedau am Waith, y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol a Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) wedi dod i ben, fel y mae rhai o raglenni'r Adran Gwaith a Phensiynau fel Kickstart a JETS, ond mae rhaglenni lleol a rhanbarthol newydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin[12] wedi dechrau. Yn fwy diweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi symleiddio ei rhaglenni, er enghraifft, gyda'r oedran cymhwystra ar gyfer Cymunedau am Waith a Mwy a ReAct+ yn cael ei godi i 20.


3.16 Mae'r newidiadau mewn addysg a hyfforddiant ôl-16, y farchnad lafur a gwasanaethau cymorth yn croestorri â newidiadau o ran dyheadau pobl ifanc. Er enghraifft, mae chwyddiant (a'r argyfwng costau byw) a chynnydd mewn prisiau tai a rhentu wedi cynyddu dibyniaeth llawer o bobl ifanc ar gymorth rhieni a gadael llawer nad ydynt yn gallu byw'n annibynnol (gan oedi'r dimensiwn hwn o'u pontio i fyd oedolion) (gweler, er enghraifft, Resolution Foundation, 2023). Mae'n bosibl bod hyn, yn ei dro, wedi gostwng dyheadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth (oherwydd, er enghraifft, bod y posibilrwydd o ddefnyddio cyflogaeth i gyflawni byw'n annibynnol yn mynd yn fwy anodd ei gyflawni).

[11] Gallai pobl ifanc a oedd yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith gael eu mandadu i'r rhaglen os oeddent yn NEET neu'n 18 i 24 oed ac yn ddi-waith am fwy na naw mis.
[12] Datblygwyd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn dilyn ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd, a olygai ddiwedd cyllid strwythurol Ewropeaidd. Fe'i bwriedir i gefnogi agenda Ffyniant Bro Llywodraeth y DU.

**Y cyd-destun polisi ehangach**

3.17 Fel y dengys ffigur 3.2, mae cyd-destun polisi'r Warant yn ymestyn y tu hwnt i raglenni cyflogadwyedd, i gwmpasu polisi mewn meysydd fel addysg, iechyd a gofal plant. Mae'r meysydd polisi ehangach hyn yn aml yn mynd i'r afael â ffactorau mwy ‘eithaf’ fel lefelau isel o gyrhaeddiad addysgol neu iechyd gwael, sy'n cyfyngu ar alluoedd pobl ifanc, yn hytrach na'r ffactorau ‘agosaf’ fel mynediad at gymorth i gael mynediad at EET (Llywodraeth Cymru, 2024b).

**Ffigur 3.2. Map Polisi Llywodraeth Cymru: cymorth i bobl ifanc ymgysylltu ag EET**





Ffynhonnell: addaswyd o [Cymru gryfach, decach a gwyrddach]()

**Gweithrediad pobl ifanc**

3.18 Fel y dengys ffigur 3.3., mae **galluogrwydd** pobl ifanc i lywio'r **cyfleoedd** a'r heriau a grëwyd gan y cyd-destun polisi economaidd-gymdeithasol, a'r dewisiadau a wnânt (o ystyried eu **cymhelliant**), ac felly yn y pen draw eu **hymddygiad** yn cael eu llunio gan amrywiaeth o wahanol ffactorau a grymoedd allanol.

**Ffigur 3.3. Enghreifftiau o'r ffyrdd y mae'r cyd-destun cymdeithasol, gwleidyddol, economaidd a diwylliannol yn llunio galluoedd, cyfleoedd, cymhelliant ac ymddygiad Cenhedlaeth Z**



| Allwedd | Ffactorau sy'n gyffredinol yn cynorthwyo ymgysylltiad pobl ifanc ag EET | Ffactorau y mae eu heffaith ar ymgysylltiad pobl ifanc ag EET yn gymysg | Ffactorau sy'n gyffredinol yn rhwystro ymgysylltiad pobl ag EET |
|---|---|---|---|

Ffynonellau: Llywodraeth Cymru, 2024b; Golley Slater, 2022; McGuire, 2022, Canolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol, 2022; Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021; Sefydliad Tegwch Iechyd, 2020; Jones, 2005.

* Roedd dirywiad iechyd meddwl pobl ifanc yn rhagflaenu'r pandemig ond mae'n bosibl ei fod wedi'i gyflymu gan y pandemig ar gyfer rhai grwpiau (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021).
** Mae toriadau mewn cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cymorth EET wedi'u rhagweld o ganlyniad i ddiwedd cyllid UE i Gymru a symud tuag at ffrydiau cyllido newydd fel y Gronfa Ffyniant Gyffredin (Ymchwil y Senedd, 2023).
*** Mae newidiadau o ran nifer y swyddi a math neu gymeriad swyddi (er enghraifft, o ran cyflog, diogelwch, hyfforddiant a chyfleoedd dilyniant), yn ogystal â nifer a math y cyfleoedd addysg a hyfforddiant, i gyd yn ffactorau cyd-destunol pwysig.
**** Mae'r rhain yn cael eu nodi fel ‘penderfynyddion cymdeithasol iechyd’ (Sefydliad Tegwch Iechyd, 2020).

3.19 Er y gall y ffactorau hyn lunio galluoedd pobl ifanc, eu mynediad at gyfleoedd, eu cymhelliant a'u hymddygiad, nid ydynt yn penderfynu'r canlyniadau hyn. Yn hytrach, y cydadwaith rhwng y ffactorau allanol hyn a galluoedd pobl ifanc, eu mynediad at gyfleoedd, eu cymhelliant a'u hymddygiad sy'n llunio canlyniadau. Er enghraifft, yn ystod dirywiad economaidd, mae'r person ifanc sydd wedi cael trafferth yn yr ysgol ac sydd â llythrennedd a rhifedd gwael (ac felly galluoedd cyfyngedig) yn debygol o gael trafferth dod o hyd i swydd gyda hyfforddiant (ac felly mynd heb gyfleoedd i wellau eu galluoedd) o gymharu â pherson ifanc sydd wedi ffynnu yn yr ysgol. Mae amlygiad pobl ifanc i'r ffactorau gwahanol hyn hefyd yn wahanol dros amser a lle. Er enghraifft, teimlwyd effeithiau dad-ddiwydiannu yn fwy llym mewn ardaloedd fel cymoedd de Cymru, lle roedd diwydiant trwm.

3.20 Gall dadansoddiad sy'n ystyried ffactorau a grymoedd allanol, a'r ffyrdd y maent yn llunio ac yn rhyngweithio â galluoedd pobl ifanc, eu mynediad at gyfleoedd, eu cymhelliant, a'u hymddygiad helpu i esbonio pam:

- mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn aros mewn EET, ond mae lleiafrif sylweddol yn ymddieithrio ac yn mynd yn NEET; ac
- mae rhai grwpiau, fel pobl ifanc anabl, y rhai â chyflyrau iechyd a'r rhai heb gymwysterau neu gymwysterau isel, yn agored i risg uwch o lawer o fod yn NEET na grwpiau eraill.

3.21 Fel y nodwyd eisoes, mae'r materion hyn yn cael eu harchwilio'n fanwl yn yr Adolygiad Cyflym o Dystiolaeth: cynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (Llywodraeth Cymru 2024b, 2024c) ac nid ydynt yn cael eu hailadrodd ymhellach yma.

# 4. Canlyniadau: Y newid y mae'r Warant yn ceisio ei sicrhau

4.1 Er nad oes polisi na dogfen strategaeth gyffredinol ar gyfer y Warant, mae Y Warant i Bobl Ifanc: asesiad o effaith (Llywodraeth Cymru, 2022d, tt. 8-9) yn disgrifio prif ganlyniadau a fwriedir y Warant. Y rhain yw:

- ‘mwy o bobl ifanc 16 i 24 oed yn teimlo'n fwy parod ar gyfer gwaith a bywyd;
- mwy o bobl ifanc 16 i 24 oed yn cael mynediad at lwybrau'n ôl at addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i bob person ifanc sy'n ddi-waith;
- pobl ifanc 16 i 24 oed yn cael mynediad at gymorth os oes ganddynt ddiddordeb mewn bod yn hunangyflogedig
- cyflogwyr â’r hyder a'r gefnogaeth i recriwtio pobl ifanc 16 i 24 oed i gael swyddi a phrentisiaethau o safon;
- mwy o gyflogwyr yn cynnig profiadau o’r gweithle i bobl ifanc 16 i 24 oed; [a]
- mwy o bobl ifanc 16 i 24 oed difreintiedig yn elwa o argaeledd cyfleoedd cyflogaeth â thâl a chyfleoedd dysgu.’

*Cyfrannu at gerrig milltir cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*

4.2 Fel yr amlinellir yn yr asesiad o effaith (ibid., t. 4), disgwylir i'r Warant gyfrannu at y dangosyddion a'r cerrig milltir cenedlaethol canlynol (a ddefnyddir i fesur cynnydd yn erbyn nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol):

- ‘Bydd o leiaf 90% o’r rhai 16-24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050’
- ‘Dileu'r bwlch rhwng cyfradd gyflogaeth Cymru a chyfradd y DU erbyn 2050, gan ganolbwyntio ar waith teg a chynyddu nifer y bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy’n cyfranogi yn y farchnad lafur.’ (Llywodraeth Cymru, 2021a, tt 8-9).

4.3 Fodd bynnag, mewn trafodaethau ar gyfer yr Asesiad Gwerthusadwyedd hwn, nododd tîm polisi'r Warant y gallai'r nodau hirdymor hyn gael budd o gerrig milltir canolraddol yn ogystal â chanolbwyntio mwy ar grwpiau targed neu flaenoriaeth penodol, fel pobl ifanc anabl.

*Cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*

4.4 Fel yr amlinellwyd yn asesiad o effaith Llywodraeth Cymru (ibid., tt. 9-10), disgwylir i'r Warant gyfrannu at nodau canlynol [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol]:

- ‘Cymru lewyrchus: Bydd y Warant i Bobl Ifanc yn helpu i ddatblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig fydd yn ei thro yn cynorthwyo'r economi i gynhyrchu cyfoeth a darparu cyfleoedd cyflogaeth. Bydd cyfleoedd yn canolbwyntio cymorth ar gymdeithas carbon isel.
- Cymru iachach: Mae mynediad at sgiliau yn cael ei dderbyn yn gyffredinol fel ffactor arwyddocaol yn yr hyn sy’n digwydd yn ein bywyd, gan gynnwys iechyd, sefyllfa economaidd-gymdeithasol a disgwyliad oes. Mae tystiolaeth yn dangos y gall cyflawni gwaith teg sicrhau manteision tymor hir lluosog, gan ein helpu i oresgyn problemau sylfaenol parhaus ac effeithio ar newid yn y tymor hir.
- Cymru sy'n fwy cyfartal: Cymdeithas sy’n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo’u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a’u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). Bydd y Warant i Bobl Ifanc yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, gwella lles a lleihau tlodi sy'n parhau i fod yn dreiddiol yng Nghymru. Rydym eisoes yn gweld ardaloedd presennol o amddifadedd yn dioddef mwy nag ardaloedd cefnog Cymru ac rydym yn gwybod bod cyflogaeth yn llwybr uniongyrchol allan o dlodi.
- Diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus: cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn diogelu'r Gymraeg. Bydd y Warant yn hybu ac annog y defnydd o wasanaethau yn y Gymraeg ac mae’r cymunedau sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn tueddu i fod yn wledig eu natur a byddwn yn sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei roi i argaeledd gwasanaethau yn yr ardaloedd yma er mwyn sicrhau nad yw siaradwyr Cymraeg o dan anfantais o'r herwydd.’

## 5. Y dulliau: y ffyrdd y disgwylir i'r Warant greu'r newidiadau hyn


**Damcaniaethau newid**

5.1 Fel yr amlinellwyd yn adran 2, mae cyfres o ddamcaniaethau newid cysylltiedig sy'n canolbwyntio ar wahanol agweddau ar gyd-destun, dulliau a chanlyniadau'r Warant wedi'u datblygu ar gyfer y fframwaith gwerthuso hwn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- map cyd-destun a systemau (ffigur 5.2) sy'n amlinellu elfennau gwahanol y Warant, gan gynnwys rhanddeiliaid pwysig a phrif rannau'r cyd-destun nad ydynt yn rhan o'r Warant, ond sy'n debygol o lunio'r gwaith o'i chyflawni a'i heffaith; a map cymorth EET ôl-16 EET (ffigur 5.3), sy'n canolbwyntio'n fanylach ar y Warant;
- damcaniaeth newid (ffigur 5.4.) sy'n amlinellu sut y mae'r Warant yn ceisio dylanwadu ar y gwahanol elfennau hyn o'r system, eu paratoi neu eu newid;
- damcaniaeth newid (ffigur 5.5. a hefyd ffigur 5.6) sy'n amlinellu sut y disgwylir i'r gwahanol elfennau sy'n ffurfio'r Warant ddylanwadu ar ymddygiad pobl ifanc; a
- damcaniaeth newid (ffigur 5.7.) sy'n amlinellu sut y disgwylir i newidiadau o ran ymddygiad pob ifanc greu canlyniadau a fwriedir y Warant a amlinellwyd yn adran 4.

5.2 Mae'r berthynas rhwng y map systemau a'r tair damcaniaeth newid gysylltiedig wedi'i nodi yn ffigur 5.1. Gyda'i gilydd, eu nod yw disgrifio'r gadwyn achosol o ddigwyddiadau y disgwylir iddynt sicrhau newidiadau a fwriedir (canlyniadau) y Warant.

**Ffigur 5.1. Y berthynas rhwng y gwahanol fapiau systemau a damcaniaethau newid**





5.3 Fel yr amlinellwyd yn y cyflwyniad, mae'r fframwaith gwerthuso hwn yn defnyddio'r fframwaith COM-B fel 'edefyn aur' i gysylltu dadansoddiadau o gyd-destun y Warant, ei dulliau (a fynegir drwy'r damcaniaethau newid a amlinellwyd uchod) a'i chanlyniadau. Er enghraifft, fel y dengys ffigur 5.4. yn benodol, mae'r fframwaith COM-B yn cael ei ddefnyddio er mwyn helpu i fynegi sut a pham y disgwylir y bydd ymddygiad gwahanol grwpiau o bobl ifanc yn newid mewn ymateb i'r Warant. Mae ffigur 5.5. yn dangos sut y disgwylir i hyn, yn ei dro, greu canlyniadau cymdeithasol.

5.4 Fel y dengys ffigur 5.5., disgwylir bod pobl ifanc yn manteisio ar y cymorth a gynigir drwy'r Warant yn gyntaf a bod hyn, yn ei dro, yn helpu i gryfhau eu galluogrwydd, eu mynediad at gyfleoedd a/neu eu cymhelliant i ailymgysylltu ag EET. Felly, mae'r fframwaith gwerthuso a amlinellir yn adran 7 yn canolbwyntio ar fesur y ddau ymddygiad hyn (hynny yw, manteisio ar gymorth ac yna ailymgysylltu ag EET). Fodd bynnag, mae'n bosibl, mewn egwyddor, y byddai cynnig cymorth y Warant yn ddigonol i ysgogi pobl ifanc i newid eu hymddygiad ac ailymgysylltu ag EET heb iddynt fanteisio ar y cynnig cymorth. Er enghraifft, gallai ymgyrch 'bydd bositif' y Warant ysbrydoli pobl ifanc i ymgysylltu â chyfleoedd EET, heb fanteisio ar gymorth. Yn yr un modd, gallai'r wybodaeth bod cymorth ar gael pe bai ei angen arnynt, roi mwy o hyder i bobl ifanc ymgysylltu â chyfleoedd EET, hyd yn oed pe na baent yn manteisio ar y cymorth hwnnw mewn gwirionedd. Bernir bod y math hwn o effaith yn llawer llai tebygol, ond byddai'n fwy anodd ei nodi a'i

ynysu oddi wrth ffactorau eraill, oherwydd y prif newid ymddygiadol y gellir ei weld fyddai mwy o bobl ifanc yn manteisio ar gyfleoedd EET.

**Ffigur 5.2. Map Cyd-destun a Systemau'r Warant**




| Allwedd | cyd-destun | Rhan o'r Warant | Canlyniadau |
|---|---|---|---|

*CfW+ - Cymunedau am Waith a Mwy; TSC+ - Twf Swyddi Cymru+; BC - Busnes Cymru; GC - Gyrfa Cymru; CG - Cymru'n Gweithio; BCM - Biwroau Cyflogaeth a Menter; LCA Lwfans Cynhaliaeth Addysg

**Cwmpas y Warant**

5.5 Mae diffinio cwmpas y Warant (hynny yw, yr hyn sy'n rhan o'r Warant a'r hyn sy'n gyd-destun y Warant yn unig) yn un o'r prif heriau ar gyfer y gwerthusiad. Fel yr amlinellwyd yn y cyflwyniad, fel 'rheol gyffredinol', mae'r Warant wedi'i diffinio fel *cynnig cymorth*, yn hytrach na lle mewn addysg neu hyfforddiant. Mae Ffigur 5.3. (isod) yn defnyddio'r diffiniad hwn i amlygu prif rannau'r system gymorth cyflogaeth, addysg a hyfforddiant (EET) ôl-16 sy'n ffurfio'r Warant.

5.6 Fodd bynnag, mae'n anodd ffurfio gwahaniaethau (neu linellau) clir sy'n diffinio ffiniau'r Warant. Er enghraifft:


- Byddai gwasanaethau gwybodaeth, arweiniad a chymorth i fyfyrwyr mewn lleoliadau addysg a hyfforddiant, fel ysgolion, addysg bellach ac, o bosibl, sefydliadau addysg uwch[13] o fewn cwmpas y Warant. Fodd bynnag, yn gyffredinol ni fyddai cyrsiau pwnc mewn lleoliadau addysg a hyfforddiant o fewn cwmpas y Warant.
- Serch hynny, mae eithriadau gan fod prentisiaethau ac addysg gysylltiedig â gwaith (Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith) mewn ysgolion yn cael eu hystyried yn rhan o'r Warant. At hynny, mae rhaglenni cymorth cyflogadwyedd fel TSC+ a Cymunedau am Waith a Mwy yn cynnig cyrsiau addysg a hyfforddiant, a fyddai'n cael eu hystyried yn rhaglenni sy'n cynorthwyo'r gwaith o gyflawni'r Warant.
- Mae cymorth ar gyfer cyfnodau pontio ac anawsterau iechyd meddwl lefel isel mewn lleoliadau addysg a hyfforddiant a gwasanaethau cymorth EET o fewn cwmpas y Warant. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir am wasanaethau iechyd mwy arbenigol, fel gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed neu oedolion (CAMHS ac AMHS).
- Serch hynny, mae'r Gwasanaeth Di-waith, sy'n cynnig cymorth gan gymheiriaid i bobl ifanc sy'n gwella o broblemau camddefnyddio sylweddau neu iechyd meddwl, yn cael ei ystyried yn rhan o'r Warant a

[13] Mewn trafodaethau gyda swyddogion polisi Llywodraeth Cymru, mae cwmpas y Warant mewn perthynas ag addysg uwch wedi'i godi hefyd, ond heb ei ddatrys yn llawn.

byddai disgwyl i wasanaethau cymorth yr ystyrir eu bod yn rhan o'r Warant weithio gyda gwasanaethau mwy arbenigol, ac atgyfeirio pobl iddynt lle y bo angen.

5.7 Mae'n bwysig o safbwynt gwerthusadwyedd diffinio'r hyn sy'n rhan o'r Warant a'r hyn sy'n rhan o'r cyd-destun ehangach, wrth ystyried, er enghraifft, gwestiynau am weithredu ac effaith. Serch hynny, pan fydd y ffocws ar ddeall sut a pham y digwyddodd newid, weithiau gall y gwahaniaeth fod yn llai pwysig, oherwydd gellir disgwyl i'r ymyriad a'r cyd-destun gyfrannu at ganlyniadau. Yn wir, fel y nodwyd uchod, mae'n debygol y bydd deall sut y cafodd yr ymyriad ei lunio gan gyd-destun ac i'r gwrthwyneb, yn drywydd ymholi pwysig (gweler, er enghraifft, Pawson a Tilly, 1997).

**Ffigur 5.3. Y system gymorth EET ôl-16**





Mae elfennau o'r Warant a'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid, neu sy'n cefnogi'r fframweithiau polisi hyn, yn ymddangos mewn sylwadau.

**Dull systemau**

5.8 Mae'r dirwedd gymorth EET ar gyfer 16 i 24 yn ‘system addasol gymhleth’, sy'n peri heriau ar gyfer polisi a gwerthuso (Trysorlys EM, 2020a). Er enghraifft:

- ceir sawl elfen amrywiol sy'n rhyngweithio ac mae rheolaeth dros elfennau gwahanol y system wedi'i gwasgaru a'i datganoli (gan ei gwneud yn system), gan godi heriau o ran priodoli effaith a chynyddu nifer y rhanddeiliaid y mae angen iddynt gymryd rhan;
- mae'n ddynamig, yn addasu i newid. Er enghraifft, mae gweithredoedd y rhai sy'n rheoli neu'n cyflawni'r elfennau gwahanol hyn yn debygol o ddylanwadu ar ymddygiad eraill yn y rhwydwaith (gan ei gwneud yn system addasol). Er enghraifft, gall rhaglenni newydd yr Adran Gwaith a Phensiynau darfu ar ffrydiau atgyfeirio i raglenni presennol. Mae'r rhyngweithiadau hyn yn golygu y gall gwerthuso pob elfen ar wahân golli'r effeithiau rhwydwaith ehangach;
- mae’n system ‘agored’ ac mae'r cyd-destun yn llunio ymddygiad gweithredwyr (er enghraifft, arweiniodd y pandemig at newidiadau cyflym ac annisgwyl o ran darparu addysg/hyfforddiant a hefyd o ran galluoedd, cyfleoedd, cymhelliant ac ymddygiad pobl ifanc). Gan edrych i'r dyfodol, mae'n debygol y bydd newidiadau yn yr economi ac o ran polisi'r llywodraeth, mewn ymateb i chwyddiant a diwedd cyllid yr UE, yn cael effeithiau canlyniadol a allai fod yn annisgwyl ar y system;
- efallai y bydd rhai elfennau o'r system yn cael effaith anghymesur. Er enghraifft, efallai y bydd effeithiolrwydd neu fel arall Cymru'n Gweithio yn cael effeithiau amlwg ar effeithiolrwydd rhannau eraill o'r system; a
- materion hanes - ni chafodd y Warant ei chreu o ddalen lân, ond mae'n dwyn ynghyd amrywiaeth o raglenni a oedd eisoes yn bodoli, ac mae'n ceisio ail-lunio rhaglenni eraill, ac mae'n debygol y bydd hanes y rhaglenni hyn yn effeithio ar eu hymateb i'r Warant.

**Ffigur 5.4. Damcaniaeth newid ar gyfer y system cymorth EET i bobl ifanc**



Acronymau: M a G - Monitro a Gwerthuso; PSRh – Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol

*Nod ymgyrch 'Bydd Bositif' yw cyfathrebu'r Warant ac 'annog pobl ifanc Cymru i ymgysylltu'n gadarnhaol â'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol', drwy fynd i'r afael â'r 'agweddau negyddol am ragolygon swyddi a'r heriau iechyd meddwl mae pobl ifanc yn dod i gysylltiad â nhw – ar gyfryngau cymdeithasol yn bennaf' (Llywodraeth Cymru, 2021b, dim tudalen).

** Mae 'Adeiladu ethos 'Cymru ar y Cyd'[14] ac 'annog a sefydlu diwylliant o gydweithio a gweithio mewn partneriaeth' wrth wraidd y Warant (Llywodraeth Cymru, 2022c, t. 8) ac, o ystyried ehangder a chymhlethdod y system, mae arweinyddiaeth strategol a chydlynu hefyd wedi'u dosbarthu'n eang hefyd. Er enghraifft:

- Mae gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol brif rôl wrth fapio cymorth EET a rhwydweithiau cyflogwyr a rhanddeiliaid. I'r rhai 16 i 18 oed, mae gan y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid a'i Gydlynwyr Ymgysylltiad a Chynnydd rôl arweiniol wrth baratoi partneriaid i olrhain pobl ifanc, nodi'r rhai sydd mewn perygl o fod yn NEET, neu sy'n NEET, a chyfeirio a broceru mynediad at gymorth (gan gynnwys gwasanaethau cymorth ieuenctid, er enghraifft gwasanaethau iechyd meddwl) a chyfleoedd. Mae'r system wedi'i chynllunio fel bod Cydlynwyr Ymgysylltiad a Chynnydd yn gweithio gyda Cymru'n Gweithio a chydlynwyr penodedig y Warant; ac
- Mae gan Cymru'n Gweithio rôl ganolog fel y prif borth i gymorth a gwybodaeth, cyngor ac arweiniad, gan ddarparu mynediad at: amrywiaeth o raglenni cymorth cyflogaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau, Llywodraeth Cymru, rhanbarthol a lleol; darpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16; a chymorth hunangyflogaeth (drwy Busnes Cymru). Mae Cymru'n Gweithio hefyd yn gyfrifol am reoli cynnydd a chyflwyno adroddiadau arno.

---

[14] Yn y fanyleb ar gyfer yr ymchwil hon, disgrifir hyn fel ymdeimlad o gyfrifoldeb ar y cyd i ddwyn ynghyd y cymorth sydd ar gael i bobl ifanc gael mynediad at gyfleoedd, rhaglenni'r llywodraeth, y byd academaidd a'r gymuned fusnes i gefnogi'r Warant er mwyn cyrraedd y garreg filltir genedlaethol, sef 90% o'n pobl ifanc mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant erbyn 2050 (Llywodraeth Cymru, 2022b, t. 8). Mae'r ethos 'Cymru ar y Cyd' hefyd wedi'i ddisgrifio fel ymateb 'ar draws Llywodraeth Cymru, Cymru gyfan, amlasiantaethol' mewn 'cydweithrediad â'n partneriaid strategol allweddol' (Llywodraeth Cymru, 2023b, t. 1).

**Y prif ragdybiaethau, cysylltiadau a dibyniaethau**

*Newid ymddygiad rhanddeiliaid a'r system gymorth i bobl ifanc*

5.9 Yn ogystal â helpu i ddeall y dylanwadau ar ymddygiad pobl ifanc, gellir defnyddio'r model COM-B o newid ymddygiadol i archwilio sut a pham y disgwylir i 'ymddygiad' amrywiaeth o randdeiliaid - fel darparwyr EET ôl-16 a gwasanaethau cymorth EET - newid, a beth allai atal hyn. Mae'n canolbwyntio ar eu galluogrwydd, eu cyfle a'u cymhelliant i newid, ac fel y dengys ffigur 5.4, mae'r Warant yn ceisio mynd i'r afael â phob un o'r elfennau hyn, er enghraifft:

- gellir deall cyllid ychwanegol fel rhywbeth sy'n cynyddu galluogrwydd a chymhelliant rhanddeiliaid i newid; a
- gellir deall nodau cenedlaethol, manylebau, gofynion ac ymgysylltu â' rhanddeiliaid fel pethau sy'n dylanwadu ar eu cymhelliant i newid, a gall hefyd ddileu neu newid cyfyngiadau allanol ar newid (gan gynyddu eu cyfle i newid).

5.10 Fodd bynnag, mae'n annhebygol iawn mai'r rhain fydd yr unig ffactorau sy'n llunio galluoedd, cymhellion a chyfleoedd rhanddeiliaid i newid (a bydd yn bwysig ystyried effaith y ffactorau eraill hyn hefyd).

5.11 Mae'n debygol mai trywydd ymholi pwysig arall ar gyfer y gwerthusiad fydd deall i ba raddau newidiodd y Warant ddarpariaeth ac ymarfer presennol (h.y. y system gymorth i bobl ifanc), yn hytrach na dim ond ailfrandio'r ddarpariaeth bresennol. Gallai hyn gynnwys archwilio mor effeithiol roedd y dulliau a amlinellir yn ffigur 5.4, er enghraifft, wrth:

- sefydlu gwasanaethau cymorth EET newydd;
- ail-lunio gwasanaethau cymorth EET presennol (er enghraifft, i sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn well); a/neu
- dylanwadu ar ddarparwyr a chyflogwyr EET ôl-16.

5.12 Byddai'r archwiliad hwn o ddulliau yn cael ei wella drwy archwilio sut roedd ffactorau eraill wedi newid ymarfer (ac felly newid y system gymorth i bobl ifanc). Gallai'r rhain gynnwys, er enghraifft, newidiadau o ran:

- polisïau Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru neu awdurdodau lleol;
- ymddygiad rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys pobl ifanc eu hunain (a all ddewis ymgysylltu â darparwyr a gwasanaethau cymorth EET neu beidio); ac
- ymddygiad cyflogwyr a allai, er enghraifft, ddylanwadu ar ddarparwyr EET, gwasanaethau cymorth a phobl ifanc ac a allai gael eu dylanwadu gan ymddygiad darparwyr addysg a hyfforddiant, gwasanaethau cymorth a phobl ifanc.

*Effeithiolrwydd gwahanol elfennau'r system*


5.13 Mae adeiladu ar ddarpariaeth bresennol (yn hytrach nag ail-lunio neu greu darpariaeth newydd) yn rhesymegol lle mae'r ddarpariaeth honno'n gweithio'n dda. Mae'n debygol y bydd deall mor effeithiol yw gwahanol elfennau'r Warant, fel cymorth EET - boed yn gymorth presennol, cymorth wedi'i ail-lunio neu newydd - yn debygol o fod yn drywydd ymholi pwysig arall. Disgwylir i hyn ddefnyddio gwerthusiadau ac adolygiadau presennol (er enghraifft, gan Estyn) a nodi'r prif fylchau lle mae cyfiawnhad dros werthuso pellach. Er enghraifft, fel y mae'r Adolygiad Cyflym o Dystiolaeth: cynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (Llywodraeth Cymru 2024b, 2024c) yn nodi, mae'r dystiolaeth yn glir mai'r hyn sy'n bwysig yw nid yn unig yr hyn sy'n cael ei wneud ond mor dda mae'n cael ei wneud (Y Sefydliad Llafur Rhyngwladol, 2017). Mae ffactorau fel digonolrwydd paratoi adnoddau a sgiliau a galluoedd staff yn brif ffactorau sy'n llunio effeithiolrwydd ymyriadau. Mae cydweithio, integreiddio a chynnwys yn agweddau pwysig ar arfer effeithiol hefyd.

*Effeithiau systemig*

5.14 Disgwylir i wahanol elfennau'r Warant weithio gyda'i gilydd. Er enghraifft (yn fwyaf amlwg), disgwylir i Cymru'n Gweithio ddarparu un llwybr syml i gymorth. Felly, bydd deall rhyngweithiadau, fel synergeddau neu densiynau, rhwng gwahanol rannau o'r system, a hefyd y cyd-destun ehangach, yn hanfodol er mwyn deall effaith gyffredinol y Warant. Mae'r rhyngweithiadau hyn yn golygu na ellir deall priodoleddau (neu ‘ymddygiad’) y system drwy

edrych ar bob elfen ar ei phen ei hun (Trysorlys EM, 2020a). At hynny, fel yr amlinellwyd uchod, gall gweithredu ac effeithiolrwydd rhai elfennau o'r system, fel Cymru'n Gweithio, neu newidiadau yn y cyd-destun, fel twf neu grebachu economaidd, gael effeithiau anghymesur ar rannau eraill o'r system.

**Ffigur 5.5. Damcaniaeth newid ar gyfer pobl ifanc NEET, neu sydd mewn perygl o fod yn NEET**




*Llywodraeth Cymru, 2022b, t. 13.


*Prif ragdybiaethau, cysylltiadau a dibyniaethau*

5.15 Fel y dengys ffigur 5.5., mae'r model COM-B o newid ymddygiadol yn ddefnyddiol wrth ddeall sut a pham y disgwylir i ymddygiad pobl ifanc newid mewn dwy ffordd bwysig:

- yn gyntaf, ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET; ac
- yn ail, ar ôl ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET, yna ymgysylltu â chyfleoedd EET.

5.16 Fel y dengys ffigur 5.6., mae'r model COM-B hefyd yn ddefnyddiol wrth ystyried pam efallai na fydd ymddygiad pobl ifanc yn newid. Mae'r Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth: cynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant | LLYW.CYMRU (Llywodraeth Cymru 2024b, 2024c), yn awgrymu nifer o ragdybiaethau pwysig y mae angen eu profi, gan fod y sylfaen dystiolaeth sy'n sail iddynt yn wannach, na rhagdybiaethau eraill sy'n sail i ddamcaniaeth newid y Warant.

**Ffigur 5.6. Y Fframwaith COM-B a'r prif ragdybiaethau sy'n sail i'r Warant**




Addaswyd o Michie et al., 2011.

*Rhagdybiaeth 1: bydd y Warant yn cymell pobl ifanc i newid eu hymddygiad ac ymgysylltu â gwasanaethau cymorth*

5.17 Gall y rhagdybiaeth hon fod yn wan oherwydd ceir tystiolaeth bod nifer fawr o bobl ifanc yn dewis peidio ag ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET (Llywodraeth Cymru, 2024b). Er enghraifft, gallai hyn fod oherwydd:

- mae pobl ifanc wedi digalonni ac nid ydynt yn credu y gallant gael mynediad at gyfleoedd EET;
- ceir canfyddiad ymhlith pobl ifanc bod y cyfleoedd EET ôl-16 sy'n agored iddynt yn anneniadol (er enghraifft, o ran cyflog neu amodau gwaith); a/neu
- gall gwendid o ran galluoedd pobl ifanc a/neu fynediad at gyfleoedd, o ystyried anawsterau posibl fel iechyd meddwl gwael neu gyfrifoldebau gofalu, atal ymgysylltu â'r gwasanaethau cymorth EET; a/neu
- ceir canfyddiad ymhlith pobl ifanc bod gwasanaethau cymorth EET yn aneffeithiol.

5.18 Gall hyn olygu bod gwasanaethau cymorth EET yn cael trafferth cymell pobl ifanc i ymgysylltu â chymorth. Felly, gall hefyd fod yn bwysig archwilio i ba raddau y mae'r Warant yn:

- gynnig cymorth sy'n dibynnu ar gymell pobl ifanc NEET i fanteisio arno - mewn gwirionedd i bobl ifanc gyflwyno eu hunain a gofyn am gymorth; neu
- gynnig cymorth ynghyd ag allgymorth gweithredol (er enghraifft, yn yr un ffordd ag ar gyfer y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid, ar gyfer pobl ifanc 16 i 18 oed), i nodi ac ymgysylltu â phobl ifanc NEET ond efallai na fyddent fel arall yn ceisio cymorth.

*Rhagdybiaeth 2: bydd y Warant yn gwella galluogrwydd pobl ifanc a'u mynediad at gyfleoedd, gan eu galluogi i newid eu hymddygiad*


5.19 Hyd yn oed os bydd pobl ifanc yn manteisio ar y cynnig cymorth, efallai y bydd gwasanaethau yn dal i gael trafferth gwella galluoedd a chymhelliant pobl ifanc a/neu fynediad at gyfleoedd EET ôl-16 (Llywodraeth Cymru, 2024b). Felly, efallai y bydd hefyd yn bwysig archwilio i ba raddau y mae gwasanaethau cymorth EET a/neu atgyfeiriadau i bartneriaid (fel CAMHS/AMHS) yn gallu cryfhau galluoedd pobl ifanc yn ddigonol a/neu eu

mynediad at gyfleoedd, fel y gallant ddod o hyd i gyfleoedd EET sy'n ddigon agos at eu dyheadau a'u disgwyliadau iddynt gael eu cymell a gallu manteisio arnynt.

*Rhagdybiaeth 3. Mae'r Warant yn gynnig cynhwysol i bob person ifanc*

5.20 Efallai fod y rhagdybiaeth hon yn wan oherwydd yr amrywiaeth o ran cymhellion a galluoedd pobl ifanc a'u mynediad at gyfleoedd. Er enghraifft, ceir tystiolaeth bod gwasanaethau cymorth EET yn gyffredinol yn cael trafferth ymgysylltu â'r rhai sydd â rhwystrau mwyaf cymhleth a'u helpu (ibid.). Mae'n bosibl, er enghraifft, bod y Warant yn effeithiol i'r bobl ifanc hynny sy'n NEET oherwydd eu bod 'heb benderfynu' (a heb gymhelliant), ond yn llai effeithiol gyda'r rhai sydd 'wedi'u dal' neu hyd yn oed yn cymryd cam yn ôl (sydd hefyd â galluoedd cyfyngedig a/neu fynediad cyfyngedig at gyfleoedd). Felly, mae deall pa grwpiau y mae'r Warant yn gweithio'n dda gyda nhw, a phwy nad yw'n gweithio cystal gyda nhw yn debygol o fod yn drywydd ymholi pwysig arall.

**Ffigur 5.7. Damcaniaeth newid ar gyfer effaith y Warant**



* Gall ymgysylltu ag EET gryfhau galluoedd a chymhelliant pobl ifanc ymhellach a/neu eu mynediad at gyfleoedd (er enghraifft, gall cyflogwyr fod yn ffafriol i gyflogi pobl ifanc sydd â phrofiad gwaith, a gall rhwydweithiau cymdeithasol y bobl ifanc ehangu), gan greu cylch rhinweddol (felly'r saethau pen dwbl).
** Gall lleihau anghydraddoldeb helpu i hyrwyddo llesiant (gweler, er enghraifft, Picket a Wilkinson, 2009).

**Prif ragdybiaethau**

5.21 Fel yr amlinellir yn yr [Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth: cynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant] (Llywodraeth Cymru 2024b, 2024c), ceir corff mawr o dystiolaeth sy'n amlinellu'r manteision cadarnhaol sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu ag EET ar gyfer unigolion a chymdeithas. Fodd bynnag, mae rhywfaint o'r ymchwil hefyd yn rhybuddio bod manteision ymgysylltu ag EET o ansawdd isel, fel gwaith ansicr â chyflog gwael heb lawer o gyfleoedd i gamu ymlaen, yn llawer mwy cyfyngedig, ac mewn rhai achosion, gallai'r effaith ar rai agweddau ar lesiant pobl ifanc hyd yn oed fod yn negyddol.

5.22 At hynny, mae'n bwysig cofio bod y canlyniadau lefel uchel hyn yn destun dylanwadau lluosog, gan wanhau effaith bosibl y Warant a chynyddu pwysigrwydd ffactorau allanol (cyd-destunol) fel y rhai a amlygir yn ffigur 5.3, gan gynnwys:

- ergydion, fel y pandemig neu Brexit;
- cylchoedd (fel y cylch economaidd); a
- thueddiadau tymor hwy fel cyrhaeddiad addysgol cynyddol a anhwylderau salwch meddwl[15] ymhlith pobl ifanc.

---

[15] Nid yw'r iaith hon yn gyson â'r Model Cymdeithasol o Anabledd y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio. Fodd bynnag, fe'i defnyddir yma oherwydd bod y pwynt hwn yn seiliedig ar ddata Digidol y GIG (ar gyfer Lloegr), sef ystadegau swyddogol ar lefelau tebygol o 'anhwylder iechyd meddwl' ymhlith plant a phobl ifanc, a amcangyfrifir gan ddefnyddio'r Holiadur Cryfderau ac Anawsterau (GIG Digidol, 2023).

5.23 Gall ffactorau o'r fath:

- darfu ar y dulliau disgwyliedig ar gyfer creu'r canlyniadau hyn, neu ystumio neu wella'r dulliau hyn. Er enghraifft, pan fydd newidiadau i iechyd pobl ifanc yn newid eu cymhelliant i ymgysylltu â chynnig cymorth y Warant; a/neu
- yn llunio'r canlyniadau hyn yn uniongyrchol. Er enghraifft, lle mae grymoedd economaidd a chymdeithasol ehangach yn llunio iechyd pobl ifanc yn uniongyrchol,[16] ac mae'r effeithiau hyn yn cynyddu neu'n gwanhau effeithiau uniongyrchol ymgysylltu ag EET ar iechyd pobl ifanc.

[16] Gweler er enghraifft, Sefydliad Tegwch Iechyd (2020) am drafodaeth ar benderfynyddion cymdeithasol iechyd.

# 6. Cwestiynau'r gwerthusiad

### Cyflwyniad

6.1 O ystyried y ddamcaniaeth newid lefel uchel (a amlinellwyd yn adran 2) a'r damcaniaethau newid oddi tani (a amlinellwyd yn adran 3-5), mae angen i'r gwerthusiad asesu effaith (y gwahaniaeth y mae'r Warant wedi'i wneud) ar dair lefel:

- **Polisi ac ymarfer:** sut y mae'r cynnig cymorth i bobl ifanc 16 i 24 oed yn newid (canlyniadau polisi[17]);
- **Ymddygiad pobl ifanc**: sut y mae ymddygiad pobl ifanc 16 i 24 oed yn newid mewn ymateb i newidiadau yn y cynnig cymorth (canlyniadau ymddygiadol, fel ymgysylltu â rhaglenni cymorth EET ac ymgysylltu ag EET); a
- **Chanlyniadau cymdeithasol**: sut y mae newidiadau yn ymddygiad pobl ifanc 16 i 24 oed yn cyfrannu at ganlyniadau cymdeithasol, fel cryfhau ffyniant, iechyd ac iaith Cymru.

6.2 Fel y nodwyd yn bendant yn y ddamcaniaeth newid lefel uchel, bydd angen iddo hefyd edrych ar sut y mae newid mewn un lefel un effeithio ar y lefelau eraill.

6.3 Mae'r adran hon yn amlinellu nod cyffredinol gwerthuso ar bob un o'r tair lefel, sy'n canolbwyntio ar nodi effaith y Warant. Mae hefyd yn cynnwys cyfres o gwestiynau gwerthuso ychwanegol yn seiliedig ar y rhai a awgrymir yn y fanyleb ar gyfer yr astudiaeth (Llywodraeth Cymru, 2022c) sy'n ymwneud â'r gwerthuso'r Warant a/neu'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid (sy'n ategu'r Warant ac yn ffurfio rhan o'r asesiad gwerthusadwyedd hwn a'r gwerthusiad proses).[18] Mae'r cwestiynau arfaethedig hyn yn cynnwys:

---

[17] Bydd angen i hyn ystyried polisi ar bapur ac yn ymarferol (er enghraifft, ystyried cyflwyno/gweithredu).

[18] Oni nodir fel arall (hynny yw, drwy ddyfynodau) mae'r iaith a ddefnyddiwyd yn y fanyleb (Llywodraeth Cymru, 2022b) wedi'i golygu'n ysgafn i, er enghraifft, droi datganiadau yn gwestiynau gwerthuso, wrth gadw'r bwriad.

- cwestiynau gwerthuso proses (hynny yw, ‘beth y gellir ei ddysgu o sut y cyflawnwyd yr ymyriad?’);
- cwestiynau penodol sy'n ymwneud â'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid;
- cwestiynau gwerthuso effaith (hynny yw, ‘Pa wahaniaeth wnaeth y Warant?’); a
- chwestiynau gwerthuso economaidd (hynny yw, ‘I ba raddau roedd manteision y Warant yn drech na'r costau?’) (Addaswyd o Drysorlys EM, 2020b).

**Polisi ac ymarfer: nodau a chwestiynau'r gwerthusiad**

6.4 **Nod:** nodi a wnaeth y Warant newid natur neu raddau cymorth i bobl ifanc (16 i 24 oed) gael lle mewn addysg neu hyfforddiant, neu brentisiaeth, dod o hyd i swydd neu ddod yn hunangyflogedig. Ac os felly, sut a pham.

6.5 Bydd cwestiynau'r ymchwil yn archwilio beth weithiodd yn dda a pham, rolau rhanddeiliaid a'r gwahaniaethau rhyngddynt wrth gyflawni'r Warant gan gynnwys y cwestiynau canlynol.

*Cwestiynau gwerthusiad proses am y Warant*

1. Pa mor dda mae ymyriadau a disgwyliadau o'r Warant gan ei hysgogwyr wedi cael eu cyfleu i randdeiliaid eraill, fel cydweithwyr polisi a chyflawni Llywodraeth Cymru, yn enwedig y rhai sy'n arwain ar addysg, cyflogadwyedd, cymorth hunangyflogaeth, iechyd a nawdd Gyrfaoedd/Cymru'n Gweithio, a darparwyr addysg a hyfforddiant, gwasanaethau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad (er enghraifft, Gyrfa Cymru) gwasanaethau cymorth cyflogaeth a hunangyflogaeth, awdurdodau lleol (yn enwedig Cydlynwyr Ymgysylltiad a Chynnydd a Gweithwyr Ieuenctid) a chyrff strategol fel Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol?
2. A oedd/a yw rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r cymorth a'r arweiniad a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i gyflawni'r Warant ac a oedd y cymorth a'r arweiniad yn cael eu gwerthfawrogi/a ydynt yn cael eu gwerthfawrogi?

3. Beth oedd rôl rhanddeiliaid wrth bennu cyfeiriad a disgwyliadau'r Warant, gan gynnwys y rolau a chwaraewyd gan wahanol bartneriaid?
4. Pa mor dda wnaeth rhanddeiliaid weithio gyda'i gilydd i gyflawni'r Warant? Beth sy'n gweithio'n dda a beth fu'r heriau o ran ymgorffori ethos 'Tîm Cymru'?
5. Pa gynnydd sydd wedi'i wneud tuag at weithredu'r Warant? Er enghraifft, a oedd unrhyw newidiadau a welwyd ym mholisi neu ddarpariaeth cymorth EET ar gyfer pobl ifanc?
6. I ba raddau wnaeth gweithredu'r Warant ymgorffori'r pum ffordd o weithio a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ('cynnwys'; 'integreiddio'; 'atal'; 'hirdymor'; 'cydweithio')?

7. A wnaeth (i) cyflogwyr a (ii) darparwyr wynebu unrhyw rwystrau ac, os felly, a gafodd y rhain eu goresgyn ac, os felly, sut?
8. A oedd unrhyw effaith ar agweddau cyflogwyr at gyflogi pobl ifanc, gan gynnwys prif rwystrau a manteision cyflogi pobl ifanc yn eu barn nhw?

9. Pa strategaethau a roddwyd ar waith i hyrwyddo'r Warant ac ymgysylltu â'r grwpiau targed o bobl ifanc?
10. A oedd unrhyw wahaniaethau o ran sut y gwnaeth y cynnig cymorth i bobl ifanc newid mewn ardaloedd daearyddol gwahanol (er enghraifft, rhanbarthau) neu ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl ifanc (er enghraifft, y rhai 16 i 18 oed, y rhai 19 oed a throsodd)?

11. A oedd unrhyw newidiadau/canlyniadau anfwriadol?
12. Pa arfer da, dysgu pwysig (er enghraifft, rhwystrau/galluogwyr, beth weithiodd/na weithiodd) a meysydd ar gyfer datblygu pellach a nodwyd?

*Cwestiynau gwerthusiad proses am y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid*

13. A yw canllawiau newydd y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid[19] wedi arwain at newidiadau o ran dealltwriaeth rhanddeiliaid o rolau, cyfrifoldebau a gweithio mewn partneriaeth i gyflawni'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid?
14. I ba raddau mae rhanddeiliaid yn deall yr hyn sy'n cyd-fynd rhwng y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid a'r Warant? Pa rôl y mae'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid wedi'i adnewyddu wedi'i chwarae o ran egluro rolau a chyfrifoldebau sefydliadau a chynyddu dealltwriaeth o'r opsiynau sydd ar gael i gefnogi pobl ifanc 16 i 18 oed sy'n NEET, neu sydd mewn perygl o fod yn NEET?
15. I ba raddau mae'r sefydliadau partner sy'n ymwneud â chyflwyno'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid yn teimlo'n atebol am leihau cyfraddau NEET a pha brosesau, os o gwbl, oedd yn eu lle i fesur effaith yr hyn roeddent yn ei wneud?
16. Pa wybodaeth fonitro arall am bobl ifanc y bernir eu bod mewn perygl o fod yn NEET, neu sy'n NEET, sy'n cael ei chasglu ar lefel awdurdod lleol a pha mor effeithiol y mae hyn yn ysgogi penderfyniadau a gweithio mewn partneriaeth yn lleol?
17. I ba raddau roedd pobl ifanc a gefnogwyd o dan y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid yn cael eu cyfeirio i gymorth ar gyfer eu hiechyd a llesiant emosiynol a meddyliol pan fo angen?

*Cwestiynau gwerthuso economaidd*

18. Beth oedd costau ychwanegol (hynny yw, arian a wariwyd ar weithgarwch penodol yn ymwneud â'r Warant neu ar gyfer rhaglenni newydd (fel TSC+) sy'n benodol o dan ymbarél y Warant ac nad oeddent yn bodoli'n flaenorol), cyflawni'r Warant (a newid y cynnig cymorth)?
19. Beth oedd costau gwahanol elfennau'r Warant (er enghraifft, cymorth cyflogaeth, addysg, hunangyflogaeth)?

[19] Mae hyn yn cynnwys y Trosolwg o'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd a'r Llawlyfr a gyhoeddwyd yn 2022 a'r Canllawiau ar Adnabod yn Gynnar a gyhoeddwyd yn 2023.

*Cwestiynau gwerthuso effaith*

20. I ba raddau y gellid priodoli newidiadau a welwyd mewn polisi a darpariaeth cymorth EET i bobl ifanc ar lefel ranbarthol neu awdurdod lleol i bolisi'r Warant, a faint gafodd ei ddylanwadu gan ffactorau eraill? Er enghraifft, pa mor gredadwy yw'r ddamcaniaeth newid sy'n cysylltu'r Warant â newidiadau mewn polisi ac ymarfer?[20] Sut a pham mae rhanddeiliaid yn rhoi gwybod bod polisi wedi newid? A pha dystiolaeth sydd am effaith debygol y cyd-destun ehangach ar bolisi a gweithredu?
21. Pa mor gynaliadwy yw canlyniadau polisi'r Warant yn debygol o fod yn y tymor canolig i'r hirdymor?
22. Beth oedd costau a manteision y Warant i randdeiliaid fel cyflogwyr?

**Nod a chwestiynau arfaethedig y gwerthusiad ynghylch effeithiolrwydd y Warant wrth newid ymddygiad pobl ifanc**

6.6 **Nod cyffredinol:** nodi a yw newidiadau yn y cynnig cymorth i bobl ifanc 16 i 24 oed (gweler y cwestiynau am bolisi ac ymarfer) wedi cyfrannu at newid yn ymddygiad pobl ifanc mewn perthynas â:

i. manteisio ar y cynnig cymorth addysg, cyflogaeth, hyfforddiant a/neu hunangyflogaeth (EETSE); a/neu
ii. eu cyfranogiad mewn EETSE[21]

ac, os felly, sut, pam ac ar gyfer pwy (pa grwpiau o bobl ifanc)?

[20] Gweler adrannau 3 i 5 o'r adroddiad hwn am ragor o fanylion.

[21] Dylai'r rhain fod yn fesuradwy / meintiol a gallant ffurfio'r sail ar gyfer dangosyddion perfformiad allweddol (DPA). Nodwn, os yw'r Warant yn llwyddiannus, bydd cyfran y bobl ifanc mewn EET yn cynyddu. Fodd bynnag, mae hefyd yn bosibl bod y Warant yn cael effaith ond nid yw'r effaith yn ddigon mawr i newid dangosyddion cenedlaethol. Er enghraifft, os bydd dirywiad economaidd a chynnydd mewn diweithdra ac anweithgarwch economaidd (a nifer y bobl ifanc NEET) mae'n bosibl y byddai'r cynnydd yn nifer y bobl ifanc NEET yn fwy heb y Warant.

6.7 Ymhlith y cwestiynau ymchwil sy'n archwilio ymateb pobl ifanc i gynnig y Warant mae:

*Cwestiynau gwerthuso proses*

23. Beth yw dealltwriaeth pobl ifanc o'r Warant, gan gynnwys eu dealltwriaeth o ba gymorth sydd ar gael; sut y gellir cael mynediad at gymorth; a pha mor hygyrch ydyw? [22]
24. Beth yw disgwyliadau pobl ifanc o'r Warant, gan gynnwys yr hyn maent ei eisiau o'r cynnig cymorth?
25. Beth yw profiadau pobl ifanc sy'n cael mynediad at y rhaglenni a'r gwasanaethau (Gyrfa Cymru/Cymru'n Gweithio yn bennaf) sy'n sail i'r Warant?
26. Pa mor gadarn yw llwybrau gwahanol y Warant drwy EETSE?
27. I ba raddau mae pobl ifanc yn teimlo eu bod yn gallu lleisio eu barn yn natblygiad polisi a chynllunio gwasanaethau ac yn cael llais i herio'r system (yn enwedig grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol)?

28. I ba raddau y mae'r strategaethau sydd ar waith i hyrwyddo'r Warant, ac ymgysylltu â'r grŵp targed o bobl ifanc, yn gweithio? Er enghraifft, a yw nifer y cyfranogwyr yn unol â'r targedau?
29. Pa mor effeithiol yw atgyfeiriadau i bobl ifanc sy'n wynebu'r risg fwyaf o ymddieithrio o EET?
30. A oes patrymau a thueddiadau o ran pa grwpiau o bobl ifanc sy'n ymgysylltu, neu nad ydynt yn ymgysylltu, â chynnig y Warant?
31. Pam nad yw rhai pobl ifanc gymwys yn manteisio ar y cyfle neu'n rhoi'r gorau i'r broses cyn canlyniad cadarnhaol?

32. A oes unrhyw ganlyniadau cynnar goddrychol sy'n gysylltiedig â chyfranogi mewn unrhyw un o'r rhaglenni/gwasanaethau sy'n rhan o'r Warant, fel:

[22] Fel y nodwyd yn y fanyleb ar gyfer yr ymchwil hon, dylid rhoi ystyriaeth arbennig i hygyrchedd y Warant i ddarparu gwasanaethau i bobl ifanc nac ydynt mewn Addysg, Hyfforddiant na Chyflogaeth (NEET), y rhai sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur, pobl â Nodweddion Gwarchodedig a'r rhai sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol o ran cael mynediad at waith a'i gynnal (Llywodraeth Cymru, 2022b, tt. 13 i 14).

newidiadau mewn hyder neu gydnerthedd; newidiadau mewn dyheadau neu nodau; newidiadau mewn iechyd meddwl neu lesiant; hyder mewn sgiliau ariannol neu sgiliau cyflogadwyedd?

33. Pa gyfraniad y mae'r Warant wedi'i wneud i adeiladu rhwydweithiau o gymorth cyflogaeth i bobl ifanc?
34. A oedd unrhyw ganlyniadau/newidiadau anfwriadol o ran ymddygiad pobl ifanc?

35. Beth sy'n gweithio'n dda a beth nad yw'n gweithio cystal (gan gynnwys y rhwystrau a'r hwyluswyr i bobl ifanc sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur sy'n mynd i mewn i EETSE drwy'r Warant)?
36. Beth gellir ei ddysgu o'r Warant ynghylch ‘beth sy'n gweithio i bwy a phryd’ ar gyfer pobl ifanc sy'n ceisio camu ymlaen i EETSE?
37. A yw'r dull cyflwyno presennol yn addas, o ystyried nodau ac amcanion y Warant?

*Cwestiynau gwerthusiad proses am y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid*

38. Beth yw cyfraniad y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid at gynorthwyo pobl ifanc [11 i 18 oed] sydd mewn perygl o ymddieithrio o addysg, hyfforddiant, a chyflogaeth a manteisio ar gynnig cymorth y Warant?
39. Pa mor effeithiol yw'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid wrth alluogi pontio didrafferth o addysg (cyn-16) i addysg bellach neu uwch, hyfforddiant neu gyflogaeth (ôl-16)?

*Cwestiynau gwerthuso economaidd*

40. Beth oedd y gost fesul cyfranogwr a gynorthwywyd o dan y Warant?[23]
41. Beth oedd y gost fesul canlyniad cadarnhaol (mynediad at EETSE), ar gyfer pob cyfranogwr a gynorthwywyd o dan y Warant?
42. A yw'r adnodd a ddarperir gan y Warant wedi'i dargedu'n effeithiol at y bobl ifanc sydd ei angen ac yn gymesur â'u lefel angen?

*Cwestiynau Gwerthuso Effaith*

43. Pa mor gynaliadwy yw canlyniadau ymddygiadol y Warant yn debygol o fod yn y tymor canolig i'r hirdymor?
44. Beth yw cyfraniad y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid at ganlyniadau'r Warant?
45. Pa mor gredadwy yw'r ddamcaniaeth newid sy'n cysylltu newidiadau mewn polisi (y cynnig cymorth yn bennaf) â newidiadau ymddygiad pobl ifanc mewn perthynas ag EETSE? Er enghraifft, a ellir profi rhagdybiaethau sylfaenol drwy ddefnyddio data neu dystiolaeth o ymyriadau tebyg eraill? A oes tystiolaeth bod canlyniadau canolraddol (fel ehangu rhaglenni) wedi'u creu yn ôl y disgwyl? Pa dystiolaeth sydd am effaith debygol y cyd-destun ar ymddygiad pobl ifanc?

[23] Gallai hyn fod yn fwy ystyrlon os caiff ei gyfrifo ar gyfer llinynnau neu elfennau gwahanol y Warant yn hytrach nag fel ffigur cyffredinol ar gyfer yr holl bobl ifanc a gynorthwyir gan y Warant.

46. A oedd unrhyw newidiadau a welwyd mewn ymddygiad pobl ifanc? Os felly, faint o newid oedd o'r cyfnod cyn y Warant, a faint y gellid dweud ei fod wedi'i achosi gan bolisi'r Warant yn hytrach na ffactorau eraill?

**Cwestiynau am newid cymdeithasol**

6.8 **Nod cyffredinol:** nodi a wnaeth newidiadau o ran ymddygiad pobl ifanc (16 i 24 oed) mewn perthynas â'u cyfranogiad mewn EETSE (gweler y cwestiynau am ymddygiad pobl ifanc) gyfrannu at newid mewn canlyniadau cymdeithasol (er enghraifft, cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol)?

6.9 Mae cwestiynau ymchwil ychwanegol yn cynnwys y canlynol:

*Cwestiynau gwerthuso effaith*

47. Beth yw cyfraniad y Warant at flaenoriaethau pwysig Llywodraeth Cymru gan gynnwys: y Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid, Cymru Sero Net, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a Cymraeg 2050?
48. Pa mor gredadwy yw'r ddamcaniaeth newid sy'n cysylltu newidiadau mewn ymddygiad pobl ifanc â chanlyniadau cymdeithasol a chanlyniadau polisi Llywodraeth Cymru? Er enghraifft, a ellir profi rhagdybiaethau sylfaenol drwy ddefnyddio data neu dystiolaeth o ymyriadau tebyg eraill? A oes tystiolaeth bod canlyniadau canolraddol (fel newidiadau mewn ymddygiad pobl ifanc) wedi'u creu yn ôl y disgwyl? Pa dystiolaeth sydd am effaith debygol y cyd-destun ar ganlyniadau cymdeithasol?
49. I ba raddau mae'r Warant a'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid yn cyfrannu at gyflawni'r Garreg Filltir Genedlaethol y bydd o leiaf 90% o bobl ifanc 16 i 24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050?
50. A oedd unrhyw newidiadau a welwyd mewn canlyniadau cymdeithasol? Ac os felly, faint o newid oedd o'r cyfnod cyn y Warant, a faint y gellid dweud ei fod wedi'i achosi gan bolisi'r Warant yn hytrach na ffactorau eraill?
51. Pa mor gynaliadwy yw canlyniadau cymdeithasol y Warant yn debygol o fod yn y tymor canolig i'r hirdymor?

*Cwestiynau gwerthuso economaidd*

52. I ba raddau mae/y bydd manteision cymdeithasol y Warant yn drech na'i chostau economaidd?[24]

**Themâu trawsbynciol ar gyfer dadansoddi**

6.10 I ryw raddau, mae'r dull arfaethedig yn cynnwys canolbwyntio ar elfennau unigol o'r Warant, megis rhaglenni fel Cymunedau am Waith a Mwy, TSC+ a ReAct+. Bydd yn bwysig deall ymgysylltiad, profiadau, chanlyniadau grwpiau gwahanol o bobl ifanc (er enghraifft, bechgyn a merched, pobl ifanc anabl a'r rhai nad ydynt yn anabl) sy'n cael mynediad at y rhaglenni gwahanol hyn, er mwyn deall yn well yr hyn sy'n gweithio i bwy.

[24] Byddai hyn dim ond yn hyfyw ar lefel rhaglen yn hytrach na lefel system.

## 7. Mesur newid: lefelau system a rhaglen

7.1 Fel yr amlinellwyd yn adrannau 1 a 5, mae'r Warant yn cynnwys nifer fawr o elfennau unigol, sydd gyda'i gilydd yn ffurfio'r system gymorth.[25] Drwy lunio a threfnu'r system hon, nod y Warant yw sicrhau bod yr holl bobl ifanc 16-24 oed yn cael cynnig cymorth i gael lle mewn addysg, hyfforddiant neu brentisiaeth, dod o hyd i swydd neu ddod yn hunangyflogedig. Gellir mesur newid ar lefel y system gyfan a hefyd ar lefel elfen unigol, fel rhaglen.

7.2 Fel y mae'r enw'n awgrymu, mae mesur lefel systemau yn cwmpasu'r system gyfan. Er enghraifft, mae canran y bobl ifanc NEET yn fesur lefel systemau. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, mae mesur lefel elfen dim ond yn cwmpasu rhan (neu elfen) o'r system, fel arfer rhaglen unigol sy'n cefnogi'r Warant, fel rhaglenni Cymunedau am Waith a Mwy neu TSC+. Oherwydd bod mesurau lefel rhaglen yn cwmpasu un rhan o'r system yn unig, gallant ddarparu darlun rhannol yn unig. At hynny, yn gyffredinol nid yw'n bosibl cyfuno data lefel rhaglen i ddarparu darlun cyfansawdd mwy cyflawn. Er enghraifft, byddai ychwanegu nifer cleientiaid Cymru'n Gweithio at gleientiaid TSC+ yn creu'r risg o gyfrif ddwywaith y bobl ifanc a gafodd eu cynorthwyo gan Cymru'n Gweithio yn gyntaf ac yna eu cynorthwyo gan TSC+.[26] Fodd bynnag, mae pennu DPA ar gyfer rhaglenni unigol yn golygu ei bod yn bosibl llunio darlun o sut y mae rhannau gwahanol o raglenni sy'n cynorthwyo'r Warant yn perfformio (sy'n golygu bod manteision hefyd o ran defnyddio data lefel rhaglen, yn hytrach na data lefel system yn unig).

[25] Yn bwysig, roedd cynnig cymorth ar gael cyn y Warant ac mae deall a yw'r cynnig cymorth hwn wedi newid, a sut y mae wedi newid, yn rhan ganolog o'r gwerthusiad.
[26] Dylai symleiddio cymorth cyflogaeth gyda, er enghraifft, TSC+ yn canolbwyntio ar bobl ifanc 16 i 19 oed wrth i Gyrfa Cymru+ ganolbwyntio ar y rhai 20 oed a throsodd, wneud hyn yn haws.

**Mesurau lefel system**

Mae chwe phrif ffynhonnell ar gyfer mesurau ar draws y system:

- yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (ABB);[27]
- Data'r Datganiad Ystadegol Cyntaf;[28]
- Arolwg cyrchfannau disgyblion Gyrfa Cymru;[29]
- Data categoreiddio Gyrfa Cymru [30](gweler atodiad D);
- Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru;
- Data'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA).[31]

**Mesurau lefel rhaglen**

Byddai mesurau lefel rhaglen yn seiliedig ar wybodaeth reoli o raglenni unigol fel Cymru'n Gweithio, Busnes Cymru a TSC+.

7.3 Yn seiliedig ar argaeledd data, mae'r DPA yn defnyddio mesurau lefel system lle y maent ar gael a mesurau lefel rhaglen lle nad ydynt ar gael. Dangosir hyn yn nhabl 7.1.

[27] Mae'r ABB yn arolwg mawr o gartrefi sy'n cynnwys cwestiynau am statws addysg a chyflogaeth pobl. Mae data'r ABB yn fwy amserol ond ystyrir eu bod yn llai dibynadwy na data'r Datganiad Ystadegol Cyntaf.
[28] Mae'r Datganiad Ystadegol Cyntaf yn seiliedig ar ddata o ysgolion (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion: PLASC), addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith (Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru) ac addysg uwch (yr Awdurdod Ystadegau Addysg Uwch a'r Brifysgol Agored). Mae'r data hefyd yn ystyried amcangyfrifon poblogaeth a'r ABB (Llywodraeth Cymru, 2020).
[29] Mae'r arolwg yn ceisio nodi cyrchfannau disgyblion o flynyddoedd 11, 12 ac 13.
[30] Mae pobl ifanc 16 i 18 oed yn cael eu categoreiddio i un o bum haen, yn dibynnu ar eu risg o ymddieithrio a aseswyd. Darperir rhagor o fanylion yn Atodiad D.
[31] Mae'r data hyn wedi'u cynnwys yn y Datganiad Ystadegol Cyntaf ar bobl ifanc NEET. Fodd bynnag, byddent hefyd yn cael eu defnyddio fel mesurau ar gyfer nifer (a chyfrannau) y bobl ifanc mewn gwahanol fathau o EET.

**Tabl 7.1. Defnyddio mesurau lefel system a rhaglen**

| **Lefel y newid** | **Sut mae wedi newid** | **Pam mae wedi newid** |
|---|---|---|
| Polisi ac ymarfer | Canolbwyntio ar newid rhaglenni unigol (er enghraifft, **sut** mae Cymunedau am Waith a Mwy wedi newid?) | Canolbwyntio ar newid rhaglenni unigol (er enghraifft, **pam** mae Cymunedau am Waith a Mwy wedi newid?) |
| Ymddygiad pobl ifanc | Canolbwyntio ar newid mewn ymddygiad pobl ifanc mewn perthynas â rhaglenni unigol (er enghraifft, **sut** mae nifer y bobl ifanc sy'n ymgysylltu â Cymunedau am Waith a Mwy/yn cael cymorth ganddo wedi newid?) | Canolbwyntio ar newid mewn ymddygiad pobl ifanc mewn perthynas â rhaglenni unigol (er enghraifft, **pam** mae nifer y bobl ifanc sy'n ymgysylltu â Cymunedau am Waith a Mwy/yn cael cymorth ganddo wedi newid?) |
| | Canolbwyntio ar newid yn y system gyfan (er enghraifft, **sut** mae canran y bobl ifanc NEET wedi newid?) | Canolbwyntio ar newid mewn perthynas â'r system gyfan (er enghraifft, **pam** mae canran y bobl ifanc NEET wedi newid?) |
| Canlyniadau cymdeithasol | Canolbwyntio ar newid yn y system gyfan (er enghraifft, **sut** mae llesiant pobl ifanc wedi newid?) | Canolbwyntio ar newid yn y system gyfan (er enghraifft, **pam** mae llesiant pobl ifanc wedi newid?) |

**Mesur cynnydd ar lefel unigol**

7.4 Mewn egwyddor, gellid mesur newid hefyd ar lefel person ifanc unigol (y lefel ficro). Mae prosiectau fel y cynllun peilot Canlyniadau Addysgol Hydredol yn galluogi olrhain unigolion dros amser (cynllun hydredol), ac argymhellir

archwilio dichonoldeb olrhain canlyniadau i unigolion a gefnogir gan ddarpariaeth y Warant yn y dyfodol.

**Fframwaith perfformiad arfaethedig ar gyfer y Warant a'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid**

7.5 Mae'r ddamcaniaeth newid ar gyfer y Warant yn darparu'r sail ar gyfer nodi pa newidiadau y byddem yn disgwyl eu gweld pe bai'r Warant yn llwyddiannus. Yn benodol, mae'n nodi er mwyn cyflawni ei nodau, fel cynyddu cyfran y bobl ifanc mewn EET,[32] bydd angen i'r Warant annog a galluogi newidiadau mewn ymddygiad pobl ifanc. Mae'r newidiadau disgwyliedig hyn yn llywio'r DPA. Byddai'r DPA yn galluogi tîm polisi'r Warant i fonitro cynnydd a pherfformiad ar lefel system a rhaglen.

**Newid mewn polisi a darpariaeth ar lefel rhaglen**

7.6 Fel yr amlinellwyd yn y cyflwyniad ac yn adran 5, mae'r Warant yn cynnwys amrywiaeth o raglenni gwahanol. Roedd rhai o'r rhaglenni hyn, fel y Gwasanaeth Di-waith yn rhagflaenu'r Warant (ac fe'u disgrifir fel rhaglenni etifeddol); mae rhai o'r rhaglenni etifeddol hyn, fel y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid, wedi cael eu hadnewyddu; mae eraill fel Cymunedau am Waith a Mwy wedi cael eu hymestyn (neu eu hehangu) gyda chyllid ychwanegol y Warant; ac mae rhai, fel Syniadau Mawr Cymru, yn rhaglenni newydd a sefydlwyd i gefnogi'r Warant. Bydd deall perfformiad pob rhaglen, o ran nifer y bobl ifanc sy'n manteisio ar y cymorth y maent yn ei gynnig, nifer y bobl ifanc y maent yn eu cefnogi sy'n ymuno ag EET, a nodweddion y bobl ifanc hyn, fel eu rhyw, eu hunaniaeth o ran rhywedd ac ethnigrwydd, yn bwysig i werthuso perfformiad gwahanol rannau o'r Warant.

[32] Er enghraifft, disgwylir i'r Warant gyfrannu at gyflawni'r garreg filltir genedlaethol y bydd ‘O leiaf 90% o'r rhai 16-24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050’ (Llywodraeth Cymru, 2022a, t. 4).

**Defnyddio data ar berfformiad rhaglenni gwahanol**

Mae'r Warant yn cynnwys sawl rhaglen wahanol, a bydd deall pa raglenni sy'n perfformio'n gryf a pha rai sy'n cael trafferthion yn bwysig wrth asesu perfformiad cyffredinol y Warant. Gellid defnyddio hyn, er enghraifft, i greu dangosfwrdd rhithwir i ddangos perfformiad cymharol gwahanol raglenni.[33] At hynny, bydd mesur unrhyw newidiadau mewn perfformiad (yn enwedig rhaglenni etifeddol sydd wedi'u hadnewyddu neu eu hymestyn), fel yr amlinellwyd yn adran 9, yn dystiolaeth bwysig y gellir ei hystyried fel rhan o'r gwerthusiad effaith. Er enghraifft, lle cafodd cyllid ychwanegol y Warant ei fuddsoddi mewn rhaglen, byddai nodi pa effaith y cafodd y cyllid ychwanegol hwn ar y rhaglen, ac ar nifer a nodweddion y bobl ifanc a gynorthwywyd, a'r canlyniadau i bobl ifanc, i gyd yn gwestiynau pwysig wrth ystyried effaith y Warant.

Er y bydd yn bwysig ystyried perfformiad gwahanol raglenni, o ystyried gwahaniaethau mewn rhaglenni fel cyllid a thargedu (pa grwpiau o bobl ifanc y maent yn ceisio eu cynorthwyo), ni fyddai cymhariaeth uniongyrchol rhyngddynt yn briodol. Yn hytrach, byddai angen i ddyfarniadau ar berfformiad gael eu gwneud yn erbyn amcanion pob rhaglen, fel targedau ar gyfer nifer y bobl ifanc a gynorthwyir (ymgysylltu) a chyfran y bobl ifanc a gynorthwyir gan y rhaglen sy'n mynd i EET.

7.7 Gyda'i gilydd byddai'r DPA lefel rhaglen yn rhoi arwydd ynghylch graddau (graddau a math) perfformiad rhaglen ar lefel system a hefyd graddau'r newid mewn perfformiad dros amser.

**Newid mewn ymddygiad pobl ifanc ar lefel system**

7.8 O ystyried y gorgyffwrdd rhwng y Warant, sy'n cwmpasu pobl ifanc 16 i 24 oed, a'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid, sy'n cwmpasu pobl ifanc 11 i 18 oed, mae'r fframwaith perfformiad wedi'i strwythuro'n dair rhan sy'n cwmpasu'r canlynol:

[33] Yna gellir archwilio'r rhesymau dros wahanol berfformiad cymharol ar lefel rhaglen.

- pobl ifanc 11 i 18 oed (mesur o berfformiad y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid mewn perthynas ag atal);
- pobl ifanc 16 i 18 oed (mesur o berfformiad cyfunol y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid a'r Warant o ran atal pobl ifanc rhag mynd yn NEET ac ailymgysylltu â'r rhai sydd wedi mynd yn NEET);
- pobl ifanc 19-24 oed (mesur o berfformiad y Warant o ran ailymgysylltu â phobl ifanc NEET).

**Dangosyddion Perfformiad Allweddol Arfaethedig**

7.9 Mae'r DPA arfaethedig ar gyfer y fframwaith gwerthuso hwn wedi'u hamlinellu isod. Er mwyn symlrwydd, mae'r amlinelliad (a Ffigur 7.1) dim ond yn ystyried canran yr holl bobl ifanc yng Nghymru fel grŵp cyfan (gan wneud y rhain, felly, yn brif DPA).[34] Fodd bynnag, fel y nodir isod, lle bynnag y bo'n bosibl ar gyfer pob DPA dylid hefyd ystyried y newid canrannol ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl ifanc (er enghraifft, menywod, pobl ifanc anabl). Mae hyn yn cael ei drafod ymhellach isod. Darperir rhagor o fanylion am fframwaith categoreiddio Gyrfa Cymru yn Atodiad D.

7.10 Mae'r DPA arfaethedig wedi'u bwriadu i fesur perfformiad mewn perthynas ag atal, ailymgysylltu a chynnydd. Fodd bynnag, oherwydd y bydd pob un o'r dulliau hyn, os byddant yn llwyddiannus, yn cynyddu cyfran y bobl ifanc mewn EET, mae gorgyffwrdd rhwng y DPA (hynny yw, gellir cymhwyso'r un DPA i atal, ailymgysylltu a chynnydd).[35] Mae hyn yn golygu na fydd yn bosibl defnyddio'r DPA a rennir hyn i asesu a yw atal, ailymgysylltu neu gynnydd yn gweithio. Fodd bynnag, gellir defnyddio'r DPA a rennir hyn o hyd i asesu a yw'r Warant (a, lle y bo'n berthnasol, y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid) yn gweithio yn ei chyfanrwydd. Maent hefyd yn galluogi i nodau'r Warant gael eu cyflawni mewn ffyrdd gwahanol. Er enghraifft, byddai atal llwyddiannus yn lleihau'r angen am ailymgysylltu a chynnydd.

[34] Mae cyfanswm y bobl ifanc 16 i 18 oed a 19 i 24 oed yn hysbys, a hefyd, er enghraifft, y nifer sy'n cael mynediad at Cymru'n Gweithio a TSC+, felly gellir cyfrifo canran sy'n caniatáu ar gyfer newidiadau ym maint y boblogaeth o bobl ifanc 16 i 18 oed, sy'n fesur gwell yn hytrach na dim ond edrych ar y newid mewn termau rhifiadol.
[35] Fodd bynnag, nid yw pob DPA yn cael ei rannu ac, mewn rhai achosion, mae'n bosibl nodi DPA ychwanegol sy'n benodol i atal, ailymgysylltu neu gynnydd.

**Ffigur 7.1. Fframwaith perfformiad: prif DPA arfaethedig**

| Allwedd | DPA penodol i'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid | DPA penodol i'r Warant | DPA a Rennir |
|---|---|---|---|

| Ffocws: | DPA a awgrymir | |
|---|---|---|
| Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid: atal 11-18 | Mae cyfran y bobl ifanc 16-18 oed mewn EET y nodir eu bod mewn perygl o ymddieithrio yn gostwng (Data Categoreiddio Gyrfa Cymru) * | **DPA cyffredinol:** Mae cyfran y bobl ifanc 16-24 oed sy'n EET yn cynyddu (data'r Datganiad Ystadegol Cyntaf) |
| Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid a'r Warant i Bobl Ifanc Atal ac ailymgysylltu 16-18 | Mae cyfran y bobl ifanc 16-18 oed sy'n EET yn cynyddu (data'r Datganiad Ystadegol Cyntaf) | |
| | Mae cyfran y bobl ifanc 16-18 oed sy'n manteisio ar gymorth yn cynyddu (data gwybodaeth reoli'r rhaglen) | |
| Y Warant Atal ac ailymgysylltu 19-24 | Mae cyfran y bobl ifanc 19-24 oed sy'n manteisio ar gymorth yn cynyddu (data gwybodaeth reoli'r rhaglen) | |
| | Mae cyfran y bobl ifanc 19-24 oed sy'n EET yn cynyddu (data'r Datganiad Ystadegol Cyntaf) | |

* Defnyddir gostyngiad yng nghyfran y bobl ifanc 16 i 18 oed y bernir eu bod mewn perygl o ymddieithrio fel mesur uniongyrchol o lwyddiant ar gyfer y rhai 16 i 18 oed ac fel mesur procsi ar gyfer y rhai 11 i 15 oed, ar y sail y dylai nodi cynnar ar gyfer pobl ifanc 11 i 15 oed leihau eu risgiau o ymddieithrio wrth iddynt fynd yn hŷn.

**Prif DPA arfaethedig**

7.11 Cynigir cyfres o DPA ar gyfer y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid a/neu'r Warant, gan gwmpasu pobl ifanc 11 i 18 oed, pobl ifanc 16 i 19 oed a phobl ifanc 19 i 24 oed. Maent yn cwmpasu nodi ac atal yn gynnar, ymgysylltu a chynnydd, ac fe'u hamlinellir isod. Mae'r DPA wedi'u bwriadu i fesur cynnydd yn erbyn y canlyniadau a fwriedir a ddisgrifir yn y damcaniaethau newid. Felly, mae DPA yn cael eu paru â datganiadau sy'n disgrifio'r hyn y byddem yn disgwyl ei weld, o ystyried damcaniaeth newid y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid a'r Warant

**Canlyniadau a ddisgwylir a DPA arfaethedig ar gyfer y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid a'r Warant (11-18)**

*Nodi ac atal yn gynnar*

- Canlyniad a ddisgwylir: mae pobl ifanc 11 i 18 oed sydd mewn perygl o fod yn NEET yn cael eu cynorthwyo'n well ac yn fwy abl i gynnal EET a chyfnodau pontio rhwng EET. Felly, mae cyfran y bobl ifanc 16 i 18 oed sydd mewn EET yn cynyddu.
- Canlyniad a ddisgwylir: dros amser, bydd cyfran y bobl ifanc 18 oed a throsodd sydd mewn EET yn cynyddu (wrth i bobl ifanc bontio'n llwyddiannus i EET rhwng 16 ac 18 oed).
- DPA arfaethedig: mae canran y bobl ifanc 16 i 18 oed sydd wedi'u categoreiddio fel rhai yn Haen 5 (mewn EET ac yn cynnal eu cyfranogiad) yn cynyddu; *ac*

  Mae canran y bobl ifanc 16-18 oed sydd wedi'u categoreiddio* fel rhai yn Haen 4 (mewn perygl o roi'r gorau i EET) a'r ganran yn Haen 3 (wrthi'n chwilio am EET), Haen 2 (yn hysbys i Gyrfa Cymru, ond nad ydynt ar gael ar gyfer EET) a Haen 1 (nad ydynt yn hysbys i Gyrfa Cymru) yn gostwng (ffynhonnell: data categoreiddio Gyrfa Cymru).
- DPA arfaethedig: mae canran y bobl ifanc ym Mlynyddoedd 11-13 sy'n pontio'n llwyddiannus o'r ysgol i EET yn cynyddu (ffynhonnell: arolwg cyrchfannau disgyblion Gyrfa Cymru).

- DPA arfaethedig: mae canran y bobl ifanc 16-18 oed sydd mewn EET yn cynyddu a dilynir hyn dros y ddwy flynedd nesaf gan gynnydd yn nifer y bobl ifanc 19-24 oed sydd mewn EET (ffynhonnell: Datganiad Ystadegol Cyntaf[36]).

*Ymgysylltu*

- Canlyniad a Ddisgwylir: mae pobl ifanc 16 i 18 oed sy'n NEET yn cael eu nodi a'u cynorthwyo i ailymgysylltu ag EET (y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid) neu mae pobl ifanc (p'un a ydynt mewn EET ai peidio)[37] yn cael eu hannog i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth (er enghraifft, o ganlyniad i gynnig cymorth gwell) (y Warant). Felly, mae cyfran y bobl ifanc 16 i 18 oed sy'n ymgysylltu â gwasanaethau cymorth yn cynyddu.
- DPA arfaethedig: mae canran y bobl ifanc 16-18 oed yn Haen 1 (anhysbys i Gyrfa Cymru) yn gostwng; *ac*
- Mae'r ganran yn Haen 3 (wrthi'n chwilio am EET) yn cynyddu (ffynhonnell: data categoreiddio Gyrfa Cymru).
- DPA arfaethedig: mae canran y bobl ifanc 16-18 oed sy'n ymgysylltu â Cymru'n Gweithio, TSC+ a Busnes Cymru yn cynyddu (ffynhonnell: data gwybodaeth reoli rhaglenni).

*Cynnydd*

- Canlyniad a Ddisgwylir: pobl ifanc 16 i 18 oed sy'n cael cymorth i ailymgysylltu ag EET ac yn cynnal hyn. Felly, mae cyfran y bobl ifanc 16 i 18 oed mewn EET yn cynyddu.
- DPA arfaethedig: mae canran y bobl ifanc 16-18 oed yn Haen 1 (anhysbys i Gyrfa Cymru) a 2 (hysbys i Gyrfa Cymru, ond nad ydynt ar gael ar gyfer EET) yn gostwng ac mae'r ganran yn Haen 3 (wrthi'n chwilio am EET) a haen 5 (mewn EET ac yn cynnal hyn) yn cynyddu (ffynhonnell: data categoreiddio Gyrfa Cymru).

---

[36] Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yng Nghymru.

[37] Er y gallai'r Warant fod yn bwysicach i bobl ifanc sy'n NEET, mae'n gynnig cyffredinol, sy'n agored i bob person ifanc.

- DPA arfaethedig: mae'r cynnydd canrannol yn nifer y bobl ifanc 16-18 oed sy'n ymgysylltu â Cymru'n Gweithio, TSC+ a Busnes Cymru o leiaf mor fawr â'r cynnydd canrannol yn nifer y bobl ifanc 16-18 oed sy'n ymgysylltu â'r rhaglenni hyn sy'n mynd i EET[38] (ffynhonnell:  data gwybodaeth reoli rhaglenni).

**Canlyniadau a ddisgwylir a DPA arfaethedig ar gyfer y Warant (19-24)**

*Nodi ac atal yn gynnar*

- Canlyniad a Ddisgwylir: mwy o bobl ifanc yn pontio'n llwyddiannus rhwng, er enghraifft, yr ysgol ac EET ôl-16. Felly, mae cyfran y bobl ifanc 19 oed a throsodd mewn EET yn cynyddu.
- DPA arfaethedig: mae canran y bobl ifanc 19-24 oed sydd mewn EET yn cynyddu o gymharu â'r ganran ymhlith y rhai 18-23 oed a oedd mewn EET yn y flwyddyn flaenorol (ffynhonnell: Datganiad Ystadegol Cyntaf).

*Ymgysylltu*

- Canlyniad a Ddisgwylir: pobl ifanc 19-24 oed yn manteisio ar gynnig cymorth y Warant. Felly, mae cyfran y bobl ifanc 16 i 24 oed sy'n ymgysylltu â gwasanaethau cymorth yn cynyddu.
- DPA arfaethedig: mae canran y bobl ifanc 19-24 oed a gynorthwyir gan raglenni cymorth EET a Busnes Cymru yn cynyddu (ffynhonnell: data gwybodaeth reoli rhaglenni).
- Mesur procsi posibl ymhlith pobl ifanc nad ydynt mewn EET: mae'r ganran sy'n economaidd weithgar (yn ddi-waith, ond wrthi'n chwilio am gyflogaeth) yn cynyddu ac mae'r ganran sy'n economaidd anweithgar (ac eithrio myfyrwyr) yn gostwng (ffynhonnell: Datganiad Ystadegol Cyntaf).[39]

[38] Er enghraifft, os ydym yn tybio cyfradd trosi 40%, sy'n golygu bod 40% o'r cyfranogwyr ar raglen yn mynd i EET, os yw nifer y cyfranogwyr yn cynyddu 10%, dyweder o 1000 i 1100, yna dylai nifer y cyfranogwyr a gynorthwyir gan raglenni sy'n mynd i EET gynyddu hefyd o leiaf 10% (yn yr enghraifft hon, gan gynyddu o 400 i o leiaf 440).

[39] Mae hyn yn tybio bod cynnig cymorth y Warant yn annog pobl ifanc a oedd yn economaidd anweithgar i ddechrau mynd ati i chwilio am waith (neu addysg a hyfforddiant ôl-16).

*Cynnydd*

- Canlyniad a Ddisgwylir: mae pobl ifanc 19-24 oed sy'n cael cymorth, yn ailymgysylltu ag EET ac yn cynnal hyn. Felly, mae cyfran y bobl ifanc 16 i 24 oed mewn EET yn cynyddu.
- DPA arfaethedig: mae canran y bobl ifanc 19-24 oed sy'n economaidd weithgar (cyflogedig neu ddi-waith ond wrthi'n chwilio am gyflogaeth) neu fyfyrwyr yn cynyddu.
- DPA arfaethedig: mae canran y bobl ifanc sydd mewn EET yn cynyddu (ffynhonnell: Datganiad Ystadegol Cyntaf).
- DPA arfaethedig: mae'r cynnydd canrannol yn nifer y bobl ifanc 19-24 oed sy'n ymgysylltu â Cymru'n Gweithio, Cymunedau am Waith a Mwy a Busnes Cymru o leiaf mor fawr â'r cynnydd canrannol yn nifer y bobl ifanc 19-24 oed sy'n ymgysylltu â'r rhaglenni hyn sy'n mynd i EET[40] (ffynhonnell: data gwybodaeth reoli rhaglenni).


**Gosod llinellau sylfaen**

7.11 O ystyried yr anwadalrwydd blynyddol mewn rhai o'r ystadegau perthnasol, cynigir y dylai'r llinell sylfaen ar gyfer mesur newidiadau yn y DPA yn seiliedig ar ddata'r Datganiad Ystadegol Cyntaf neu wybodaeth reoli gael ei gosod ar sail cyfartaledd tair blynedd: 2019-2021, gyda chyfartaledd treigl tair blynedd yn cael ei gyfrifo o'r cyfnod hwnnw o dair blynedd (2020-2022; 2021-2023 ac ati). Fel y dengys Ffigur 7.2., mae'r llinell sylfaen hon yn cwmpasu'r pandemig, a oedd yn gyfnod annodweddiadol. Fodd bynnag, o ystyried bod y Warant wedi'i chyflwyno, yn rhannol, mewn ymateb i'r union ffactor hwn, bernir bod hyn yn briodol.

[40] Fel y nodwyd uchod, os bydd nifer y cyfranogwyr ar raglenni yn cynyddu 10%, yna dylai nifer y cyfranogwyr a gynorthwyir gan raglenni sy'n mynd i EET hefyd gynyddu o leiaf 10%.

**Ffigur 7.2. Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru, 2004 i 2022**

Llinell sylfaen arfaethedig




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2023c.

7.12 Mae data categoreiddio Gyrfa Cymru yn ffynhonnell ddata bosibl bwysig, ond maent yn creu rhai heriau os cânt eu defnyddio fel sail ar gyfer DPA. Er enghraifft, yn wahanol i ddata'r Datganiad Ystadegol Cyntaf a gwybodaeth reoli rhaglenni, mae'n seiliedig i raddau helaeth ar asesiadau goddrychol o gyfeiriadedd person ifanc tuag at EET (gan ddefnyddio offeryn categoreiddio Gyrfa Cymru) yn hytrach na mesurau mwy gwrthrychol (fel statws cyflogaeth person ifanc neu ymgysylltu â rhaglen). At hynny, mae'r cyfeiriadedd hwn yn debygol o fod yn anwadal, gyda phobl ifanc yn symud rhwng haenau yn amlach nag y byddai disgwyl iddynt symud rhwng statws EET neu NEET, ac mae hefyd yn sensitif i amseru.[41] Wrth gyfrifo llinellau sylfaen, byddai hefyd yn bwysig osgoi cyfrif ddwywaith (er enghraifft, pan symudodd pobl ifanc o un haen i un arall mewn cyfnod penodol o amser). Yn olaf, fel gydag unrhyw set ddata, mae dim ond cystal â'r data a fewnbynnir, ac, er enghraifft, mae oedi o ran darparwyr addysg a hyfforddiant yn cyflwyno gwybodaeth gywir, amserol am, er enghraifft, y bobl ifanc sy'n gadael cyrsiau, yn golygu efallai nad yw'n gywir.

[41] Er enghraifft, mae nifer y bobl ifanc NEET yn tueddu i gyrraedd uchafbwynt ar ddiwedd y flwyddyn ysgol.

## 8. Data: argaeledd, digonolrwydd a dadansoddi/defnyddio

8.1 Fel yr amlinellwyd yn adrannau 3-5, yn unol â'r tair damcaniaeth newid gydgysylltiedig, bydd angen i'r gwerthusiad o'r Warant ganolbwyntio ar dair lefel:

- **Polisi ac ymarfer:** sut y mae'r cynnig cymorth i bobl ifanc 16 i 24 oed yn newid (canlyniadau polisi[42]);
- **Ymddygiad pobl ifanc:** Sut y mae ymddygiad pobl ifanc 16-24 oed yn newid mewn ymateb i newidiadau yn y cynnig cymorth (canlyniadau ymddygiadol); a
- **Chanlyniadau cymdeithasol**: sut y mae newidiadau yn ymddygiad pobl ifanc 16 i 24 oed yn cyfrannu at ganlyniadau cymdeithasol, fel cryfhau llesiant Cymru a'r Gymraeg.

8.2 O ystyried y cwestiynau gwerthuso a amlinellwyd yn adran 6, i grynhoi, ar gyfer pob lefel, mae angen i'r gwerthusiad archwilio:


- **yr hyn** newidiodd (sut, er enghraifft, mae polisi ac ymarfer yn newid); a
- **pam** y newidiodd (gan gynnwys, yn benodol, y cyfraniad a wnaed gan y Warant at unrhyw newidiadau a arsylwyd).

8.3 Mae Ffigur 8.1. (isod) yn rhoi trosolwg o'r gwahanol fathau o ffynonellau data sylfaenol ac eilaidd y cynigir ymgynghori â nhw er mwyn coladu data ar yr hyn newidiodd a pham ar bob un o'r tair lefel a amlinellwyd uchod.

Bydd y defnydd hwn o ffynonellau lluosog yn galluogi triongli data, gwneud y defnydd gorau o ddata eilaidd presennol a helpu i sicrhau bod y dadansoddiad o sut a pham mae newid yn digwydd yn gynhwysfawr ac yn gredadwy. Darperir trosolwg byr o'r ffynonellau data gwahanol hyn yn nhablau 8.1 i 8.5.

[42] Bydd angen i hyn ystyried polisi ar bapur ac yn ymarferol (e.e., ystyried cyflwyno/gweithredu).

**Ffigur 8.1. Ateb cwestiynau sut a pham**




*Gellir ystyried bod cyfranogiad pobl ifanc mewn EET yn ganlyniad ymddygiadol a chymdeithasol.

**Yn debygol o ystyried, er enghraifft, cyfraniad rhaglenni at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

*** Lansiwyd y Sgwrs Genedlaethol ym mis Mai 2022 a'i nod yw rhoi llais i bobl ifanc am eu profiadau o EET ôl-16.

**** Bydd 100 o bobl ifanc sydd â nodweddion gwahanol yn cael eu cyfweld fel rhan o'r gwerthusiad proses.

**Tabl 8.1. Crynodeb o ffynonellau data – rhanddeiliaid llywodraethol**

| Ffynhonnell data | Swyddogaeth(au) | Sylw/sylwadau | Arfarniad |
|---|---|---|---|
| Cyfweliadau â thîm polisi'r Warant Llywodraeth Cymru | • Darparu data sydd eu hangen ar gyfer y gwerthusiadau proses, effaith ac economaidd,[43] er enghraifft ar:<br>• fwriad polisi (canlyniadau a fwriedir/a ddymunir) a llwyddiannau/effeithiau canfyddedig, rhwystrau a/neu alluogwyr i newid polisi ac ati; a<br>• y 'dulliau' a ddefnyddir (ar gyfer newid polisi ac ymarfer, fel cyllid, arweiniad, cyfathrebu, rhwydweithiau). | • Mae'n dibynnu i raddau helaeth ar ddata ansoddol ynghylch yr hyn a wnaed, pam a pha mor effeithiol ydoedd.<br>• Fodd bynnag, gellir cadarnhau'r data hyn gan ddogfennau polisi ac ati (er enghraifft, sy'n rhoi tystiolaeth o'r dulliau a ddefnyddiwyd), a gellir triongli dyfarniadau effeithiolrwydd gydag ymatebion gan y rhai sy'n darparu'r Warant.<br>• Gellir eu defnyddio i archwilio newid ar lefel system a rhaglen. | • Mae casglu data drwy'r gwerthusiad proses yn ymarferol a dim ond baich bach y dylai ei roi ar randdeiliaid.<br>• Ar gyfer y tîm polisi, bydd angen defnyddio data personol mewn cyfweliadau (enwau a manylion cyswllt), ond ni fydd Hysbysiad Preifatrwydd newydd yn ofynnol. Fodd bynnag, bydd yn ofynnol ar gyfer staff yn Medr (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil).<br>• Gall amseru unrhyw werthusiad effaith yn y dyfodol |

[43] Byddai'r gwerthusiad effaith yn ei gwneud yn ofynnol cael data ar gostau a manteision er mwyn asesu a yw'r Warant yn ddefnydd da o adnoddau. Bydd asesiad o gostau a manteision (yn rhannol) yn defnyddio data o'r gwerthusiadau proses ac effaith (er enghraifft, nifer y bobl ifanc a gynorthwyir, nifer y bobl ifanc sy'n cyflawni canlyniadau cadarnhaol). I osgoi dyblygu, wrth drafod gwerthuso economaidd, mae'r tabl yn canolbwyntio ar ddata ariannol yn hytrach na data ar, er enghraifft, nifer y bobl ifanc a gynorthwyir neu nifer y bobl ifanc sy'n cyflawni canlyniadau cadarnhaol, a allai ddod o'r gwerthusiadau proses ac effaith.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfweliadau â'r rhai sy'n darparu'r Warant* | • Darparu data sydd eu hangen ar gyfer y gwerthusiadau proses, effaith ac economaidd, er enghraifft ar:<br>- sut newidiodd rhaglenni oherwydd y Warant (er enghraifft, beth mae rhaglenni yn ei wneud yn wahanol oherwydd y Warant) a pham (er enghraifft, a oes newidiadau wedi'u gwneud mewn ymateb i ganllawiau Llywodraeth Cymru, dulliau cyllido, ac ati), gan gynnwys rhwystrau a galluogwyr i newid polisi.<br>- safbwyntiau ar sut a pham y gall ymddygiad pobl ifanc fod yn newid/wedi newid o ganlyniad i'r Warant.[44] | • Mae'n dibynnu i raddau helaeth ar ddata ansoddol ynghylch os, sut a pham mae polisi ac ymddygiad pobl ifanc wedi newid, gan ddefnyddio sampl ar raddfa fach o'r rhai sy'n ymwneud â darparu rhaglenni ledled Cymru (n=35-50).<br>• Bydd angen i ymatebion gael eu triongli â ffynonellau eraill (er enghraifft, gwerthusiadau rhaglen) i asesu dilysrwydd mewnol ac allanol.[45]<br>• Gall fod yn anodd penderfynu a yw polisi ar bapur yn/wedi cael ei weithredu fel y bwriadwyd/fel y cynlluniwyd, ac felly ei fod mewn gwirionedd wedi newid yn ymarferol (er y gall | olygu y byddai'n angenrheidiol ailgyfweld â rhanddeiliaid i nodi newidiadau yn y cyfamser (e.e. pe bai cyfnod hir yn mynd heibio rhwng y gwerthusiad proses ac unrhyw werthusiad effaith yn y dyfodol).<br>• Bydd cyfweliadau â'r rhai sy'n darparu'r Warant yn ei gwneud yn ofynnol defnyddio data personol (enwau a manylion cyswllt) a Hysbysiad Preifatrwydd. |

[44] Heb ddyblygu gwerthusiadau rhaglen yn ddiangen (lle y maent ar gael).
[45] Mae dilysrwydd mewnol yn disgrifio a yw'r cysyniad a astudir yn cael ei ddisgrifio'n ddigonol ac, er enghraifft, a yw'r dystiolaeth o berthynas achosol yn gadarn. Mae dilysrwydd allanol yn disgrifio a ellir cyffredinoli canfyddiadau'r astudiaethau i gyd-destunau eraill (Bryman, 2012).

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ffynonellau eraill, fel gwerthusiadau rhaglen roi tystiolaeth o hyn). | |

*Mae gwybodaeth ychwanegol am gyfweliadau rhanddeiliaid wedi'i chynnwys yn Atodiad C.

**Tabl 8.2. Crynodeb o ffynonellau data – pobl ifanc**

| Ffynhonnell data | Swyddogaeth(au) | Sylw/sylwadau | Arfarniad |
|---|---|---|---|
| Cyfweliadau â phobl ifanc o bob rhan o Gymru, er mwyn archwilio profiadau grwpiau gwahanol o bobl ifanc, gan roi ystyriaeth arbennig i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (NEET), y rhai sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur, pobl â nodweddion | • Darparu data sydd eu hangen ar gyfer y gwerthusiadau proses ac effaith, fel:<br>• sut a pham mae ymddygiad pobl ifanc yn newid;<br>• cyfranogiad pobl ifanc mewn datblygu polisi a rhaglenni;<br>• profiadau pobl ifanc o'r Warant a/neu'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid a'u hymwybyddiaeth o'r rhain; ac<br>• effaith ganfyddedig y Warant a/neu'r Fframwaith | • Mae'n dibynnu i raddau helaeth ar ddata ansoddol ynghylch profiadau o'r Warant a sut a pham y gallai ymddygiad fod wedi newid gan ddefnyddio sampl ar raddfa fach o bobl ifanc (n=100).<br>• Bydd angen i ymatebion gael eu triongli â ffynonellau eraill (er enghraifft, gwerthusiadau rhaglen) er mwyn helpu i asesu dilysrwydd mewnol ac allanol. | • Mae casglu data drwy'r gwerthusiad proses yn ymarferol a dim ond baich bach y dylai ei roi ar randdeiliaid.<br>• Bydd rhannu a defnyddio data personol, fel manylion cyswllt, yn gofyn am Hysbysiadau Preifatrwydd.<br>• Bydd casglu a defnyddio data 'categori arbennig' yn ei gwneud yn ofynnol nodi'r sail a'r amod cyfreithiol ac asesiad o'r effaith ar ddiogelu data. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| gwarchodedig a'r rhai sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol o ran cael mynediad at waith a'i gynnal. Dylai samplu gynnwys y rhai sy'n ymgysylltu â chymorth fel Gyrfa Cymru/Cymru'n Gweithio a rhaglenni perthnasol[46], a'r rhai nad ydynt yn ymgysylltu â chymorth o'r fath. | Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid. | • Mae'n cynnig rhywfaint o le i archwilio profiadau'r rhai nad ydynt ymgysylltu â'r Warant. Er y gellir trosglwyddo canfyddiadau ansoddol i grwpiau, lleoliadau a chyd-destunau tebyg eraill bydd y cyfle i gyffredinoli o samplau ar raddfa fach yn dibynnu ar ffactorau fel cyd-destunau a nodweddion y bobl ifanc y cyfwelir â nhw. | • Yn dibynnu ar amseru unrhyw werthusiad effaith yn y dyfodol, efallai y bydd yn angenrheidiol ailgyfweld â rhanddeiliaid i nodi newidiadau yn y cyfamser. |

[46] Gan ystyried yr angen i osgoi dyblygu o ran gwerthuso rhaglenni unigol.

**Tabl 8.3. Crynodeb o ffynonellau data – dogfennau a data rhaglen**

| Ffynhonnell data | Swyddogaeth(au) | Sylw/sylwadau | Arfarniad |
|---|---|---|---|
| Adolygiad desg o ddogfennau polisi a rhaglenni | • Darparu data sydd eu hangen ar gyfer y gwerthusiadau proses, effaith ac economaidd,47 er enghraifft ar:<br>• fwriad polisi (canlyniadau a fwriedir/a ddymunir); a<br>• y 'dulliau' i'w defnyddio (ar gyfer newid polisi ac ymarfer, fel cyllid, arweiniad, cyfathrebu, rhwydweithiau). | • Gall fod bwlch rhwng bwriad polisi a pholisi fel y'i gweithredir a bydd yn bwysig archwilio hyn drwy gyfweliadau a ffynonellau data eraill, fel gwybodaeth reoli rhaglenni a data ariannol.<br>• Gellir eu defnyddio i archwilio newid a fwriedir ar lefel system a rhaglen. | • Mae casglu data drwy'r gwerthusiad proses yn ymarferol a dim ond baich cymedrol iawn y dylai ei roi ar randdeiliaid (er enghraifft, wrth nodi dogfennau polisi). |
| Data ariannol rhaglenni | • Darparu data sydd eu hangen ar gyfer y gwerthusiad economaidd fel:<br>• gwariant (costau) rhaglenni elfennau'r Warant, a sut y mae | • Data meintiol.<br>• Dim ond ar gael ar lefel rhaglen (er bod argaeledd data ar elfennau unigol y Warant yn gryfder hefyd). | • Mae data gwybodaeth reoli (gan gynnwys ariannol) eisoes yn cael eu casglu gan dimau rhaglenni. Nid yw'r data hyn yn cael eu rhannu'n rheolaidd, er y |

[47] Byddai'r gwerthusiad effaith yn ei gwneud yn ofynnol cael data ar gostau a manteision er mwyn asesu a yw'r Warant yn ddefnydd da o adnoddau. Bydd asesiad o gostau a manteision (yn rhannol) yn defnyddio data o'r gwerthusiadau proses ac effaith (er enghraifft, nifer y bobl ifanc a gynorthwyir, nifer y bobl ifanc sy'n cyflawni canlyniadau cadarnhaol). I osgoi dyblygu, wrth drafod gwerthuso economaidd, mae'r tabl yn canolbwyntio ar ddata ariannol yn hytrach na data ar, er enghraifft, nifer y bobl ifanc a gynorthwyir neu nifer y bobl ifanc sy'n cyflawni canlyniadau cadarnhaol, a allai ddod o'r gwerthusiadau proses ac effaith.

<table>
<tr>
<td></td>
<td>hyn yn newid dros amser (er enghraifft, ehangu rhaglenni gyda chymorth arian y Warant); a<br>• chost fesul cyfranogwr, cost fesul canlyniad ac ati.</td>
<td></td>
<td rowspan="2">gellir eu cynnwys mewn adroddiadau gwerthuso cyhoeddedig.<br>• Ni ddylai hyn gynnwys data personol (felly nid yw GDPR yn berthnasol), oni bai, er enghraifft, bod y gwerthusiad effaith yn ei gwneud yn ofynnol cael data ar nodweddion cyfranogwyr unigol at ddibenion paru (nad yw'n cael ei argymell),<br>• Mae'n debygol o'i gwneud yn ofynnol cael data cyfres amser, i ddangos newid mewn gwariant dros amser (cyn/ar ôl 2021), a data cyfunol, i allu cyfrifo costau a pherfformiad dros gyfnod diffiniedig o amser.<br>• Argymhellir y dylid pennu mesurau ar sail cyfartaledd tair blynedd: 2019-2021, gyda</td>
</tr>
<tr>
<td>Data gwybodaeth reoli rhaglenni</td>
<td>• Darparu data sydd eu hangen ar gyfer y gwerthusiadau proses, effaith ac economaidd, gan gynnwys:<br>• nifer a nodweddion y bobl ifanc sy'n ymgysylltu (gan gynnwys newid dros amser, e.e. cyn/ar ôl y Warant);<br>• nifer a nodweddion y bobl ifanc sy'n cyflawni canlyniadau, fel mynediad at EET (gan gynnwys newid dros amser, e.e. cyn/ar ôl y Warant);<br>• data ar gapasiti (e.e. nifer y staff, cyllidebau hyfforddi, gan</td>
<td>• Dim ond ar gael ar lefel rhaglen (er bod argaeledd data manwl ar gost-effeithiolrwydd ac effaith elfennau unigol y Warant yn gryfder hefyd).<br>• Yn gyffredinol, mae dim ond yn cynnwys profiadau'r rhai sy'n dewis ymgysylltu â rhaglenni (yn hytrach na'r rhai nad oeddent yn dewis ymgysylltu).</td>
</tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gynnwys newid dros amser, e.e. cyn/ar ôl y Warant). | | chyfartaledd treigl tair blynedd yn cael ei gyfrifo o'r cyfnod hwnnw o dair blynedd (2020-2022; 2021-2023 ac ati). |

**Tabl 8.4. Crynodeb o ffynonellau data – gwerthusiadau rhaglen ac ymchwil eilaidd**

| Ffynhonnell data | Swyddogaeth(au) | Sylw/sylwadau | Arfarniad |
|---|---|---|---|
| Gwerthusiadau rhaglen | • Darparu data sydd eu hangen ar gyfer y gwerthusiadau proses, effaith ac economaidd, fel:<br>• nifer a nodweddion y bobl ifanc sy'n ymgysylltu (gan gynnwys newid dros amser, er enghraifft cyn/ar ôl y Warant);<br>• nifer a nodweddion y bobl ifanc sy'n cyflawni canlyniadau, fel mynediad at EET (gan gynnwys newid dros amser, er enghraifft cyn/ar ôl y Warant);<br>• chost fesul cyfranogwr, cost fesul canlyniad ac ati;<br>• effaith rhaglenni ar ymddygiad pobl ifanc (er enghraifft, ymgysylltu â'r rhaglen) a chanlyniadau (er enghraifft, mynediad at EET); | • Dim ond ar gael ar lefel rhaglen (er bod argaeledd data manwl ar gost-effeithiolrwydd ac effaith elfennau unigol y Warant yn gryfder hefyd).<br>• Yn gyffredinol, mae dim ond yn ymwneud â phrofiadau'r rhai sy'n dewis ymgysylltu â rhaglenni'r Warant (yn hytrach na'r rhai nad ydynt yn dewis ymgysylltu). | • Mae argaeledd ac amseroldeb adroddiadau yn dibynnu ar gomisiynu ac adrodd cylchoedd adrodd ar gyfer gwerthusiad pob rhaglen.<br>• Yn dibynnu ar amseru unrhyw werthusiad effaith yn y dyfodol, gall fod yn angenrheidiol adolygu gwerthusiadau a gyhoeddwyd yn y cyfnod ar ôl i'r gwerthusiad proses ddod i ben.<br>• Ni ddylent gynnwys data personol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • effaith rhaglenni ar nodau polisi LIC, fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. | | |
| Ymchwil eilaidd: (fel yr hyn a gyhoeddwyd yn ddiweddar Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth: Cynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant) | • Darparu data sydd eu hangen ar gyfer y gwerthusiad effaith fel:<br>• pam mae ymddygiad pobl ifanc yn newid (gan gynnwys y rhwystrau y gallant eu hwynebu)?<br>• pa effeithiau y gellid eu disgwyl o'r Warant (yn seiliedig ar dystiolaeth o ymyriadau tebyg eraill, er enghraifft)? | • Potensial i ddarparu mewnwelediad o ran sut a pham mae ymddygiad pobl ifanc wedi newid neu'n debygol o newid (cefnogi dulliau seiliedig ar ddamcaniaeth o werthuso effaith).<br>• Mae dilysrwydd allanol y data hyn yn ansicr (nid yw'n hysbys ymlaen llaw os, er enghraifft, gellir cymhwyso canfyddiadau o ddarn o ymchwil neu werthuso i'r Warant). | • Yn dibynnu ar amseru unrhyw werthusiad effaith yn y dyfodol, gall fod yn angenrheidiol adolygu'r ymchwil a gyhoeddwyd yn y cyfnod ar ôl i'r gwerthusiad proses ddod i ben, yn enwedig, er enghraifft, os oes newidiadau sylweddol yn y cyd-destun, sy'n debygol o effeithio ar ymddygiad pobl ifanc.<br>• Ni ddylai gynnwys data personol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Data'r Sgwrs Genedlaethol[48] | • Darparu data sydd eu hangen ar gyfer y gwerthusiad proses ac effaith ar gwestiynau fel:<br>• ymwybyddiaeth pobl ifanc o'r Warant; a<br>• phrofiadau pobl ifanc, y rhwystrau y maent yn eu hwynebu o ran EET, ac ati. | • Data lefel system, sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o agweddau pobl ifanc at EET a'u profiadau (ac agweddau eraill ar fywyd).<br>• Data ansoddol sy'n seiliedig ar sampl hunanddewis o bobl ifanc. Felly, nid yw'n bosibl/briodol defnyddio'r canfyddiadau i gyffredinoli a dod i gasgliadau am brofiadau'r holl bobl ifanc neu'r rhai o grŵp penodol yn seiliedig ar sampl gynrychioliadol a dadansoddiad ystadegol. Yn hytrach, yn dibynnu ar natur y canfyddiadau, efallai y byddwn yn gallu tybio rhywfaint o | • Yn dibynnu ar gomisiynu Sgyrsiau Cenedlaethol yn y dyfodol a chyflwyno adroddiadau arnynt.<br>• Ni ddylai adroddiadau a gyhoeddir gynnwys data personol.<br>• Dylai'r Sgyrsiau Cenedlaethol hynny a gyhoeddir ar ôl i'r gwerthusiad proses ddod i ben gael eu hystyried fel rhan o'r gwerthusiad effaith. |

[48] Lansiodd Llywodraeth Cymru y Sgwrs Genedlaethol yn 2022 i 'wrando' ar bobl ifanc a 'deall sut y mae pobl ifanc yng Nghymru yn gweld y gefnogaeth a'r ddarpariaeth sydd ar gael iddynt, a pha fath o gefnogaeth maen nhw'n dweud bod arnyn nhw ei hangen, a chlywed am y rhwystrau y maen nhw'n eu hwynebu ar hyn o bryd.' (Llywodraeth Cymru, 2023a, t. 3). Fel rhan o'r Sgwrs Genedlaethol, yn 2022, cymerodd 40 o bobl ran mewn grwpiau ffocws, cwblhaodd 129 o bobl ifanc arolwg omnibws ar-lein a chymerodd tua 100 o bobl ifanc ran mewn trafodaethau a hwyluswyd gan ddarparwyr hyfforddi, gweithwyr ieuenctid a gwasanaethau cymorth (Llywodraeth Cymru, 2023a). Yn 2023, cymerodd 55 o bobl ifanc ran mewn grwpiau ffocws a chwblhaodd 421 yr arolwg omnibws ar-lein (Llywodraeth Cymru, 2024e). Mae'r rhai sydd wedi cyfrannu yn cynnwys pobl ifanc mewn EET ac a oedd yn NEET, pobl ifanc anabl, y rhai â chyflyrau iechyd meddwl, pobl ifanc Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, a siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg (ibid).

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gyffredinoldeb naturiolaidd neu ddamcaniaethol os, er enghraifft, ymddengys fod y canfyddiadau'n annhebygol o fod yn benodol i'r cyd-destun a/neu'r grŵp, ac y gellir eu ‘trosglwyddo’ i grwpiau a chyd-destunau tebyg eraill (Lincoln a Guba, 1985). | |

**Tabl 8.5. Crynodeb o ffynonellau data – data ystadegol ac economaidd**

| Ffynhonnell data | Swyddogaeth(au) | Sylw/sylwadau | Arfarniad |
|---|---|---|---|
| Ystadegau Gwladol (e.e. Datganiad Ystadegol Cyntaf: Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur a Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) | • Darparu data sydd eu hangen ar gyfer y gwerthusiad proses ac effaith ar, er enghraifft, nifer a/neu nodweddion sy'n ymwneud â phobl ifanc sydd mewn EET neu'n NEET, fel eu hoedran, rhyw, rhanbarth a ydynt yn anabl neu beidio[49] (gan gynnwys newid dros amser). | • Data meintiol, er nad yw data o wahanol ffynonellau (fel yr ABB, y Datganiad Ystadegol Cyntaf ac arolwg cyrchfannau Gyrfa Cymru) bob amser yn gyson, gan godi cwestiynau am ddehongli/dilysu.<br>• Dim ond ar gael ar lefel system ('meta') y Warant (er bod argaeledd data ar lefel system yn bwysig).<br>• Gellir eu defnyddio dim ond i nodi un agwedd ar ymddygiad (ymgysylltu ag EET) mewn nifer cyfyngedig o grwpiau o bobl ifanc (fel pobl ifanc anabl[50]; pobl ifanc o | • Mae'r data ystadegol hyn eisoes yn cael eu casglu.<br>• Argymhellir y dylid pennu mesurau ar sail cyfartaledd tair blynedd: 2019-2021, gyda chyfartaledd treigl tair blynedd yn cael ei gyfrifo o'r cyfnod hwnnw o dair blynedd (h.y. 2020-2022; 2021-2023 ac ati).<br>• Ni ddylai gynnwys data personol. |

[49] Mae'r cyfyngiadau yn y data sydd ar gael, a amlinellir yn y troednodyn canlynol, yn golygu bod hyn yn seiliedig ar y diffiniad meddygol o anabledd a ddefnyddir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 sy'n diffinio mai eu hamhariad sy'n anablu pobl. Nid yw'n gyson â'r model cymdeithasol o anabledd a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru, lle ystyrir mai rhwystrau mewn cymdeithas sy'n anablu pobl.

[50] Mae'r ABB, sef ffynhonnell y data ar gyfer hyn, yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd a ddefnyddir yn Neddf Cydraddoldeb 2010: 'nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol neu hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol bob dydd' (Llywodraeth Cymru, 2023c, t. 10). Fel y nodwyd uchod, nid yw hyn yn gyson â'r model cymdeithasol o anabledd a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | wahanol rywiau; pobl ifanc o wahanol ethnigrwydd, pobl ifanc 16 i 18 oed a'r rhai 19-24 oed). | |
| Data addysg ôl-16, er enghraifft Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, HESA | • Darparu data sydd eu hangen ar gyfer y gwerthusiad effaith ar, er enghraifft, nifer a/neu nodweddion y bobl ifanc mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16 (gan gynnwys newid dros amser). | • Data lled-lefel system (mae'n cwmpasu'r holl bobl ifanc mewn addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith, dysgu oedolion yn y gymuned neu addysg uwch), ond nid pob person ifanc mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16 (fel y byddai mesur system go iawn).<br>• Gellir eu defnyddio dim ond i nodi un agwedd ar ymddygiad (ymgysylltu â gwahanol fathau o addysg neu hyfforddiant ôl-16) mewn nifer cyfyngedig o grwpiau o bobl ifanc (fel pobl ifanc anabl[51]; pobl ifanc o wahanol rywiau; pobl ifanc o wahanol ethnigrwydd; pobl | |

[51] Fel y nodwyd uchod, mae'r ABB, sef ffynhonnell y data ar gyfer hyn, yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd a ddefnyddir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 nad yw'n cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ifanc 16 i 18 oed a'r rhai 19-24 oed). | |
| Ystadegau gwladol ar lesiant pobl yng Nghymru | • Darparu data sydd eu hangen ar gyfer y gwerthusiad effaith, fel newidiadau o ran llesiant, cymwysterau a sgiliau pobl ifanc dros amser. | • Data lefel system, sy'n cwmpasu amrywiaeth o wahanol ddimensiynau llesiant pobl ifanc fel gweithgarwch economaidd, tegwch gwaith a lefelau cymwysterau.[52] | • Argymhellir y dylid pennu mesurau ar sail cyfartaledd tair blynedd: 2019-2021, gyda chyfartaledd treigl tair blynedd yn cael ei gyfrifo o'r cyfnod hwnnw o dair blynedd (2020-2022; 2021-2023 ac ati).<br>• Ni ddylai gynnwys data personol. |
| Data economaidd (er enghraifft, nifer yr hysbysebion swyddi ar-lein, swyddi gwag) | • Darparu data sydd eu hangen ar gyfer y gwerthusiad effaith fel:<br>• Sut y mae'r cyd-destun economaidd yn newid (sy'n debygol o gyfrannu at ganlyniadau a welir). | • Mae'n bosibl y gellid archwilio data lefel system, y mae eu cyfraniad at ganlyniadau a welir, fel cyfran y bobl ifanc mewn EET, drwy ddefnyddio dadansoddiad atchweliad.<br>• Nid yw data economaidd cenedlaethol fel cyfanswm nifer y swyddi gwag yn yr economi yr un peth â chyfanswm nifer y swyddi gwag sy'n agored i bobl ifanc (er enghraifft, efallai y bydd rhai yn | |

[52] Gellid defnyddio cymwysterau hefyd fel mesur procsi ar gyfer sgiliau pobl ifanc.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gofyn am brofiad neu sgiliau nad yw pobl ifanc yn meddu arnynt). | |

## 9. Gwerthusadwyedd y Warant

9.1 Mae'n ymarferol nodi newidiadau mewn polisi ac ymarfer gan ddefnyddio'r data a amlinellir yn ffigur 9.1. er, fel yr amlinellir yn yr adran hon, mae cwmpas ac ansawdd data yn amrywio ar gyfer gwahanol gwestiynau gwerthuso.

**Polisi ac ymarfer: mesur yr hyn sydd wedi newid a pham**

9.2 Dylai fod yn ymarferol nodi newidiadau ffurfiol mewn polisi. Fel yr amlinellir yn ffigur 9.1., dylai fod yn bosibl triongli ymatebion o gyfweliadau â'r rhai sy'n gyfrifol am gyflwyno polisi â dogfennau polisi sy'n amlinellu bwriad polisi. Fodd bynnag, mae'n debygol o fod yn fwy heriol archwilio a yw'r polisi yn cael ei weithredu fel y bwriadwyd/fel y cynlluniwyd ac, felly, wedi newid yn ymarferol.

9.3 Dylai hefyd fod yn ymarferol nodi cyfraniad y Warant at newidiadau ffurfiol mewn polisi. Fel yr amlinellir yn ffigur 9.1., dylai fod yn bosibl triongli data o gyfweliadau â'r rhai sy'n ceisio dylanwadu ar bolisi (hynny yw, tîm polisi'r Warant) ag adolygiad o'r dulliau a ddefnyddir (er enghraifft, cyllid, arweiniad) ac â chyfweliadau â'r rhai sy'n gyfrifol am gyflawni polisi.

**Ymddygiad pobl ifanc: mesur yr hyn sydd wedi newid a pham**

9.4 Fel yr amlinellwyd yn y fframwaith perfformiad a nodwyd yn adran 7, os yw mesur newid yn canolbwyntio ar amrywiaeth cul o ymddygiad (hynny yw, ymgysylltu â'r cynnig cymorth ac ymgysylltu ag EET), mae'n ymarferol mesur sut y mae'r ymddygiad hwn yn newid dros amser ar lefel systemau a/neu raglen, gan ddefnyddio data eilaidd. Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd hefyd yn adran 7, hyd yn oed ar y ffurf symlach hon, mae'r data hyn yn debygol o fod yn amherffaith, oherwydd ffactorau sy'n debygol o gynnwys:

- gwendidau yn ansawdd/cadernid y data sy'n gysylltiedig, er enghraifft, ag ymateb sy'n gostwng ar gyfer yr Arolwg o'r Llafurlu [53] a'r cyfraddau

[53] Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (ABB) yn cyfuno samplau manylach o'r Arolwg o'r Llafurlu.

ymateb isel i arolwg cyrchfannau disgyblion Gyrfa Cymru mewn rhai ardaloedd;

- gwendid o ran cwmpas data; yn benodol, mae'r cyfle i fesur newid (a phennu DPA) ar gyfer grwpiau gwahanol o bobl ifanc yn gyfyngedig ac er bod mesurau ar draws y system yn ymarferol ar gyfer rhai achosion (nodweddion), ar gyfer eraill, dim ond ar rannau o'r rhaglen y mae data ar gael (gweler adran 7); a
- bylchau rhannol neu gyflawn yn y data ynghylch pobl ifanc sy'n dewis peidio ag ymgysylltu â'r Warant (am ba reswm bynnag) ac nad ydynt yn manteisio ar y cymorth a gynigir.

9.5 Mae nodi cyfraniad y Warant at newidiadau o ran ymddygiad pobl ifanc yn ei hanfod yn heriol. Mae'n debygol o fod yn ymarferol (hyd yn oed os yw'n heriol) gwerthuso effaith rhaglenni unigol (gweler, er enghraifft, Llywodraeth Cymru, 2024d). Fodd bynnag, efallai na fydd yn ymarferol mesur effaith yr holl raglenni. At hynny, nid yw'n ymarferol mesur cyfraniad ychwanegol (effaith) gwarant sy'n cynnwys llawer o wahanol elfennau cydgysylltiedig (hynny yw, effeithiau systemig).

9.6 Mae dichonoldeb gwerthuso'r Warant yn cael ei archwilio ymhellach yn Nhabl 9.1. sy'n amlinellu tri gwahanol fath o gwestiynau gwerthuso effaith posibl, pob un â gofynion gwahanol a chynlluniau gwerthuso gwahanol sy'n deillio o hynny.

**Tabl 9.1. Ymddygiad pobl ifanc: goblygiadau gwahanol fathau o gwestiynau effaith ar gyfer gwerthuso newidiadau**

| Prif gwestiynau | Cwestiynau cysylltiedig | A yw'r gofynion ar gyfer gwerthuso effaith wedi'u bodloni? Cyfyngiadau a rhagdybiaethau | Cynlluniau addas (ar gyfer y math hwn o gwestiwn) |
|---|---|---|---|
| I ba raddau y gellir priodoli effaith benodol (net) i'r Warant? | Beth yw effaith net y Warant?<br>Faint o'r effaith y gellir ei phriodoli i'r Warant<br><br>Beth yw'r sefyllfa wrthffeithiol (beth fyddai wedi digwydd heb y Warant)? | Ffactorau sy'n debygol o wneud gwerthusiad effaith empirig yn anodd:<br>• Nid yw'r ymyriad (yn yr achos hwn, y Warant) ar wahân (ac ni ellir ei wahanu oddi wrth ymyriadau eraill) ac nid yw'n sefydlog.<br>• Mae'r system/cyd-destun y mae'r Warant yn cael ei gweithredu ynddynt yn ansefydlog ac yn ddynamig.<br>• Nid oes lle i drin yr ymyriad (y Warant) drwy, er enghraifft, weithredu fesul cam neu ddyrannu cyfranogwyr er mwyn cynorthwyo gwerthuso effaith.<br><br>Ffactorau a allai helpu i alluogi gwerthusiad effaith empirig:<br>• Mae niferoedd digonol o gyfranogwyr ar gyfer dadansoddiad ystadegol (gweler adran 7); ac | Cynlluniau arbrofol neu led-arbrofol (fel Hapdreialon wedi'u Rheoli neu Baru Sgôr Tueddiad).<br>Astudiaethau ystadegol<br>Hybridiau gydag elfennau sy'n seiliedig ar achosion a chyfranogol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | • mae'r canlyniadau disgwyliedig yn hysbys ac yn fesuradwy (gweler adrannau 4 a 7).<br><br>Ffactorau y mae eu heffaith ar werthusiad effaith empirig naill ai'n ansicr neu'n gymysg:<br>• Mae'r berthynas rhwng y Warant a'r canlyniadau y mae'n ceisio eu creu yn weddol uniongyrchol, (o leiaf mewn perthynas ag ymgysylltu ag EET). Fodd bynnag, mae'r effaith yn debygol o fod yn fach o'i chymharu â ffactorau eraill (sy'n golygu y byddai'n anodd ei hynysu o ystyried y 'sŵn' cefndir) (gweler, er enghraifft, LIC, 2024d).<br>• Mae rhywfaint o ddata ar nodweddion a chanlyniadau cyfranogwyr ar gael, ond ceir bylchau a chyfyngiadau (gweler adran 7). | |
| A yw'r Warant wedi gwneud gwahaniaeth? | Pa achosion sy'n angenrheidiol neu'n ddigonol ar gyfer yr | • Fel y nodwyd uchod, a | Cynlluniau arbrofol neu led-arbrofol (fel Hapdreialon wedi'u Rheoli). |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | effaith? A oedd angen y Warant i greu'r effaith? A fyddai'r effeithiau hyn wedi digwydd yn absenoldeb y Warant? | Ffactorau y mae eu heffaith ar werthusiad effaith naill ai'n ansicr neu'n gymysg:<br>• Gellir cymharu tystiolaeth o nifer o achosion gwahanol.[54]<br>Ffactorau a allai helpu i alluogi gwerthusiad effaith:<br>• Mae'r ddamcaniaeth newid wedi'i deall yn weddol dda (gweler adrannau 3-5) a gellir defnyddio amrywiaeth eang o dystiolaeth i brofi a mireinio'r ddamcaniaeth (gweler adrannau 7 ac 8).<br>• Mae lle i archwilio'r cyfraniad a wnaeth y Warant at y canlyniadau a welwyd, ochr yn ochr â ffactorau eraill, fel cylchoedd economaidd (a allai fod wedi cynyddu neu leihau effaith y Warant) (er enghraifft, defnyddio dadansoddiad atchweliad). | Cynlluniau sy'n seiliedig ar achosion (fel Dadansoddiad Cymharol Ansoddol (QCA)).<br>Gwerthusiad sy'n seiliedig ar ddamcaniaeth (fel Dadansoddiad o Gyfraniad). |
| Sut mae'r Warant wedi gwneud gwahaniaeth? | Sut a pham mae'r effeithiau wedi digwydd? Pa ffactorau achosol wedi sydd wedi arwain at yr effeithiau a welwyd? A | Ffactorau a allai helpu i alluogi gwerthusiad effaith:<br>• Mae lle i archwilio sut y mae ffactorau cyd-destunol (fel cylchoedd economaidd a darpariaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau) yn llunio effeithiau'r Warant ac yn rhyngweithio â | Gwerthusiad seiliedig ar ddamcaniaeth<br>yn enwedig amrywiadau 'realydd' a<br>Dadansoddiad o Gyfraniad<br>Dulliau |

[54] Mae data o ymyriadau tebyg (fel gwarantau ieuenctid mewn gwledydd eraill) ar gael, ond dim ond un Warant sydd ar gael.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | yw'r Warant wedi arwain at unrhyw effeithiau anfwriadol? I bwy y mae'r Warant wedi gwneud gwahaniaeth? | nhw (er enghraifft, drwy ddefnyddio cyfweliadau â rhanddeiliaid ac adolygiad o werthusiadau rhaglen - gweler adran 6). | cyfranogol, lle mae'r ffocws ar brofiadau rhanddeiliaid a dyfarniadau ynghylch os a sut mae'r Warant wedi gwneud gwahaniaeth. |

Addaswyd o Bond (2015); Trysorlys EM (2020b).

9.7 O ystyried yr ystyriaethau a amlinellwyd yn y tabl uchod, a'r anhawster o ran nodi nodweddion cyfranogwyr y Warant o fewn setiau data presennol a nodi grŵp cymharu ‘heb ei drin’ (a drafodir ymhellach isod), ymddengys fod cynlluniau arbrofol ar lefel system yn cael eu diystyru. At hynny, nid oes set ddata ganolog lle mae data ar yr holl gyfranogwyr yn cael eu cofnodi, sy'n golygu y byddai data ar nodweddion cyfranogwyr y Warant yn gorfod cael eu casglu gan bob rhaglen unigol ac yna eu cyfuno. Mae anawsterau o ran diffinio ffiniau'r Warant (a drafodwyd yn adran 1) hefyd yn debygol o beri heriau sylweddol o ran gwahaniaethu rhwng pobl ifanc sy'n manteisio ar gynnig cymorth y Warant neu'n cael budd a'r rhai nad ydynt yn manteisio ar y cynnig cymorth nac yn cael budd.

9.8 Fel arall, fel cynnig cyffredinol o gymorth, gallai'r holl bobl ifanc 16 i 24 oed gael eu hystyried yn fuddiolwyr, gan osgoi problemau wrth nodi cyfranogwyr y Warant o fewn setiau data presennol. Fodd bynnag, gan fod y dystiolaeth yn awgrymu mai dim ond cyfran fach o'r bobl ifanc hynny sy'n gymwys i gael cymorth sy'n manteisio arno (gweler, er enghraifft, Llywodraeth Cymru, 2024b, 2024c), mae'r dull hwn (sy'n trin yr holl bobl ifanc fel buddiolwyr) yn debygol o wanhau effaith y Warant, a'i gwneud yn anoddach ynysu (a mesur) unrhyw effaith.[55]

9.9 At hynny, hyd yn oed os gellid nodi nodweddion cyfranogwyr y Warant, a'r canlyniadau a gyflawnwyd ganddynt yn gyntaf ac yna eu cyfuno, nid yw'n glir â phwy y gellid eu cymharu (a'u paru). Er enghraifft, er nad oes unrhyw beth sy'n cyfateb i'r Warant yn Lloegr, nid yw hyn yn golygu nad oes cynnig cymorth i bobl ifanc. Gellid dadlau mai effaith y Warant yw gwneud y cymorth hwnnw yn fwy cynhwysfawr a chydgysylltiedig yng Nghymru felly gallai un o effeithiau'r Warant fod yn fesuradwy - er ei bod yn amheus a

[55] Mae'n debygol y bydd maint unrhyw effaith y Warant yn lleihau, gan ei gwneud yn anoddach ynysu o'r sŵn cefndir yn y system ehangach (gweler, er enghraifft, Trysorlys EM, 2020b).

fyddai effaith debygol hyn yn ddigon mawr i'w gwahaniaethu oddi wrth y ‘sŵn’ disgwyliedig yn y data (gweler Trysorlys EM, 2020b).[56]

9.10 Mae dichonoldeb paru pobl ifanc hŷn sy'n gymwys ar gyfer y Warant (er enghraifft, y rhai 23-24 oed) â'r rhai nad ydynt bellach yn gymwys (er enghraifft, 25-26 oed) gan ddefnyddio Cynllun Atal Atchweliad hefyd yn bosibl mewn egwyddor (fel yr awgrymwyd ar gyfer Gwarant Ieuenctid Ewrop). Fodd bynnag, mae'n debygol y byddai hyn dim ond yn darparu data effaith ar y bobl ifanc hynny ger y ffin o ran cymhwystra (hynny yw, o dan/dros 25 oed). O ystyried yr anawsterau o ran nodi buddiolwyr y Warant (a amlinellwyd uchod) byddai'r cynllun hwn dim ond yn gallu cymharu canlyniadau ar gyfer pobl ifanc sy'n gymwys ar gyfer y Warant yn unig (yn hytrach na'r rhai sy'n manteisio ar y Warant) â'r rhai nad ydynt yn gymwys ar gyfer y Warant (gweler Trysorlys EM, 2020b i gael trafodaeth am y materion hyn).

9.11 Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, ar lefel un o raglenni unigol y Warant, mae cynlluniau lled-arbrofol, fel Asesiad o Effaith Wrthffeithiol gan ddefnyddio paru sgôr tueddiad yn bosibl ac maent wedi'u cynnal (er enghraifft, Llywodraeth Cymru, 2024d). Yn yr achosion hyn, efallai y bydd yn bosibl nodi nodweddion cyfranogwyr a'u paru â grŵp cymharu, er bod dod o hyd i grŵp gwirioneddol ‘heb ei drin’ yn heriol. Mae hefyd yn werth nodi pe bai gwerthusiad effaith ar draws systemau yn ymarferol, byddai, mewn gwirionedd, dim ond yn ystyried yr holl gyfranogwyr ar wahanol raglenni a chymharu eu canlyniadau â grŵp wedi'i baru sydd â nodweddion tebyg. Wrth wneud hynny, byddai dim ond yn mesur yr effaith ‘gyfartalog’ ac os oedd lefel uchel o amrywiad rhwng lefelau effaith gwahanol raglenni elfennau, byddai hyn yn cael ei guddio gan y gostyngiad mewn effaith i un ffigur.

[56] Yn y cyd-destun hwn, er nad yw'n cynorthwyo gwerthusiad effaith yn uniongyrchol, mae'n werth nodi y byddai'n ymarferol meincnodi perfformiad yng Nghymru yn erbyn gwledydd eraill y DU a gwledydd tebyg yr UE sydd â Gwarantau Ieuenctid.

**Canlyniadau cymdeithasol**: **Mesur yr hyn sydd wedi newid a pham**

9.12 Fel yr amlinellwyd yn adrannau 7 ac 8, mae mesur newid ar lefel gymdeithasol yn ymarferol, os yw'n seiliedig ar ddangosyddion a mesurau presennol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Cherrig Milltir Cenedlaethol. Fodd bynnag, byddai hefyd yn cael ei gyfyngu o leiaf yn rhannol gan argaeledd setiau data, neu fel arall, lle gellir nodi pobl ifanc (a'u gwahanu oddi wrth grwpiau oedran eraill). Fel yr amlinellir yn adran 12, mae newid hefyd dim ond yn debygol o ddigwydd ar y lefel hon dros y tymor canolig neu hirdymor (ar ôl tair blynedd a mwy neu'n ddiweddarach, yn dibynnu ar y mesur a ddewiswyd).

9.13 Mae'n debygol y bydd nodi cyfraniad y Warant at y newidiadau cymdeithasol lefel uchel hyn yn heriol iawn. Fel y dengys tabl 9.2., nid yw'n ymarferol nodi effaith benodol y Warant (ac ni fydd yn ymarferol nodi sut y mae wedi cael effaith). Fodd bynnag, bydd yn bosibl mewn egwyddor archwilio a yw'r Warant yn debygol o wneud gwahaniaeth, ac os felly, sut, drwy ddefnyddio dulliau sy'n seiliedig ar ddamcaniaeth, fel Dadansoddiad o Gyfraniad (Mayne, 2011).[57] Gellid defnyddio'r dulliau hyn i nodi ac yna profi llwybrau effaith posibl, hyd yn oed os, er enghraifft nad yw'n bosibl meintioli maint neu raddau'r effeithiau. Dylid nodi y byddai nifer ac amrywiaeth y ffactorau cyfrannol at unrhyw ganlyniadau cymdeithasol a welir yn gwneud hyn yn heriol iawn.

**Dadansoddiad o gyfraniad**

Defnyddir Dadansoddiad o Gyfraniad i brofi'r gwaith o ddiwygio damcaniaeth newid yn drylwyr, a'i gadarnhau neu ei lywio. Nid yw wedi'i fwriadu i ddarparu ‘prawf pendant’ o effaith, ond yn hytrach mae'n darparu tystiolaeth a llinell o resymu y gallwn ddod i gasgliad credadwy ohonynt bod, o fewn rhyw lefel o hyder, y rhaglen wedi gwneud cyfraniad pwysig at y canlyniadau a ddogfennwyd (Better Evaluation, 2023, dim tudalen). Mae'n cynnwys nifer o gamau gan gynnwys:

[57] Gellir nodi llwybrau achosol posibl (er enghraifft, mae cynyddu cyflogaeth yn debygol o gyfrannu at gynyddu llesiant) drwy ddefnyddio data ac ymchwil eilaidd presennol (er enghraifft, defnyddio tystiolaeth a luniwyd gan Ganolfan Llesiant What Works) ond ni fydd yn bosibl profi'n annibynnol nac archwilio a yw hyn yn wir ai peidio.

- datblygu damcaniaeth newid;
- casglu data sylfaenol ac eilaidd i brofi'r ddamcaniaeth newid ar bapur, fel data perfformiad rhaglen a thystiolaeth o werthusiadau o ymyriadau tebyg, ymchwil ar ganlyniadau, a chyfraniad at y canlyniadau hynny a wnaed gan yr ymyriad a ffactorau cyd-destunol eraill;
- dadansoddi'r data, i asesu hygrededd y 'stori gyfraniad' a awgrymir gan y ddamcaniaeth newid ynghylch sut a pham y digwyddodd newidiadau a welwyd, gwendidau yn yr adroddiad hwn a heriau posibl i hyn (hynny yw, adroddiadau gwahanol o sut a pham y digwyddodd newid);
- casglu data ychwanegol i archwilio gwendidau a phrofi hygrededd adroddiadau eraill o sut a pham y digwyddodd newid; a
- defnyddio'r data ychwanegol hyn i ddiwygio a, lle y mae'r dystiolaeth ychwanegol yn caniatáu, cryfhau'r adroddiad o sut a pham y digwyddodd newid (hynny yw, y 'stori gyfraniad').

Dylai adroddiad credadwy o sut a pham mae newid yn digwydd gynnwys:

- damcaniaeth newid, gyda chadwyn effaith glir a rhesymegol sy'n cysylltu, er enghraifft mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau â dulliau credadwy (sut mae newid yn cael ei greu) a rhagdybiaethau (gan gynnwys cyfraniad disgwyliedig ffactorau cyd-destunol), a ategir gan dystiolaeth bresennol;
- cysoni'r gwaith o weithredu'r ymyriad ac allbynnau a chanlyniadau a welwyd â'r ddamcaniaeth newid (er enghraifft, cafodd gweithgareddau eu cyflawni fel y cynlluniwyd), ac nid yw'r ddamcaniaeth newid wedi'i gwrthbrofi;
- datganiad sy'n dangos sut y mae esboniadau amgen o sut a pham y digwyddodd newid wedi cael eu diystyru neu yr ystyrir eu bod yn llai credadwy; a
- dangos bod cyfraniad ffactorau cyd-destunol eraill (er enghraifft, cylchoedd economaidd, polisi'r Adran Gwaith a Phensiynau) wedi'i ystyried, a naill ai wedi'i gydnabod (er enghraifft, lle mae twf economaidd yn cynorthwyo'r gwaith o gyflawni nodau'r Warant) neu yr aseswyd nad yw wedi gwneud cyfraniad sylweddol at y canlyniadau a welwyd.

Addaswyd o Better Evaluation, 2023; Bond, 2015; Mayne, 2011; Llywodraeth yr Alban, 2009.

**Tabl 9.2. Canlyniadau cymdeithasol**: **goblygiadau gwahanol fathau o gwestiynau effaith ar gyfer gwerthuso newidiadau**

| Prif gwestiynau | Cwestiynau cysylltiedig | A yw'r gofynion ar gyfer gwerthuso effaith wedi'u bodloni? Cyfyngiadau a rhagdybiaethau | Cynlluniau addas |
|---|---|---|---|
| I ba raddau y gellir priodoli effaith benodol (net) i'r Warant? | Beth yw effaith net y Warant?<br><br>Faint o'r effaith y gellir ei phriodoli i'r Warant<br><br>Beth yw'r sefyllfa wrthffeithiol (beth fyddai wedi digwydd heb y Warant)? | Ffactorau a allai helpu i alluogi gwerthusiad effaith empirig:<br>• Mae nifer digonol (er enghraifft o bobl sy'n profi canlyniadau) ar gyfer dadansoddi ystadegol.<br><br>Ffactorau sy'n debygol o wneud gwerthusiad effaith empirig yn anodd:<br>• Nid yw'r ymyriad ar wahân (ac ni ellir ei wahanu'n hawdd oddi wrth ymyriadau eraill) ac mae'n ddynamig.<br>• Mae'r system/cyd-destun y mae'r Warant yn cael ei gweithredu ynddynt yn ansefydlog ac yn ddynamig.<br>• Nid oes lle i drin y Warant (er enghraifft, drwy ddechrau fesul cam ar draws ardaloedd[58]). | Cynlluniau arbrofol neu led-arbrofol (e.e. Hapdreialon wedi'u Rheoli)<br>Astudiaethau ystadegol<br>Hybridiau'r ddau ddull hyn gan ddefnyddio cynlluniau sy'n seiliedig ar achosion a/neu gyfranogol. |

[58] Gall cyflwyno cam wrth gam, er enghraifft lle mae ymyriad yn dechrau mewn un neu ragor o ardaloedd, cyn cael ei gyflwyno i ardaloedd eraill, greu grwpiau cymharu posibl y gall gwerthusiad effaith fanteisio arnynt.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | • Mae'r berthynas rhwng y Warant a'r canlyniadau y mae'n ceisio eu creu yn bell, (mewn perthynas â chanlyniadau cymdeithasol ac mae'r effaith yn debygol o fod yn fach mewn perthynas â ffactorau eraill (sy'n golygu y byddai'n anodd ei hynysu o ystyried y 'sŵn' cefndir).<br><br>Ffactorau y mae eu heffaith ar werthusiad effaith empirig naill ai'n ansicr neu'n gymysg:<br>• Mae rhywfaint o ddata ar ganlyniadau cymdeithasol ar gael, ond ceir bylchau a chyfyngiadau (gweler adran 7).<br>• Mae'r canlyniadau cymdeithasol disgwyliedig yn hysbys, ond nid ydynt bob amser yn hawdd eu mesur (gweler adrannau 4, 8 a 9). | |
| A yw'r Warant wedi gwneud gwahaniaeth? | Pa achosion sy'n angenrheidiol neu'n ddigonol ar gyfer yr effaith? A oedd angen y Warant i greu'r effaith? A fyddai'r | Fel y nodwyd uchod; a<br>Ffactorau sy'n debygol o wneud gwerthusiad effaith yn anodd:<br>• Mae'n debygol y bydd y cyfle i ynysu'r cyfraniad a wnaeth y Warant at y canlyniadau a welir, ochr yn ochr â ffactorau eraill, fel cylchoedd economaidd | Cynlluniau arbrofol neu led-arbrofol (fel Hapdreialon wedi'u Rheoli).<br>Cynlluniau sy'n seiliedig ar achosion (fel QCA). |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | effeithiau hyn wedi digwydd yn absenoldeb y Warant? | a/neu newidiadau o ran darpariaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau (a allai fod wedi cynyddu neu leihau effaith y Warant) o fod yn heriol (gweler adrannau 8 a 9).<br><br>Ffactorau y mae eu heffaith ar werthusiad effaith naill ai'n ansicr neu'n gymysg:<br>• Gellir cymharu tystiolaeth o nifer o achosion gwahanol.[59] | |
| | | Ffactorau a allai helpu i alluogi gwerthusiad effaith:<br>Mae'r ddamcaniaeth newid wedi'i deall yn weddol dda, a gellir defnyddio amrywiaeth eang o dystiolaeth i brofi a mireinio'r ddamcaniaeth (gweler adrannau 3-5, 7 ac 8). | Gwerthusiad sy'n seiliedig ar ddamcaniaeth, (fel Dadansoddiad o Gyfraniad). |
| <u>Sut</u> mae'r Warant wedi gwneud gwahaniaeth? | Sut a pham mae'r effeithiau wedi digwydd? Pa ffactorau achosol wedi sydd wedi arwain at yr effeithiau a welwyd? A | Ffactorau a allai helpu i alluogi gwerthusiad effaith:<br>• Mae'r ddamcaniaeth newid wedi'i deall yn weddol dda, a gellir defnyddio amrywiaeth eang o dystiolaeth i brofi a mireinio'r ddamcaniaeth (gweler adrannau 3-5, 7 ac 8). | Gwerthusiad seiliedig ar ddamcaniaeth<br>yn enwedig amrywiadau ‘realydd’ a Dadansoddiad o Gyfraniad |

[59] Mae ymyriadau tebyg (fel gwarantau ieuenctid mewn gwledydd eraill) ar gael, ond dim ond un Warant sydd ar gael.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | yw'r Warant wedi arwain at unrhyw effeithiau anfwriadol? I bwy y mae'r Warant wedi gwneud gwahaniaeth? | • Mae lle i archwilio sut y mae ffactorau cyd-destunol (fel cylchoedd economaidd a/neu newidiadau yn narpariaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau) yn llunio ac yn rhyngweithio ag effeithiau'r Warant ar ganlyniadau cymdeithasol (gweler adrannau 8 a 9). | Dulliau cyfranogol<br>. |

Addaswyd o Trysorlys EM 2020b; Bond, 2015.

## 10. Gwerthusadwyedd y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid

10.1 Mae'r adran hon yn amlinellu i ba raddau mae'n ymarferol gwerthuso'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid ochr yn ochr â gwerthuso'r Warant, gan ddefnyddio'r dull a amlinellir yn ffigur 8.1.

**Mesur yr hyn sydd wedi newid a pham**

*Polisi ac ymarfer*

10.2 Gellir archwilio effaith ganfyddedig y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid ar bolisi ac ymarfer ar gyfer pobl ifanc 11 i 18 oed drwy gyfweliadau â rhanddeiliaid ac o bosibl hefyd drwy ddata rhaglenni (er enghraifft, data a ddarperir gan awdurdodau lleol ar y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid). Mewn perthynas â darpariaeth ar gyfer pobl ifanc 16 i 18 oed, byddai archwilio effaith y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid ar bolisi ac ymarfer (tuag at bobl ifanc 16 i 18 oed sydd mewn perygl o ymddieithrio o EET neu sydd wedi ymddieithrio o hynny) yn ategu ac yn cyfoethogi archwilio effaith y Warant ar y cynnig cymorth i bobl ifanc. Byddai archwiliad cymharol o effaith y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid a'r Warant ar bolisi tuag at bobl ifanc 16 i 18 oed hefyd yn darparu cyfleoedd i archwilio gwahaniaethau o ran effeithiolrwydd 'dulliau' gwahanol (fel cyllid yn achos y Warant, neu arweiniad yn achos y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid) a ddefnyddir i geisio llunio polisi ac ymarfer ehangach.

*Ymddygiad pobl ifanc*

10.3 Fel yr amlinellir yn nhabl 7.1., drwy archwilio data ar gyfer pobl ifanc 16 i 18 oed ac 19-24 oed ar wahân, gellid pennu DPA i fesur effaith gyfunol y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid a'r Warant ar gyfer pobl ifanc 16 i 18 oed a hefyd rhoi rhywfaint o fewnwelediad i waith ataliol ar gyfer pobl ifanc 11 i 16 oed (y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid yn unig). Fodd bynnag, o ystyried y materion a amlinellwyd uchod mewn perthynas â'r

Warant, byddai ynysu effaith y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid (ar wahân i'r Warant) yn heriol iawn.

*Chanlyniadau cymdeithasol*

10.4 Byddai cyfraniad y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid at ganlyniadau cymdeithasol yn cael ei ystyried. Fel y Warant, mae'n debygol y bydd nodi cyfraniad y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid at newidiadau cymdeithasol lefel uchel yn heriol iawn. Nid yw'n ymddangos yn ymarferol nodi effaith benodol y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid. Fodd bynnag, byddai'n bosibl archwilio a yw'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid wedi gwneud gwahaniaeth, a sut y mae wedi gwneud gwahaniaeth, neu'n debygol o wneud gwahaniaeth. Mewn egwyddor, gellid gwneud hyn drwy ddefnyddio dulliau sy'n seiliedig ar ddamcaniaeth, fel Dadansoddiad o Gyfraniad, i nodi ac yna profi llwybrau effaith posibl. Fodd bynnag, fel gyda'r Warant, byddai nifer ac amrywiaeth y ffactorau cyfrannol at unrhyw ganlyniadau cymdeithasol a welir yn gwneud gwerthuso ar y lefel hon yn heriol iawn.

## 11. Cryfderau a gwendidau'r dulliau arfaethedig

11.1 Fel y mae tabl 11.1. yn amlinellu, mae gwerthusadwyedd y tair lefel o newid yn wahanol.

**Tabl 11.1. Gwerthusadwyedd newid mewn polisi ac ymarfer: ymddygiad pobl ifanc a chymdeithas**

| Lefel y newid | Dulliau arfaethedig o fesur yr hyn a newidiodd | Dulliau arfaethedig o fesur sut a pham y digwyddodd newid | Cryfderau a chyfyngiadau |
|---|---|---|---|
| Polisi ac ymarfer | • Ansoddol: cyfweliadau â gwneuthurwyr polisi a'r rhai sy'n cyflawni polisïau ac adolygiad desg o ddogfennau polisi, fel yr Asesiad Effaith Integredig (LlC, 2023b). | • Ansoddol (cyfweliadau â gwneuthurwyr polisi a'r rhai sy'n cyflawni polisïau). | • Mae'n defnyddio adroddiadau uniongyrchol gan y rhai sy'n ceisio llunio a chyflawni polisi.<br>• Mae'n ddibynnol iawn ar gywirdeb adroddiadau rhanddeiliaid o'r hyn newidiodd, sut a pham. |
| Ymddygiad pobl ifanc | • Meintiol: mesurau lefel system a rhaglen ynghylch y bobl ifanc sy'n manteisio ar gymorth ac yn cyfranogi mewn EET. | • Ansoddol (cyfweliadau â'r rhai sy'n cyflawni polisïau a phobl ifanc sy'n profi cyflawni'r polisïau hyn).<br>• Ansoddol a meintiol: adolygiad desg o ddata eilaidd fel | • Mae'n dibynnu ar argaeledd data ar elfennau (er enghraifft, gwybodaeth reoli a gwerthusiadau ar lefel rhaglen).<br>• Bydd maint unrhyw effeithiau yn brif ffactor sy'n penderfynu mor fesuradwy ydynt (sy'n golygu bod |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gwerthusiadau o elfennau unigol a'r Sgwrs Genedlaethol.<br>• Defnyddio model o newid ymddygiadol newid (fel COM-B, Michie et al., 2011) i gynorthwyo a llywio'r gwaith o ddehongli sut a pham mae ymddygiad pobl ifanc yn newid. | effeithiau bach yn annhebygol o fod yn fesuradwy).*<br>• Gall canolbwyntio ar raglenni unigol golli rhyngweithiadau rhwng elfennau gwahanol (effeithiau system).<br>• Mae'n gyfyngedig i ddau ymddygiad (mesuradwy) yn benodol: manteisio ar y cynnig cymorth a chyfranogi mewn EET.<br>• Mae ansawdd a chwmpas data yn amrywiol (er enghraifft ar lefelau system a rhaglen).<br>• Mae'r sampl ymchwil sylfaenol (n=100 o bobl ifanc) yn fach iawn o gymharu â'r boblogaeth, a bydd angen i unrhyw gasgliadau am ymddygiad pobl ifanc gael eu triongli'n ofalus â ffynonellau eraill (fel gwerthusiadau eraill, ymchwil a'r sgwrs genedlaethol) i asesu, er |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | enghraifft, trosglwyddadwyedd y canfyddiadau. |
| Newidiadau cymdeithasol | • Meintiol: Mesurau lefel system o lesiant pobl ifanc a chymdeithasol.** | • Defnyddir dull sy'n seiliedig ar theori i nodi cyfraniad tebygol y Warant at newidiadau a welir a rhagweld newidiadau mewn llesiant pobl ifanc a chymdeithasol. | • Mae'n dibynnu ar ddata eilaidd i brofi llwybrau achosol tebygol.<br>• O ystyried yr amrywiaeth o ffactorau sy'n cyfrannu at ganlyniadau cymdeithasol, nid yw'n bosibl ynysu effaith y Warant, ac mae'n debygol y bydd nodi'r cyfraniad y mae'r Warant yn ei wneud, o'i gymharu â ffactorau eraill, yn heriol iawn (ac yn cynnwys llawer iawn o ansicrwydd). |

* Bydd hon yn broblem lle mae'r effeithiau unigol yn fach, ond mae effaith gyfunol llawer o wahanol effeithiau bach yn fawr.

** Gall newidiadau o ran llesiant pobl ifanc hefyd fod o fudd i grwpiau eraill mewn cymdeithas, neu gallent gael effaith andwyol arnynt. Er enghraifft, gall cynyddu cyfranogiad pobl ifanc mewn EET gyfrannu at Gymru sy'n fwy llewyrchus sydd o fudd i grwpiau oedran eraill.

## 12. Amserlenni amcangyfrifedig

12.1 Mae dwy brif ystyriaeth wrth nodi llinellau amser ar gyfer gwerthuso:

- y cyfnod amser disgwyliedig ar gyfer newid penodol; a
- yr adeg pan fydd data ar gael (o ystyried, er enghraifft, yr oedi rhwng casglu data a chyhoeddi data).

**Amserlenni ar gyfer newid**

12.2 Fel yr amlinellwyd yn adran dau, dilyniant newidiadau disgwyliedig yw bod polisi ac yna ymarfer yn newid gyntaf. Dilynir hyn gan newidiadau mewn ymddygiad pobl ifanc a dilynir hyn gan newidiadau ar lefel gymdeithasol.

12.3 Er y bydd angen i union amseriad newidiadau mewn polisi ac ymarfer gael ei nodi gan y gwerthusiad proses, o ystyried y cyfnod rhwng cyhoeddi newid polisi a chyflawni'r polisi hwnnw, rhagwelir y byddai'r newidiadau cyntaf mewn polisi ac ymarfer yn fesuradwy o fewn deunaw mis i'r lansiad (hynny yw, Tachwedd 2021-Ebrill 2023) ac y byddai'r newidiadau hyn yn cynyddu dros amser, wrth i bolisi ac ymarfer ddatblygu.[60] Fel y dengys ffigur 12.1 (isod), gall y gwerthusiad proses yn 2024-25 fesur y newidiadau cychwynnol hyn.

12.4 Disgwylir y bydd newidiadau mewn ymddygiad pobl ifanc, i'w mesur drwy ddefnyddio'r DPA a amlinellwyd yn adran 5, i'w gweld o 6 i 12 mis ar ôl newid mewn polisi ac ymarfer (hynny yw 24-36 mis ar ôl lansio'r Warant), o ystyried y cyfnod rhwng, er enghraifft, ehangu cynnig cymorth a phobl ifanc yn manteisio ar y cymorth hwnnw, ac yna'r cyfnod rhwng person ifanc yn manteisio ar gymorth a'r person ifanc hwnnw yn ailymgysylltu ag EET. Disgwylir hefyd y byddai'r newidiadau hyn yn cynyddu dros amser, wrth i bolisi ac ymarfer ddatblygu. Mewn egwyddor, dylai data lefel rhaglen ar nifer y bobl ifanc sy'n cael eu cynorthwyo a nifer y bobl ifanc sy'n cael eu

[60] Roedd Rhaglen Lywodraethu 2021 (a gyhoeddwyd ym mis Mai 2021) yn cynnwys ymrwymiad i gyflawni Gwarant i Bobl Ifanc. Cafodd manylion y Warant eu cyhoeddi ym mis Mehefin 2021 gan Weinidog yr Economi ar y pryd, Vaughan Gething, a lansiwyd yr ymrwymiad ym mis Tachwedd 2021. Lansiwyd cyfres o raglenni allweddol, fel TSC+ yn 2022 (Llywodraeth Cymru, 2022b).


cynorthwyo i fynd i EET, fod ar gael mewn amser real bron (er enghraifft, yn fisol). Fodd bynnag, bydd oedi hirach cyn bod data lefel system ar gael. Er enghraifft:

- Mae'r ystadegau mwy amserol, ond llai cadarn, Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant  (NEET) yn cael eu cyhoeddi'n chwarterol, fel arfer tri i bum mis ar ôl i'r cyfnod 12 mis y maent yn ei gwmpasu ddod i ben; a
- mae'r Datganiad Ystadegol Cyntaf, Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur, a ystyrir yn fesur diffiniol, yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol fel arfer saith i ddeg mis ar ôl i'r blynyddoedd a gwmpesir ganddo ddod i ben (Llywodraeth Cymru, 2020).[61]

12.5 Mae amseru unrhyw newidiadau mewn canlyniadau cymdeithasol, yn dilyn newidiadau mewn ymddygiad pobl ifanc, yn fwy anodd ei ragweld ac mae'n debygol o fod yn wahanol ar gyfer mesurau canlyniadau gwahanol. Serch hynny, os tybiwn y bydd (a) canlyniadau cymdeithasol dim ond dechrau newid pan fydd pobl ifanc sy'n cael cymorth yn ailymgysylltu ag EET, a (b) nifer y bobl ifanc sy'n cael eu cynorthwyo sy'n ailymgysylltu ag EET yn cynyddu dros amser, efallai y bydd y newidiadau cyntaf, mewn perthynas â dangosyddion arweiniol fel sgiliau a chymwysterau, i'w gweld o fewn 36 mis i newid mewn polisi ac ymarfer (hynny yw, deuddeg mis ar ôl yr adeg pan oedd y newidiadau cyntaf mewn polisi ac ymarfer i'w gweld). Fodd bynnag, byddai'r cyfle i fesur hyn yn dibynnu ar ba mor gyflym roedd nifer y bobl ifanc sy'n cael mynediad at gymorth (ac yna'n ennill sgiliau a chymwysterau) yn cynyddu yn dilyn newidiadau mewn polisi ac ymarfer, ac mae'r amcangyfrif hwn yn ddamcaniaethol iawn.

[61] Er enghraifft, mae'r Datganiad Ystadegol Cyntaf diweddaraf (ar adeg ysgrifennu), Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2023, yn cwmpasu 2021 a 2022, ac mae'r ystadegau mwy amserol Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET), a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2024, yn cwmpasu'r cyfnod mis Ebrill 2023 tan fis Mawrth 2024.

**Ffigur 12.1. Amserlen bosibl ar gyfer newid**




12.6 Mae hefyd yn werth nodi o ystyried yr heriau o werthuso effeithiau ar lefel gymdeithasol a amlinellwyd yn adran 11, efallai na fydd llawer o fantais aros hyd nes y byddai newidiadau ar y lefel hon yn fesuradwy. Yn wir, byddai hyn yn oedi'r gwerthusiad effaith (ac felly'n oedi pryd y gallai ei ganfyddiadau lunio a llywio'r Warant). Felly, awgrymir bod yr amseru ar gyfer unrhyw werthusiad effaith yn y dyfodol yn cael ei bennu yn hytrach gan yr amserlenni pan fyddai disgwyl i newidiadau mewn polisi ac ymarfer ac ymddygiad pobl ifanc fod yn fesuradwy.

## 13. Casgliadau ac argymhellion

13.1 Mae'r Warant yn bolisi eang a chymhleth a ddarperir gan nifer o weithredwyr gwahanol o fewn system ehangach gymhleth a dynamig. Mae'r adolygiad o fframweithiau gwerthuso ar gyfer Gwarantau Ieuenctid yn yr Alban a'r Undeb Ewropeaidd (a amlinellir yn Atodiad E) yn dangos yr heriau y mae hyn yn eu peri i werthuso, ond hefyd yr opsiynau a'r cyfleoedd. Mae'r Asesiad Gwerthusadwyedd hwn yn dod i'r casgliad bod y Warant yn werthusadwy os yw'r fframwaith gwerthuso yn:

- canolbwyntio ar newid ar dair lefel (polisi, ymddygiad pobl ifanc a chymdeithas); ac
- yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau a ffynonellau data sylfaenol ac eilaidd i archwilio newid ar lefel system a rhaglen.

13.2 Fodd bynnag, mae'r Asesiad Gwerthusadwyedd yn nodi bod mesur newid ar bob lefel yn debygol o fod yn llawer haws na nodi cyfraniad y Warant at y newidiadau a welir, yn enwedig mewn perthynas ag ymddygiad pobl ifanc a, hyd yn oed fwy felly, canlyniadau cymdeithasol.

**Gwerthuso'r gwaith o weithredu'r Warant**

13.3 Mae'r Warant yn bolisi dynamig (sy'n datblygu) ac nid oes dogfen bolisi gyffredinol sy'n amlinellu cynlluniau gweithredu sy'n ymwneud â'r Warant. At hynny, fel y nodwyd, mae gweithredu'n dibynnu at dîm polisi'r Warant yn dylanwadu ar randdeiliaid ar draws y system ehangach, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau fel cyllid, arweiniad a lledaenu tystiolaeth ymchwil. Felly, mae angen i'r gwerthusiad o weithredu ganolbwyntio ar y canlynol:

- mapio'r bwriad, nodau tîm polisi'r Warant;
- y dulliau (mewn geiriau eraill, y modd) a ddefnyddir gan dîm polisi'r Warant i ddylanwadu ar randdeiliaid yn y system ehangach; a
- yr effaith, mewn geiriau eraill, y gwahaniaeth a gafodd y dulliau hyn ar bolisi ac ymarfer ar draws y system ehangach (mewn perthynas â'r cynnig cymorth i bobl ifanc).

13.4 Bydd y gwerthusiad proses yn gwerthuso gweithrediad cychwynnol y Warant. O ystyried y ddamcaniaeth newid, sy'n rhagweld y bydd polisi ac ymarfer yn dylanwadu ar ymddygiad pobl ifanc, bydd angen i unrhyw werthusiad effaith yn y dyfodol ystyried unrhyw newidiadau pellach mewn polisi ac ymarfer (ar ôl i'r gwerthusiad proses ddod i ben ar ddechrau 2025).

**Gwerthuso effaith ac ychwanegedd y Warant**

13.5 Yn ogystal â'r canlyniadau sy'n ymwneud â newid polisi a drafodwyd uchod, mae prif ganlyniadau a fwriedir y Warant (cynyddu cyfran y bobl ifanc mewn EET yn y tymor canolig a chyfrannu at ganlyniadau cymdeithasol dros y tymor hwy) hefyd yn fesuradwy. Fel yr amlinellwyd yn adrannau 7 ac 8, mae'n ymarferol mesur newidiadau yn y meysydd canlynol:

- polisi ac ymarfer;
- nifer y bobl ifanc sy'n manteisio ar gymorth gan y prif raglenni sy'n rhan o'r Warant;
- nifer y bobl ifanc sy'n manteisio ar gymorth gan y prif raglenni (sy'n rhan o'r Warant) sy'n mynd i EET; a
- chanlyniadau cymdeithasol.

13.6 Yr her fydd nodi'r cyfraniad y mae'r Warant yn ei wneud i unrhyw newid a welir ar bob lefel a hefyd i'r cysylltiadau rhwng pob lefel (hynny yw, y berthynas, os o gwbl, rhwng newid ar un lefel a newid ar lefel uwch). Er enghraifft, nodi:

- sut mae polisi ac ymarfer mewn perthynas â chymorth EET i bobl ifanc yn newid (canlyniad polisi ac ymarfer);
- sut y mae ymddygiad pobl ifanc (fel ymgysylltu â chymorth EET) yn newid (canlyniad ymddygiadol); a
- y berthynas (os o gwbl) rhwng y newid mewn polisi ac ymarfer a'r newid mewn ymddygiad pobl ifanc.

**Model seicolegol-gymdeithasol o newid ymddygiadol**

Gan adeiladu ar yr Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth: Cynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant) (Llywodraeth Cymru 2024b, 2024c), mae'r ddamcaniaeth newid, yr Asesiad Gwerthusadwyedd a'r Fframwaith Gwerthuso yn defnyddio'r model COM-B o newid ymddygiadol fel fframwaith ar gyfer archwilio sut a pham y gellid disgwyl i newidiadau mewn polisi ac ymarfer newid ymddygiad pobl ifanc. Mae'r Fframwaith COM-B yn cael ei ddefnyddio'n eang ac mae wedi'i groesawu gan randdeiliaid yn ystod yr astudiaeth hon. Fodd bynnag, dim ond un o nifer o fframweithiau damcaniaethol y gellid ei ddefnyddio ydyw (gweler, er enghraifft, Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, 2008). Gallai dulliau amgen, fel Dull Galluoedd Amartya Sen (Sen, 1985) a drafodwyd yn fyr yn adran 3, gael eu hystyried hefyd ar gyfer unrhyw werthusiad effaith yn y dyfodol.

Wrth ystyried fframweithiau gwahanol, mae'n bwysig ystyried eu sylfeini damcaniaethol. Mae'r rhai sy'n cael eu llywio gan seicoleg (neu eu gwreiddio ynddi), fel COM-B, yn tueddu i ganolbwyntio mwy ar weithrediad unigol. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, mae fframweithiau sy'n cael eu llywio'n fwy gan gymdeithaseg, fel y model Anghenion, Cyfleoedd a Galluoedd, neu'r Dull Galluoedd, yn tueddu i ganolbwyntio mwy ar ffactorau cymdeithasol (neu strwythurol), fel normau a disgwyliadau cymdeithasol ac amodau economaidd a gwleidyddol (Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, 2008).

Mae ffactorau ar amrywiaeth o lefelau (gan gynnwys lefel unigol, grŵp (gan gynnwys teulu a grŵp cyfoedion), sefydliadol a chymdeithasol) yn bwysig, a gellir ystyried bod yr holl fodelau a drafodir yn fodelau ‘seicolegol-gymdeithasol’. At hynny, fel y mae adran 3 yn amlinellu, mae'n hanfodol bwysig bod galluoedd, cyfleoedd, cymhellion ac ymddygiad pobl ifanc yn cael eu deall mewn cyd-destun. Mae hyn yn galluogi ystyried y ffyrdd y mae galluoedd, cyfleoedd a chymhelliant pobl ifanc yn cael eu llunio gan ffactorau eithaf, fel disgwyliadau cymdeithasol a chyfleoedd economaidd. Heb y cyd-destun hwn, mae perygl gwirioneddol y gellid ‘beio’ pobl ifanc yn amrwd neu eu patholegu'n gymdeithasol am, er enghraifft, ddangos ymddygiad ‘anghywir’, lle nad ydynt yn ymgysylltu â gwasanaethau

cymorth EET, neu am ddiffyg cymhelliant neu'r etheg waith sy'n ofynnol, gan awgrymu y gallent (ac y dylent) 'ddewis' ymddwyn a meddwl yn wahanol. Mae'r materion hyn yn cael eu harchwilio ymhellach yn yr Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth: Cynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant) (Llywodraeth Cymru 2024b, 2024c) ac yn dangos pam mae model o newid ymddygiadol fel COM-B yn cynnig adroddiad llawer cyfoethocach o sut y gellir newid ymddygiad pobl ifanc na'r hyn a gynigir gan yr offer traddodiadol o gynnig 'abwyd' (cymhellion fel lwfansau hyfforddi), a 'ffyn' (fel amodoldeb lles) a 'phregethau' (fel ymgyrchoedd hysbysebu).

13.7 Yn gyffredinol, bydd y gwerthusiad effaith yn canolbwyntio ar nodi'r canlynol:

- Sut a pham mae polisi ac ymarfer ac, yn benodol, y cynnig o gymorth EET i bobl fanc, wedi newid o ganlyniad i'r Warant?
- Faint o bobl ifanc ychwanegol sydd wedi manteisio ar y cynnig cymorth o ganlyniad i'r Warant?
- Faint o bobl ifanc ychwanegol sy'n manteisio ar gymorth ac yna'n symud i EET o ganlyniad i'r Warant? a
- Pha wahaniaeth y mae pobl ifanc 'ychwanegol' yn symud i EET yn ei wneud i gymdeithas?

13.8 Fel y mae adran 11 yn amlinellu, mae gwerthuso effaith y Warant ar ymddygiad pobl ifanc (hynny yw, ymgysylltu â rhaglenni neu gymorth a symud i mewn i EET) yn fwy gwerthusadwy na gwerthuso effaith y Warant ar ganlyniadau cymdeithasol, ac felly efallai y bydd yn briodol canolbwyntio'r gwerthusiad effaith ar hyn. Gall hefyd fod yn briodol casglu effaith debygol unrhyw newidiadau mewn ymddygiad pobl ifanc, gyda'r casgliad hwn yn seiliedig ar dystiolaeth eilaidd bresennol o'r effeithiau tebygol, er enghraifft, ar lesiant pobl ifanc, yn hytrach na cheisio mesur neu nodi'r effeithiau gwirioneddol yn gymdeithasol.

13.9 Serch hynny, hyd yn oed os yw'r ffocws ar yr effaith ar ymddygiad pobl ifanc, ceir nifer o heriau y mae angen eu hystyried o hyd. Er enghraifft, oherwydd

bod rhai newidiadau (yn fwyaf nodedig nifer y bobl ifanc sy'n ymgysylltu â rhaglenni cymorth a nifer y rhai sy'n manteisio ar gymorth sy'n mynd i mewn i EET) dim ond fesuradwy ar lefel rhaglen yn hytrach na lefel system, gall y mesuriad mewn perthynas â'r canlyniadau hyn fod yn rhannol yn unig. Mewn gwirionedd, dylai'r gwerthusiad ganolbwyntio ar elfennau mwyaf gwerthusadwy'r Warant, megis rhaglenni fel Cymru'n Gweithio, TSC+, Cymunedau am Waith a Busnes Cymru.[62] Oherwydd y disgwylir hefyd mai'r rhain fydd elfennau pwysicaf y Warant, er nad yw'n ddelfrydol, nid yw hyn yn tanseilio gwerthusadwyedd y Warant yn ei chyfanrwydd yn sylfaenol.

13.10 At hynny, oherwydd nad yw, er enghraifft, cynlluniau lled-arbrofol yn ymarferol ar lefel system, ni fydd yn bosibl ynysu effaith benodol y Warant ar y canlyniadau hyn ar lefel system. Yn hytrach, bydd angen canolbwyntio ar nodi a yw'r Warant wedi gwneud gwahaniaeth (a allai gynnwys gwerthusiadau effaith empirig o raglenni unigol) a sut y mae wedi gwneud gwahaniaeth, gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar ddamcaniaeth ar gyfer gwerthuso effaith fel Dadansoddiad o Gyfraniad

13.11 Gall y cysylltiadau rhwng newid ar bob lefel, fel sut y mae newid mewn polisi yn cyfrannu at newid mewn ymddygiad pobl ifanc, hefyd fod yn heriol i'w nodi. Efallai y bydd yn weddol casglu cyswllt achosol mewn rhai achosion, er enghraifft rhwng ehangu rhaglen fel Cymunedau am Waith a Mwy o ganlyniad i gyllid ychwanegol y Warant a'r rhaglen wedyn yn cynorthwyo mwy o bobl ifanc. Fodd bynnag, mewn achosion eraill, gall y cysylltiad rhwng newid mewn polisi/ymarfer a newid mewn ymddygiad pobl ifanc, o ganlyniad i newidiadau yn eu galluoedd, mynediad at gyfleoedd a/neu gymhellion, fod yn llawer llai uniongyrchol. Felly, un o nodau'r gwerthusiad o effaith ddylai fod i gasglu, triongli a dadansoddi'r dystiolaeth sydd ar gael cyn belled ag y bo modd, er mwyn sicrhau'r ddealltwriaeth fwyaf posibl am effaith y Warant, hyd yn oed os na ellir ‘profi’ neu feintioli'r effaith (Mayne, 2011).

[62] Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, ni fyddai elfennau ysgol sy'n canolbwyntio ar y rhai 11 i 16 oed, fel Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy’n Gysylltiedig â Byd Gwaith yn cael eu cynnwys.

13.12 Her bwysig arall yw y bydd angen i'r sylfaen dystiolaeth ar effaith, o reidrwydd, fod yn seiliedig yn bennaf ar y bobl ifanc hynny sy'n dewis ymgysylltu â'r Warant a manteisio ar ei chymorth (ac sydd felly wedi'u cynnwys mewn gwerthusiadau rhaglen), yn hytrach na'r rhai sy'n dewis peidio â gwneud hynny. Felly, bydd tystiolaeth am sut a pham y gwnaeth rhai grwpiau o bobl ifanc ymgysylltu â'r Warant ond llawer llai am y rhai nad oeddent wedi gwneud hynny.

**Gwerthuso'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid fel rhan o'r gwerthusiad o'r Warant**

13.13 Mae'r Asesiad Gwerthusadwyedd hwn a'r fframwaith gwerthuso yn nodi y gallai'r dull a ddefnyddir i werthuso'r Warant gynnwys DPA penodol ar gyfer y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid, yn ogystal â DPA ar gyfer y cyd ar gyfer y Warant a'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid gyda'i gilydd. Byddai hyn yn galluogi gwerthusiad ar y cyd o gyfraniad y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid a'r Warant at newidiadau mewn polisi ac ymarfer, ymddygiad pobl ifanc a chanlyniadau cymdeithasol.

**Nodi canlyniadau anfwriadol**

13.14 Mae'r damcaniaethau newid cydgysylltiedig ar gyfer y Warant yn amlinellu'r hyn a ddisgwylir (ac a fwriedir) ac mae'r gwerthusiad wedi'i gynllunio i fesur ac asesu a yw hyn yn digwydd ai peidio. Bydd mesurau newid, gan ddefnyddio, er enghraifft, y DPA, ac ymchwil ansoddol gyda rhanddeiliaid (fel y rhai sy'n cyflawni polisi a phobl ifanc) ac adolygu gwerthusiadau o raglenni unigol (lle y maent ar gael), yn rhoi lle i archwilio unrhyw ganlyniadau anfwriadol ac a allai fod yn annisgwyl mewn perthynas â pholisi, ymddygiad pobl ifanc a chymdeithas a allai ddod i'r amlwg o fenter mor gymhleth ac eang â'r Warant. Bydd y posibilrwydd nad yw'r Warant yn cyflawni ei chanlyniadau a fwriedir mewn perthynas â pholisi, ymddygiad pobl ifanc a chanlyniadau cymdeithasol (a fyddai'n ganlyniad anfwriadol) hefyd yn cael ei archwilio (ac efallai mai dyna fydd y prif ganlyniad anfwriadol posibl). Mae hefyd yn bosibl y gallai'r Warant gael effeithiau negyddol. Er enghraifft, os yw’r cynnig cymorth yn cynyddu teimlad pobl ifanc o fethiant personol pan nad oeddent yn gallu dod o hyd i EET.

13.15 Bydd deall os, sut a phryd mae ymddygiad yn newid, ac ymddygiad pwy sy'n newid, yn ganolog i werthuso'r ddamcaniaeth newid ac effaith y Warant. Er enghraifft, disgwylir mai manteisio ar gymorth fydd y prif ddull sy'n ysgogi newidiadau mewn ymddygiad pobl ifanc. Fodd bynnag, mae'n bosibl, er enghraifft, y gallai marchnata (fel ymgyrch Bydd Bositif) a chryfhau llwybrau ôl-16 fod yn ddigon i newid ymddygiad pobl ifanc (heb i bobl ifanc hefyd fanteisio ar y cynnig cymorth), neu fod pobl ifanc wedi manteisio ar gymorth nad oedd yn rhan o'r Warant o ganlyniad i'r pethau hyn. Yn anad dim, mae’n ymddangos yn debygol y bydd unrhyw werthusiad o'r Warant yn debygol o greu llawer mwy o gwestiynau ynghyd â'r holl atebion y byddai gwerthusiad o'r fath o bosibl yn eu darparu hefyd.

## 14. Cyfeiriadau


Arulampalam, W., Gregg, P., a Gregory, M. (2001), Unemployment Scarring, The Economic Journal, 111 (475): 577-84.

Better Evaluation (2023), Contribution Analysis. Gwefan Better Evaluation.

Bond (2015), Impact Evaluation A Guide for Commissioners and Managers. Gwefan Bond.

Bryman, A. (2012), Social Research Methods. Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen.

Cyngor Ewrop (2018), Inspiration: evaluation methods. Vocational training and labour market outcomes: Evidence from Youth Guarantee in Latvia. Gwefan Cyngor Ewrop.

Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (2015) Youth transitions to and within the labour market: A literature review. Gwefan Llywodraeth y DU.

Y Comisiwn Ewropeaidd (2017), Indicator Framework for Monitoring the Youth Guarantee. Gwefan y Comisiwn Ewropeaidd

Golley Slater (2023) 'The Principles, Passions and Pressures of Generation Z', Adroddiad heb ei gyhoeddi.

Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth (2008), Government Social Research Behaviour Change Knowledge Review. Gwefan Llywodraeth y DU.

Trysorlys EM (2020a), Magenta Book 2020: Supplementary Guide: Handling Complexity in Policy Evaluation. Gwefan Trysorlys EF.

Trysorlys EM (2020b), Magenta Book: Central Government guidance on evaluation. Gwefan Trysorlys EF.

Y Sefydliad Tegwch Iechyd (2020), Health Equity in England: The Marmot Review 10 Years On. Gwefan y Sefydliad Iechyd.

Y Sefydliad Llafur Rhyngwladol (2017), The European Youth Guarantee: A systematic review of its implementation across countries. Gwefan y Sefydliad Llafur Rhyngwladol.

Jones, G. (2005), The thinking and behaviour of young adults (aged 16-25). Gwefan yr Uned Allgáu Cymdeithasol.

Krekó, J.,Scharle, Á.,Csillag, M. (2021). Counterfactual evaluation of youth employment policies. Methodological guide. Instytut Badań Strukturalnych

Lewis, L. (2012), The capabilities approach, adult community learning and mental health, Community Development Journal, 47 (4): 522-37.

Mayne, J. (2011), Contribution Analysis: Addressing Cause and Effect. In Evaluating the Complex, K. Forss, M. Marra ac R. Schwartz (Golygyddion), Efrog Newydd: Routledge.

McGuire, S. (2022), A difficult nut to crack? How the UK has tackled the youth employment challenge. The Edge Foundation.

Michie, S., van Stralen, M.M., a West, R. (2011) A behaviour change wheel: a new method for characterising and designing behaviour change methods, Implementation Science, 6: 42.

Gwasanaeth Iechyd Gwladol Digidol (2023), Mental Health of Children and Young People in England, 2023 - wave 4 follow up to the 2017 survey. Gwefan Ddigidol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Canolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol. (2022), British Social Attitudes 39 | Broken Britain? Public attitudes in an era of crisis. Gwefan Canolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol.

Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog. (2005), Transitions Young Adults with Complex Needs A Social Exclusion Unit Final Report. Archif Adnoddau Addysg Digidol.

Pawson, R., a Tilley, N. (1997), Realist Evaluation. Llundain: Sage.

Pickett, K., a Wilkinson, R. (2010), The Spirit Level. Llundain: Penguin Books.

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2021), Llesiant meddyliol plant a phobl ifanc yn ystod pandemig COVID-19. Gwefan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Resolution Foundation (2023), Hoping and coping: How families were faring in March 2023. Gwefan Resolution Foundation.

Roberts, K. (1995), Youth & Employment in Modern Britain. Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen.

Llywodraeth yr Alban (2009), Social Science Methods Series Guide 6: Contribution Analysis. Gwefan Llywodraeth yr Alban.

Llywodraeth yr Alban (2023), Young Person's Guarantee: measurement and evaluation framework. Gwefan Llywodraeth yr Alban.

Sen, A. (1985), Commodities and Capabilities, Efrog Newydd: North-Holland.

Ymchwil y Senedd (2022), Coronafeirws: diweithdra ymysg pobl ifanc. Gwefan y Senedd.

Ymchwil y Senedd (2023), Sut y mae cronfeydd ffyniant bro yn gweithio yng Nghymru?  Gwefan y Senedd.

Schuller, T. (2017), What are the wider benefits of learning across the life course?Foresight, Swyddfa Wyddoniaeth y Llywodraeth.

Skivington, K., Matthews, L., Simpson, S.A., Craig, P., Baird, J., Blazeby, J.M., et al. (2021), A new framework for developing and evaluating complex interventions: update of Medical Research Council guidance, British Medical Journal, 374: 2061.

Llywodraeth Cymru (2020), Deall y gwahanol ffynonellau ystadegau ar bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yng Nghymru. Gwefan Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2021a), Dangosyddion cenedlaethol a cherrig milltir cenedlaethol i Gymru. Gwefan Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2021b), Llywodraeth Cymru'n lansio ymgyrch 'Bydd bositif' i godi ymwybyddiaeth o'r warant i bobl ifanc Gwefan Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2022a), Y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid:Trosolwg Gwefan Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2022b), Cymru gryfach, decach a gwyrddach: cynllun cyflogadwyedd a sgiliau. Gwefan Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2022c), MANYLEB AR GYFER: Asesiad Gwerthusadwyedd Ffurfiannol a Gwerthusiad Proses o'r Warant i Bobl Ifanc, Tachwedd.

Llywodraeth Cymru (2022d), Y Warant i Bobl Ifanc: asesiad o effaith. Gwefan Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2023a), Y Warant i Bobl Ifanc: adroddiad sgwrs genedlaethol: Cam 1. Gwefan Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2023b), Cyfres Z cenhedlaeth Gwarant Person Ifanc: adroddiad blynyddol 2023.  Gwefan Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2023c), Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET): Gorffennaf 2022 i fis Mehefin 2023. Gwefan Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2023d), Diweddariad y Prif Ystadegydd: deall y farchnad lafur yng Nghymru. Gwefan Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2023e), Cyfrifon cyfunol blynyddol Llywodraeth Cymru 2022-2023. Gwefan Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2024a), Cyfres Z cenhedlaeth Gwarant Person Ifanc: adroddiad blynyddol 2023Gwefan Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2024b), Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth: Cynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant i gyflawni eu nodau: syniadau ac ymddygiad pobl ifanc. Gwefan Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2024c), Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth: cynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant i gyflawni eu nodau: beth sy'n gweithio. Gwefan Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2024d), Gwerthusiad proses, effaith ac economaidd Cymunedau am Waith a Cymunedau am Waith a Mwy. Gwefan Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2024e), Y Warant i Bobl Ifanc: Adroddiad Sgwrs Genedlaethol: Cam 2 a 3. Gwefan Llywodraeth Cymru.

Westhorp, G. (2014), A brief introduction to realist evaluation. Gwefan y Sefydliad Datblygu Tramor.

What Works Wellbeing (2017a), Briefing: unemployment-reemployment-wellbeing. Gwefan What Works Wellbeing.

What Works Wellbeing (2017b), Briefing: Job quality and wellbeing. Gwefan What Works Wellbeing.

## 15. Atodiad A. Trafodaeth o DPA sy'n seiliedig ar gydraddoldeb

15.1 Fel y dengys ffigur 15.1., gallwn wahaniaethu rhwng y gwahanol grwpiau canlynol o bobl ifanc yn y fframwaith gwerthuso hwn:

- A) Pobl ifanc mewn EET, sy'n cynnwys y rhai mewn cyflogaeth (Ai); y rhai mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 nad yw'n addysg uwch (Aii); a'r rhai mewn addysg uwch (Aiii); a
- B) Pobl ifanc nad ydynt mewn EET (mewn geiriau eraill, y rhai sy'n NEET), sy'n cynnwys y rhai sy'n ymgysylltu â rhaglenni cymorth sydd â'r nod o helpu pobl ifanc i mewn i EET (Bi); a'r rhai nad ydynt yn ymgysylltu â rhaglenni cymorth o'r fath (Bii).

15.2 Mae data, er bod ganddynt wahanol raddau o ansawdd a chwmpas, ar gael ar bob grŵp, ac eithrio Bii (hynny yw, nid oes data ar gael ar gyfer pobl ifanc sy'n NEET ac nad ydynt yn ymgysylltu â rhaglenni cymorth EET).

15.3 Yn y ffigur hwn, A = Ai + Aii + Aiii a B = Bi + Bii, ac A + B = yr holl bobl ifanc 16 i 24 oed. Yn anffodus, nid yw’n bosibl cyfuno data ar nodweddion pobl ifanc yng ngrwpiau Ai, Aii a Bi ac yna didynnu'r canlyniad o nodweddion yr holl bobl ifanc, er mwyn cyfrifo Bii (sef y gweddill). Nid yw'n ymarferol gwneud hyn yn bennaf oherwydd y gwahaniaethau o ran pryd y cesglir data a pha ddata a gesglir ar weithgarwch economaidd (er enghraifft, ABB, Arolwg o'r Llafurlu), ar gymryd rhan mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 (Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru yn bennaf, ond HESA hefyd) ac ar ymgysylltu â chymorth EET (drwy raglenni unigol). Mae problemau posibl hefyd gyda chyfrif ddwywaith (er enghraifft, os bydd person ifanc yn cael ei gynorthwyo gan raglen cymorth EET ar ddechrau'r flwyddyn, ac mae'n symud i mewn i EET yn ddiweddarach yn y flwyddyn).[63]

[63]Er bod data ABB a data Arolwg o'r Llafurlu yn cynrychioli'r holl bobl ifanc 16 i 24 oed a gellir eu rhannu yn: (i) pobl ifanc mewn cyflogaeth; (ii) pobl ifanc mewn addysg ôl-16 a (iii) pobl ifanc a oedd yn NEET, nid yw'r data'n nodi pobl ifanc sy'n ymwneud â rhaglen gymorth EET. Y mesur procsi gorau (ond ymhell o fod yn berffaith) fyddai canran y bobl ifanc a oedd yn ddi-waith (hynny yw, wrthi'n chwilio am waith - fel mesur dirprwyo ar gyfer ymgysylltu â rhaglen gymorth EET) ac economaidd anweithgar (hynny yw, nad ydynt wrthi'n chwilio am waith), fel mesur dirprwyol ar gyfer peidio ag

**Ffigur 15.1. Data ar bobl ifanc**

<table>
<tr><th colspan="2">Pobl ifanc mewn EET</th><th colspan="2">Pobl ifanc NEET</th></tr>
<tr><td colspan="2">A. Nodweddion EET pobl ifanc (e.e. drwy ABB a'r Arolwg o'r Llafurlu).</td><td colspan="2">B. Mae nodweddion pobl ifanc NEET yn hysbys (e.e. drwy ABB a'r Arolwg o'r Llafurlu).</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ai Mae nodweddion pobl ifanc mewn cyflogaeth yn hysbys (e.e. drwy ABB a'r Arolwg o'r Llafurlu)</td><td rowspan="2">Bi. Mae nodweddion pobl ifanc sy'n ymgysylltu â rhaglenni cymorth EET unigol (e.e. Cymru'n Gweithio, Cymunedau am Waith a Mwy ac ati) yn hysbys (e.e. drwy ddata gwybodaeth reoli rhaglenni).**</td><td rowspan="2">Bii. Nid yw nodweddion pobl ifanc nad ydynt yn ymgysylltu â rhaglenni cymorth EET yn hysbys.</td></tr>
<tr><td>Aii Mae nodweddion pobl ifanc mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 yn hysbys (e.e. drwy CYBLD a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru).*</td><td>Aii. Mae nodweddion pobl ifanc mewn addysg uwch yn hysbys (e.e. drwy HESA).*</td></tr>
</table>

* Mae data ar fyfyrwyr (y rhai mewn addysg a hyfforddiant ôl-16) hefyd ar gael drwy'r ABB.

**Noder mai is-set o bobl sy'n NEET yw'r cwadrant hwn yn bennaf, er y gall nifer fach fod mewn EET ac yn cael mynediad at raglenni fel Cymunedau am Waith a Mwy.

### Defnyddio data hysbys

15.4 Er na allwn gyfrifo union faint neu nodweddion Bii, gallwn barhau i ddod i rai casgliadau rhesymegol am y grŵp hwn (hynny yw, y bobl ifanc hynny sy'n NEET nad ydynt yn ymgysylltu mewn rhaglenni cymorth EET) yn seiliedig ar

ymgysylltu â rhaglen gymorth EET. Fodd bynnag, mae rhai pobl ifanc sydd wedi'u dosbarthu fel rhai sy'n economaidd anweithgar yn ymgysylltu â rhaglenni cymorth EET, felly gellir cwestiynu ei ddefnydd fel mesur.

yr hyn a wyddom am nodweddion yr holl bobl ifanc (A+B) ac am bobl ifanc sy'n NEET (B).

15.5 Er enghraifft, os oes gan 20% o'r holl bobl ifanc sy'n NEET amhariadau, ac rydym yn tybio y dylem fyw mewn cymdeithas gyfartal, gyda chyfle cyfartal mewn addysg, hyfforddiant a gwaith i bobl ifanc ag amhariadau a'r rhai heb amhariadau (fel nad yw pobl ifanc yn cael eu hanablu gan rwystrau cymdeithasol), dylem ddisgwyl y bydd gan tua 20% o'r bobl ifanc ym mhob un o'r saith cell (A, Aii, Aii, B, Bi and Bii) namau.

15.6 Fodd bynnag, os yw canran y bobl ifanc ag amhariadau mewn unrhyw un o'r pedair cell ar y chwith (hynny yw, mewn EET) yn uwch neu'n is na 20%, gallwn gasglu bod cymdeithas mewn rhyw ffordd yn dal i fod yn anghyfartal. Mae hyn yn nodi bod cyfleoedd anghyfartal mewn addysg, hyfforddiant ac ar gyfer gwaith i bobl ifanc ag amhariadau neu heb amhariadau a bod pobl ifanc ag amhariadau naill ai â mantais (os yw'r cyfraddau'n fwy na 20%) neu o dan anfantais (os yw'r cyfraddau'n llai nag 20%).

15.7 Os yw canran y bobl ifanc sydd ag amhariadau yn y pedair cell ar y chwith (hynn yw, mewn EET) yn is nag 20%, yna os yw'r Warant yn llwyddiannus, neu y bu'n llwyddiannus, byddem:

- yn gyntaf, yn disgwyl i ganran y bobl ifanc sydd ag amhariadau sy'n ymgysylltu â rhaglenni cymorth EET (hynny yw, Bi) i godi (a chodi dros 20%, wrth i bobl ifanc sydd ag amhariadau a oedd yn NEET, ond nad oeddent yn ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET, ymateb i gynnig y Warant, ac ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET); ac
- yn ail, dros amser, byddem yn disgwyl i ganran y bobl ifanc sydd ag amhariadau yn pedair cell ar y chwith (hynny yw, mewn EET) gynyddu hefyd a chydgyfeirio tuag at 20%, wrth i bobl ifanc sydd ag amhariadau a oedd yn ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET symud ymlaen i EET yn unol â'u cyfran ‘naturiol’ mewn cymdeithas gyfartal.

**Pennu DPA**

15.8 Os gwelir anghydraddoldebau (er enghraifft, os yw canran y bobl ifanc sydd â nodwedd benodol mewn EET yn is na chanran yr holl bobl ifanc sydd â'r nodwedd honno), yna gellid pennu DPA ar gyfer rhaglenni cymorth EET unigol, gyda'r nod o gynyddu canran y bobl ifanc sydd â'r nodwedd honno y mae'r rhaglen dan sylw yn ei chynorthwyo (ymgysylltu).[64] Gallai DPA tymor hwy fod yn un sy'n annog cydgyfeirio canran y bobl ifanc sydd â'r nodwedd benodol honno mewn EET fel ei bod yn cyfateb i ganran yr holl bobl ifanc mewn cymdeithas sydd â'r nodwedd honno.

[64] Roedd gan Cymunedau am Waith a Mwy darged tebyg, ond rhoddwyd y gorau i hyn yn 2020.

## 16. Atodiad B. Trafod DPA perfformiad

16.1 Gellir nodi gwahaniaeth pwysig (a defnyddiol) rhwng mesur cynnydd tuag at nodau, yr ydym yn ei ddisgrifio fel perfformiad, a nodi pam mae cynnydd yn cael ei wneud, neu pam nad yw'n cael ei wneud, gan gynnwys, yn benodol, y cyfraniad y mae'r Warant yn ei wneud at gynnydd a welir, yr ydym yn ei ddisgrifio fel effaith. Mae'r ddau yn gwestiynau pwysig, ond mae'r gwahaniaeth yn bwysig oherwydd bod y cyntaf (mesur perfformiad) yn gyffredinol yn llawer haws na'r ail (priodoli effaith).

16.2 Mae'r fframwaith perfformiad arfaethedig yn adran 7 yn canolbwyntio ar fonitro cynnydd tuag at nodau ar lefel system a/neu raglen (hynny yw, perfformiad y Warant a'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid). Mae'n canolbwyntio ar ddau fath o ymddygiad: (i) ymgysylltu â chymorth; a (ii) cyfranogiad mewn cyflogaeth, addysg a hyfforddiant (EET), ac mae'r ddau ymddygiad yn ganolog i nodau'r Warant. Fel yr amlinellwyd yn adrannau 8 a 9, bydd y data perfformiad hyn yn cael eu defnyddio er mwyn helpu i asesu effaith y Warant, ond nid ydynt yn dangos effaith (ac felly mae angen eu hystyried ochr yn ochr â data eraill).

16.3 Fel y dengys tabl 7.1., mae'r fframwaith perfformiad hwn yn cael ei lywio gan ddamcaniaethau newid y Warant a'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid ac mae'n amlinellu'r hyn y byddem yn disgwyl ei weld pe bai pob un yn llwyddiannus. Mae'n canolbwyntio'n benodol ar berfformiad mewn perthynas ag:

- Atal: pobl ifanc a fyddai'n NEET, oni bai am ymyriad y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid a/neu'r Warant; ac
- Ailymgysylltu: pobl ifanc mewn EET, a oedd yn NEET, ac a fyddai'n dal i fod yn NEET, oni bai am ymyriad y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid a/neu'r Warant.

**Mesur atal ac ailymgysylltu**

16.4 Drwy ddiffiniad, ni ellir mesur nodi a chymorth cynnar llwyddiannus yn uniongyrchol, oherwydd mae llwyddiant yn cael ei ddangos gan absenoldeb (hynny yw, pobl ifanc a fyddai'n NEET, oni bai am yr ymyriad). Fodd bynnag, mae'n bosibl mesur cyfran y bobl ifanc sydd mewn EET, a defnyddio hyn fel mesur procsi ar gyfer effeithiolrwydd gwaith ataliol.

16.5 Fel yr amlinellwyd yn y cyflwyniad, mae'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid yn cwmpasu pobl ifanc 11 i 18 oed. Oherwydd dylai'r holl bobl ifanc 11 i 16 oed fod mewn addysg,[65] ac oherwydd mai diben nodi a chymorth cynnar yw sicrhau y gall pobl ifanc 'symud ymlaen yn llwyddiannus yn 16 oed' (Llywodraeth Cymru, 2023, t. 5), mae'r mesurau perfformiad yn y fframwaith hwn yn canolbwyntio ar statws EET pobl ifanc 16 i 18 oed. [66]

16.6 Yn wahanol i'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid, mae'r Warant yn canolbwyntio'n bennaf ar gynorthwyo ailymgysylltu. Er y gall y Warant atal pobl ifanc rhag bod yn NEET yn y lle cyntaf - er enghraifft, efallai y bydd person ifanc yn manteisio ar y cynnig cymorth pan fydd mewn EET, er mwyn symud ymlaen neu newid cyfeiriad mewn EET - tybir mai prif effaith y Warant fydd cynorthwyo'r rhai sydd wedi ymddieithrio (ac sy'n NEET).

16.7 Mae datblygu DPA penodol ar gyfer atal ac ailymgysylltu yn heriol, gan fod y ddau yn dibynnu ar ddata sy'n ymwneud â chanran y bobl ifanc sy'n NEET, ac os bydd yn llwyddiannus, bydd y ddwy strategaeth yn arwain at gyfran gynyddol o bobl ifanc mewn EET.[67] O safbwynt 'cyfrif' yn unig, yr unig

---

[65] 'Gall rhieni ddewis addysgu eu plant yn y cartref (addysg ddewisol yn y cartref). Fodd bynnag, rhaid iddynt gyflawni gofyniad cyfreithiol sy'n peri i'w plentyn dderbyn addysg lawn amser effeithlon sy'n addas i'w hoedran, eu gallu a'u dawn ac i unrhyw Anghenion Dysgu Ychwanegol a all fod ganddynt.' (Ymchwil y Senedd, 2023, dim tudalen)

[66] Gellid mesur ymddieithrio ar gyfer y rhai 11 i 16 oed, drwy ddefnyddio, er enghraifft, data presenoldeb, ond dylai lleihau ymddieithrio rhwng 11 a 16 oed yn ei dro helpu i leihau ymddieithrio yn 16 oed a throsodd ac felly dylai gael effaith gadarnhaol ar ffigurau ôl-16 hefyd.

[67] Mae atal llwyddiannus yn golygu bod pobl ifanc yn pontio'n llwyddiannus ac yn cynnal eu cyfranogiad mewn EET. Mae hyn yn golygu y byddem yn disgwyl gweld cynnydd yng nghanran y bobl ifanc mewn EET, a chynnydd ar gyfer grwpiau oedran iau i ddilyn mewn blynyddoedd olynol gyda chynnydd cyfatebol mewn grwpiau oedran hŷn. Er enghraifft, mae gwaith ataliol llwyddiannus yn golygu bod pobl ifanc 16 oed yn pontio'n llwyddiannus o'r ysgol i EET ôl-16 ac nid ydynt yn NEET, ac

wahaniaethau fyddai mewn perthynas ag amseru (er enghraifft, lle mae atal yn methu, ac mae pobl ifanc yn NEET yn 16 oed, ond mae ailymgysylltu yn llwyddo, ac mae pobl ifanc yn mynd i mewn i EET erbyn 17 oed) ac a yw pobl ifanc yn NEET neu'n pontio'n ddi-dor o addysg cyn-16 i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ôl-16 (gan aros mewn EET drwyddi draw).[68]

16.8 Er ei bod yn ymddangos yn amlwg, dylid nodi hefyd y bydd atal llwyddiannus yn lleihau'r angen am ailymgysylltu, ac i'r gwrthwyneb, bydd gwendid mewn atal yn cynyddu'r angen am ailymgysylltu. Felly, efallai y bydd llwyddiant o ran atal yn ymddangos ei fod yn lleihau perfformiad mewn perthynas ag ailymgysylltu ac i'r gwrthwyneb. Felly, yn ogystal â DPA ar gyfer gwahanol rannau o systemau'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid a'r Warant, y DPA cyffredinol ar draws y system ar gyfer y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid a'r Warant yw cynnydd yng nghyfran y bobl ifanc 16 i 24 oed sydd mewn EET.

felly maent yn dal i fod mewn EET yn y blynyddoedd dilynol (pan maent yn 17, 18 ac ati). Felly byddai effaith ar atal yn cael ei weld yn gyntaf ymhlith grwpiau oedran iau a dros amser byddai disgwyl i hyn ledaenu i grwpiau oedran hŷn. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, mae ailymgysylltu yn golygu bod mwy o bobl sy'n NEET neu sydd wedi bod yn NEET yn mynd i mewn i EET. Yn yr achos hwn, byddem yn disgwyl gweld bod canran y bobl ifanc 16 i 24 oed sydd mewn EET mewn blwyddyn benodol yn uwch na chanran y bobl ifanc 16 i 24 sydd mewn EET yn y flwyddyn flaenorol (gan fod pobl a oedd yn NEET yn y flwyddyn flaenorol yn newid statws ar ôl mynd i mewn i EET). Felly, byddem hefyd yn disgwyl gweld gostyngiad yng nghanran y rhai 17 oed a throsodd nad oeddent yn ddi-waith nac yn economaidd anweithgar yn y 12 mis diwethaf. Gan y byddai'r ddau newid yn golygu bod canran y bobl ifanc 16 i 24 oed mewn EET mewn blwyddyn benodol yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, byddai'n anodd gwahaniaethu rhwng effeithiau atal a chynnydd. Hyd yn oed, er enghraifft, os yw'r ffocws ar bontio yn 16 oed, mae'n bosibl bod atal yn aneffeithiol (felly aeth pobl ifanc yn NEET) ond bod ymdrechion i ailymgysylltu yn effeithiol (felly aeth pobl ifanc a oedd yn NEET i mewn i EET).

[68] Fodd bynnag, pe bai atal yn cael effaith, byddem hefyd yn disgwyl gweld cynnydd yng nghanran y rhai 17 oed a throsodd a oedd mewn EET nad oedd wedi bod yn ddi-waith nac yn economaidd anweithgar yn y 12 mis diwethaf, ac os oedd ailymgysylltu yn cael effaith, byddem hefyd yn disgwyl gweld cynnydd yng nghanran y rhai 17 oed a throsodd a oedd mewn EET a oedd wedi bod yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar yn y 12 mis diwethaf.

## 17. Atodiad C. Manylion ychwanegol am gyfweliadau â rhanddeiliaid

17.1 Fel yr amlinellwyd yn Ffigur 8.1., byddai'r newidiadau yn y dirwedd polisi ac ymarfer yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac ar lefel awdurdodau lleol yn werthusadwy drwy gyfweliadau â rhanddeiliaid. Byddai'r rhanddeiliaid hyn yn rhai cenedlaethol a thrwy tua chwech o astudiaethau achos awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer y gwerthusiad proses.

17.2 Yn sefydliadol, mae'r rhanddeiliaid yn debygol o ddod o gyrff fel Llywodraeth Cymru, Cymru'n Gweithio, Gyrfa Cymru, awdurdodau lleol, darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16, gwasanaethau cymorth cyflogaeth, darparwyr y sector gwirfoddol, Byrddau Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, yr Adran Gwaith a Phensiynau/Canolfan Byd Gwaith, Syniadau Mawr Cymru a Busnes Cymru.

17.3 Byddai cyfweliadau â'r rhai sy'n ymwneud â chyflawni polisïau yn archwilio cwestiynau fel y rhai yn y tabl canlynol:

**Tabl 17.1. Enghreifftiau dangosol o feysydd i'w harchwilio gyda rhanddeiliaid sy'n ymwneud â chyflawni'r Warant a/neu'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid**

| Cwestiynau | Mewn perthynas â phobl ifanc 11 i 16 oed (y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid yn unig) | Mewn perthynas â phobl ifanc 16 i 18 oed | Mewn perthynas â phobl ifanc 19-24 oed |
|---|---|---|---|
| Pa mor dda mae bwriad a disgwyliadau'r Warant a'r Fframwaith Ymgysylltiad a | ✓ | ✓ | ✓ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Chynnydd Ieuenctid wedi'u cyfathrebu? | | | |
| Sut y mae darpariaeth a chymorth ôl-16 yn cael eu cydlynu?[69] | | ✓ | ✓ |
| Sut a pham mae cyllid, cynllunio a chomisiynu cymorth a darpariaeth ôl-16 wedi newid ers cyflwyno'r Warant a/neu'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid? | | ✓ | ✓ |
| Pa ddarpariaeth a chymorth[70] a gynigir i bobl ifanc drwy'r Warant a/neu'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid? | ✓ | ✓ | ✓ |
| Sut y gellir cael mynediad at gymorth[71]? | ✓ | ✓ | ✓ |
| Sut a pham mae cymorth wedi newid ers cyflwyno'r Warant a/neu'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid? | ✓ | ✓ | ✓ |
| Sut a pham mae ymddygiad pobl ifanc mewn perthynas ag EET yn newid o ganlyniad i'r Warant a/neu'r Fframwaith | ✓ | ✓ | ✓ |

[69] Byddai hyn yn ystyried, er enghraifft, rôl Cydlynwyr Ymgysylltiad a Chynnydd, partneriaethau'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.
[70] Gan gynnwys mynediad at wasanaethau iechyd meddwl.
[71] Byddai hyn yn cynnwys ystyriaethau o rôl broceriaeth y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid?[72] | | | |

17.4 Er, fel yr amlinellwyd uchod, gallai cyfweliadau â (er enghraifft) staff sy'n cyflawni prif elfennau'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid a/neu'r Warant ofyn am farn ynghylch pam roedd ymddygiad pobl ifanc yn newid (fel y mae'n cael ei adlewyrchu, er enghraifft, mewn DPA fel canran y bobl ifanc sy'n manteisio ar ddarpariaeth a chymorth cenedlaethol neu leol, a/neu ganran y bobl ifanc hyn sy'n mynd i mewn i EET), byddai nifer cymharol fach y cyfweliadau a ragwelir (n=35-50), gan gwmpasu chwe rhanbarth a sawl rhaglen wahanol yn cyfyngu ar allu'r gwerthusiad i ddod i gasgliadau cadarn am y system gyfan. Felly, fel y dangosir yn ffigur 8.1, byddai angen i ddata o'r cyfweliadau hyn gael eu triongli â data o ffynonellau eraill yn fwyaf nodedig o werthusiadau o'r Warant sy'n sail i raglenni elfennau (lle y maent ar gael) ac o gyfweliadau â phobl ifanc. Mae'n debygol y bydd y broses hon yn ei thro yn nodi materion a chwestiynau pellach na fyddant o bosibl yn gallu cael eu hateb yn bendant gan y gwerthusiad proses nac unrhyw werthusiad effaith yn y dyfodol, gan amlygu meysydd lle gellir cyfiawnhau ymchwil, proses neu werthusiad economaidd pellach.

[72] Byddai hyn yn defnyddio DPA (gweler adran 6) ac yn cynnwys rhanddeiliaid yn siarad am eu dehongliadau o'r data.

## 18. Atodiad D: Model Ymgysylltu Pum Haen Gyrfa Cymru i Bobl Ifanc Ôl-16

| | | |
|---|---|---|
| Haen 5<br>Pobl Ifanc mewn Addysg Bellach, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (EET) | • Cynnal addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (EET).<br>• Gweithio neu astudio'n rhan-amser am dros 16 awr.<br>• Gwaith Gwirfoddol. | • Ni thybir bod angen gweithiwr arweiniol o ystyried bod y person ifanc eisoes wedi ymgysylltu ac ni thybir ei fod mewn perygl o ymddieithrio. |
| Haen 4<br>Pobl ifanc mewn perygl o roi'r gorau i EET | • Y rhai sy'n cael llai nag 16 awr o EET.<br>• Y rhai y nodwyd eu bod mewn perygl o ymddieithrio cyn 16 oed a/neu y tybiwyd eu bod mewn perygl o beidio â phontio'n gadarnhaol sydd wedyn mewn addysg bellach, y chweched dosbarth neu hyfforddiant.<br>• Y rhai y mae darparwyr EET wedi tynnu sylw Gyrfa Cymru atynt am eu bod mewn perygl o roi'r gorau i EET, neu lle mae'r unigolion eu hunain wedi rhoi gwybod am hynny. | Mae dynodi gweithiwr arweiniol yn dibynnu ar lefel y perygl.<br>• Ar gyfer y rhai perygl isel a chanolig dylid defnyddio systemau bugeiliol darparwyr a/neu ddyrannu anogwr dysgu fel gweithiwr arweiniol.<br>• Ar gyfer y rhai perygl uchel gellir dynodi gweithiwr arweiniol naill ai o'r Gwasanaeth Ieuenctid neu Gyrfa Cymru neu os yw Teuluoedd yn Gyntaf mewn cysylltiad â'r unigolyn, bydd Tîm o Amgylch y Teulu yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | penderfynu dynodi gweithiwr arweiniol. |
| Haen 3<br>Pobl ifanc 16 ac 17 oed ddi-waith sy'n hysbys i Gyrfa Cymru | • Yn ymgysylltu â Gyrfa Cymru a/neu gwyddys eu bod yn ceisio EET; naill ai'n barod i ddechrau EET, neu wedi'u hasesu fel rhai y mae angen cymorth arnynt i reoli eu gyrfa neu i ddysgu sgiliau cyflogadwyedd er mwyn dechrau EET.<br>Dylai'r haen hon hefyd gynnwys y rhai y mae Gyrfa Cymru yn gwybod amdanynt ac sy'n ceisio EET yn rhagweithiol ond nad oes angen cymorth ychwanegol gan Gyrfa Cymru arnynt, h.y. maent yn cael cymorth drwy gyrfacymru.llyw.cymru neu'n aros am ddyddiad dechrau yn y coleg ac ati. | • Gweithiwr arweiniol wedi ei nodi ar gyfer 100% o'r garfan.<br>• Bydd Gyrfa Cymru yn darparu'r gweithiwr arweiniol ym mhob achos bron. |

| | | |
|---|---|---|
| Haen 2<br>Pobl ifanc 16 ac 17 oed, sy'n hysbys i Gyrfa Cymru, nad ydynt ar gael ar gyfer EET | • Nid yw'r person ifanc ar gael/yn methu ceisio EET (salwch, gofalwyr ifanc, beichiogrwydd, y ddalfa).<br>• Pobl ifanc sydd â rhwystrau sylweddol neu luosog sy'n gofyn am gymorth personol dwys. | • Gweithiwr arweiniol wedi ei nodi ar gyfer 100% o'r garfan.<br>• Bydd y Gwasanaeth Ieuenctid yn darparu gweithiwr arweiniol ym mhob achos bron. |
| Haen 1<br>Statws anhysbys wrth adael gwasanaethau Gyrfa Cymru | • Pobl ifanc sy'n anhysbys i Gyrfa Cymru. | • Ar ôl i unigolion gael eu nodi cânt eu rhoi mewn haen briodol a chaiff gweithiwr arweiniol ei ddynodi yn unol â hynny. |

Addaswyd o: Llywodraeth Cymru, 2013, t.  29.

## 19. Atodiad E. Adolygiad desg o'r gwerthusiad o Warantau Ieuenctid Ewropeaidd

19.1 Cafodd fframweithiau gwerthuso ar gyfer y Gwarantau Ieuenctid yn yr Alban a'r UE eu hadolygu. Ystyriodd yr adolygiad hwn yn benodol:

- beth oedd neu a fydd yn cael ei fesur (gan gynnwys y DPA a ddefnyddir neu a gynigir);
- sut oedd/fydd newid yn cael ei fesur (gan gynnwys y math o newidiadau, fel newidiadau mewn polisi ac ymarfer neu ymddygiad pobl ifanc) a'r lefel roedd neu y bydd newid yn cael ei fesur (er enghraifft, lefel facro neu system; lefel rhaglen; a/neu lefel ficro (lefel y bobl ifanc unigol); a
- dulliau o werthuso a phriodoli effaith.

**Mesur newid**

*Fframwaith Gwerthuso Gwarant Ieuenctid yr Alban*

19.2 Mae'r fframwaith gwerthuso ar gyfer Gwarant Ieuenctid yr Alban[73] yn nodi chwe DPA a amlinellir yn y testun mewn blwch. Mae'r DPA hyn yn cael eu hategu gan fesurau ‘dadansoddi’ a gynlluniwyd i fesur (neu ddadansoddi) canlyniadau ar gyfer grwpiau gwahanol o bobl ifanc, a ‘mesurau interim’ a gynlluniwyd i fesur cynnydd tuag at y canlyniadau a fwriedir (Llywodraeth yr Alban, 2022, t. 2).

[73] Nod y Warant yw sicrhau bod ‘pob person rhwng 16 a 24 oed yn yr Alban yn cael y cyfle, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau, i astudio; ymgymryd â phrentisiaeth, swydd neu brofiad gwaith; neu gymryd rhan mewn gwirfoddoli ffurfiol.’ Mae'r Warant yn ‘adeiladu ar gyfleoedd addysg, dysgu, cyflogadwyedd, hyfforddiant a chyflogaeth presennol i fynd i'r afael â chreithio economaidd a chymdeithasol hirdymor pandemig Covid-19.’ (Llywodraeth yr Alban, 2022, t. 2, llythrennau italig wedi'u hepgor.)

**DPA ar gyfer Gwarant Ieuenctid yr Alban**

- ‘DPA cyffredinol: Lleihau'r gyfradd ddiweithdra ar gyfer pobl ifanc 16 i 24 oed (ac eithrio'r rhai mewn addysg amser llawn) i lefelau cyn Covid erbyn diwedd y tymor seneddol presennol.
- DPA 1: Cynyddu cyfran y bobl ifanc 18 i 24 oed sydd â chymwysterau ar SCQF lefel 5 ac uwch
- DPA 2: Cynyddu cyfran y cyflogwyr sy'n recriwtio'n uniongyrchol o addysg
- DPA 3: Cynyddu'r gyfradd gyflogaeth ar gyfer pobl ifanc 16 i 24 oed sy’n anabl[74]
- DPA 4: Cynyddu cyfran y bobl ifanc 16 i 24 oed mewn cyflogaeth ddiogel
- DPA 5: Gwella perfformiad yr Alban o gymharu â gwledydd yr UE o ran cyfranogiad pobl ifanc 16 i 24 oed mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.’ (Llywodraeth yr Alban, 2022, t. 4.)

19.3 Mae'r DPA yn cael eu hategu gan ffocws thematig ar ‘Wasanaethau Cyflogadwyedd’, ‘Ymgysylltiad Cyflogwyr’ ac ‘ymyriadau addysg’ sydd wedi'u bwriadu i nodi sut y gwnaeth gwahanol randdeiliaid (fel y rhai sy'n darparu gwasanaethau cyflogadwyedd, cyflogwyr a staff addysg) ymateb.

*Fframwaith Gwerthuso Gwarant Ieuenctid yr UE*

19.4 Fel yr amlinellwyd yn nhabl 19.1. (isod) mae'r DPA ar gyfer Gwarant Ieuenctid yr UE yn fwy cynhwysfawr na fframwaith yr Alban. Maent yn cynnwys mesurau ‘macroeconomaidd’ sy'n cwmpasu'r boblogaeth gyfan o bobl ifanc; monitro uniongyrchol o ran cyflawni'r warant ieuenctid; a chynigion ar gyfer dilyn unigolion sydd wedi'u cynorthwyo gan y Warant Ieuenctid.

[74] Dyma'r testun a ddefnyddir gan Lywodraeth yr Alban. Nid yw'n gyson â'r model cymdeithasol o anabledd a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru.

**Tabl 19.1. Crynodeb o DPA ar gyfer Gwarant Ieuenctid yr UE**

| **Dangosyddion macroeconomaidd** gyda data Arolwg o'r Llafurlu yr UE | **Dangosyddion cyflawni** gan ddefnyddio data gweinyddol | **Dangosyddion canlyniadau unigol** gan ddefnyddio cymysgedd o ddata ar bobl ifanc unigol |
|---|---|---|
| Prif Ddangosydd: Cyfradd NEET (15-24) (%)<br><br>Dangosyddion atodol: cyflogaeth:<br>• Cyfradd NEET (15-24) yn ôl statws y farchnad lafur (di-waith/anweithgar).<br>• Cymhareb diweithdra ymhlith pobl ifanc (15-24) â diweithdra ymhlith oedolion (25-74).<br><br>Dangosyddion atodol: effeithiau tymor hwy ar gyrhaeddiad addysgol a chyrhaeddiad yn y farchnad lafur:<br>• Lefel cyrhaeddiad addysgol ieuenctid 20-24 (%).<br>• Cyfradd NEET 25-29 (%).<br>• Cyfradd cyflogaeth pobl ifanc 25-29 oed (%). | • Cyfran y bobl ifanc yng nghyfnod paratoi'r Warant Ieuenctid[75] ar ôl y targed 4 mis.<br>• Achosion o adael cyfnod paratoi'r Warant Ieuenctid yn gadarnhaol ac yn amserol.<br>• Stoc flynyddol gyfartalog o bobl ifanc yng nghyfnod paratoi'r Warant Ieuenctid / poblogaeth NEET (cyfartaledd blynyddol).[76] | • Prif ddangosydd: sefyllfa pobl ifanc 6, 12 ac 18 mis ar ôl gadael cyfnod paratoi'r Warant Ieuenctid.<br>• Dangosyddion atodol: sefyllfa pobl ifanc 6, 12 ac 18 mis ar ôl gadael cyfnod paratoi'r Warant Ieuenctid yn ôl math o gynnig (cyflogaeth; addysg barhaus; prentisiaeth; neu gynnig hyfforddeiaeth). |

[75] Mae hwn yn fesur o'r amser a gymerir hyd nes y bydd person ifanc yn manteisio ar gynnig drwy fesur hyd cyfnod paratoi'r Warant Ieuenctid.
[76] I 'roi brasamcan o'r gyfran bosibl o bobl ifanc NEET sydd wedi cofrestru gyda'r Warant Ieuenctid' (Y Comisiwn Ewropeaidd, 2017, t. 9).

| | | |
|---|---|---|
| • Cyfraddau cyflogaeth graddedigion diweddar (20-34 oed ar ôl gadael addysg a hyfforddiant ddim mwy na thair blynedd cyn y flwyddyn gyfeirio (%).<br>• Cyfran y bobl â chyrhaeddiad addysgol isel 20- 29 oed (%).<br>• Cyfran y bobl â chyrhaeddiad addysgol trydyddol 30-34 (%).<br>• Cyfran y rhai sy'n gadael addysg a hyfforddiant yn gynnar 18-24 (%). | | |

Addaswyd o'r Comisiwn Ewropeaidd, 2017.

**Gwerthusiad effaith**

19.5 Mae'r Gwerthusiad o Warant Ieuenctid yr UE yn rhagweld y bydd gwerthusiad effaith yn defnyddio 'cymysgedd priodol o ddamcaniaeth newid a dulliau gwrthffeithiol' (Y Comisiwn Ewropeaidd, 2017, t. 22). Mae'n awgrymu:

- bydd damcaniaeth newid y warant ieuenctid yn cael ei phrofi drwy ddefnyddio amrywiaeth eang o ddata, er enghraifft o ddogfennau, adolygiadau, cyfweliadau, arolygon, dadansoddi data o ddata monitro a gweinyddol Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ibid.); a
- bod 'gwerthusiad gwrthffeithiol o effaith' yn cymharu canlyniadau ar gyfer pobl ifanc a gafodd fudd o'r Warant Ieuenctid (grŵp triniaeth) â grŵp cymharu 'heb ei drin'. Mae'n awgrymu y gallai'r grŵp cymharu gynnwys, er enghraifft, pobl ifanc 16 i 17 oed a 25 i 26 oed nad ydynt yn gymwys ar gyfer y Warant,[77] neu bobl ifanc o ardaloedd cyfagos nad ydynt yn gweithredu'r warant ymyriad.[78] Mae'n nodi bod data ar grwpiau'r rhai nad oeddent yn cyfranogi sy'n debyg i'r rhai sy'n cyfranogi yn y Fenter Cyflogaeth Ieuenctid yn cefnogi'r ymyriadau sy'n cael eu gwerthuso ac felly byddai angen eu casglu (ibid.).

19.6 Er bod rhai enghreifftiau o werthusiadau gwrthffeithiol o elfennau unigol y Warant Ieuenctid wedi'u nodi,[79] ni nodwyd gwerthusiad gwrthffeithiol o effaith o'r Warant Ieuenctid yn ei chyfanrwydd.

19.7 Ar hyn o bryd, nid yw dull yr Alban o briodoli effaith wedi'i benderfynu.

---

[77] Mae'r fframwaith yn awgrymu dull cynllun atal atchweliad.

[78] Mae'r fframwaith yn awgrymu cynllun paru sgôr tueddiad neu wahaniaeth mewn gwahaniaethau.

[79] Er enghraifft, yn Latfia cynhaliwyd gwerthusiad gwrthffeithiol o effaith o'r rhaglen hyfforddiant galwedigaethol drwy ddefnyddio cynllun atal atchweliad niwlog (Cyngor Ewrop, 2018); yn yr Eidal, gwerthuswyd cymhellion cyflogwyr drwy ddefnyddio cynllun gwahaniaeth mewn gwahaniaethau; yng Ngwlad Pwyl, cafodd cymhorthdal cyflog ei werthuso drwy ddefnyddio cynllun atal atchweliad, wedi'i gyfuno â chynllun gwahaniaeth mewn gwahaniaethau a cynllun paru sgôr tueddiad; ac yn Hwngari cafodd cymhorthdal cyflog ei werthuso drwy ddefnyddio cynllun paru sgôr tueddiad a chynllun gwahaniaeth mewn gwahaniaethau (Krekó et al, 2021).

## 20. Atodiad F. Asesiad Gwerthusadwyedd a Gwerthusiad Proses o'r Warant i Bobl Ifanc: Rhestr gyfweld polisi (Mai 2023)

1. **A allwch ddweud wrthyf yn fras am eich rôl mewn perthynas â [rhowch y maes polisi]**

2. **A allwch ddweud wrthyf am y berthynas rhwng y [rhowch y maes polisi] hwn a'r Warant?**
   - er enghraifft, sut mae eich maes gwaith neu'ch cyfrifoldebau yn cyfrannu at gyflawni a/neu ganlyniadau'r Warant?
   - pa grŵp/grwpiau o bobl ifanc y disgwylir iddo/iddynt gael budd o [rhowch y maes polisi]/ y mae [rhowch y maes polisi] yn canolbwyntio arno/arnynt?
   - pa rannau eraill o'r system rydych yn dibynnu arnynt? [e.e. Cymru'n Gweithio ar gyfer atgyfeiriadau; y system addysg a hyfforddiant ôl-16 ar gyfer darpariaeth hyfforddi; cymorth ariannol fel y Lwfansau Cynhaliaeth Addysg neu Gyfrifon Dysgu Personol?] a pha rannau eraill o'r system sy'n dibynnu ar [rhowch y maes polisi]?
   - a ydych chi a/neu eich cydweithwyr yn adrodd i fwrdd rhaglen y Warant a/neu'n ei fynychu?
   - faint o 'broffil' neu 'weledadd' sydd gan y Warant yn eich maes polisi? Er enghraifft, faint o ddylanwad (os o gwbl) sydd gan y Warant ar y ffordd y mae [rhowch y maes polisi] yn cael ei ddatblygu?
   - [os oes ganddi ddylanwad], sut mae hyn yn cael ei weithredu / sut y mae'r dylanwad yn 'gweithredu'?
   - beth yw'r prif ysgogwyr/blaenoriaethau ar gyfer [rhowch y maes polisi]? [fel y Rhaglen Lywodraethu, y Cerrig Milltir Cenedlaethol, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cymraeg 2050, ymchwil] Beth yw'r prif ddogfennau polisi sy'n arwain neu'n llywodraethu [rhowch y maes polisi]?

3. **Sut byddech yn disgrifio'r Warant? Rwy'n prysuro i ychwanegu, nid prawf yw hwn, mae gennym ddiddordeb mewn sut mae pobl yn meddwl am y Warant ac yn ei gweld mewn gwahanol ffyrdd.**
   - beth yw prif 'elfennau' y Warant? Er enghraifft, beth yw'r prif bolisïau sy'n sail i'r Warant?
   - pa mor dda mae'r gwahanol bolisïau / elfennau wedi'u cysoni?

- sut byddech yn disgrifio'r berthynas rhwng y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid[80] a'r Warant? Pam mae angen dwy raglen sydd o bosibl yn gorgyffwrdd ar Gymru ar gyfer pobl ifanc 16 i 18 oed? Beth mae hyn yn ei ychwanegu? (e.e. beth fyddai'n cael ei golli pe bai'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid yn dod i ben? Pa effaith fyddai rhoi'r gorau i'r Warant yn ei chael ar y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid?)
- pwy yw'r prif 'weithredwyr' [pobl, rhaglenni, strwythurau] sy'n gyfrifol am gyflawni'r Warant? [ystyriwch bartneriaid cenedlaethol a rhanbarthol hefyd, e.e. Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a phartneriaid lleol, fel awdurdodau lleol, darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16]
- i ba raddau mae'r Warant yn 'ailfrandio' polisïau presennol, neu efallai'n 'ymbarél' sy'n eistedd uwchben cyfres o bolisïau presennol, ac i ba raddau y mae wedi/y mae'n newid y polisïau hynny, a'u ffurfio yn un rhaglen? Sut byddech yn disgrifio'r berthynas rhwng y Warant a'i rhannau cyfansoddol?
- i ba raddau rydych yn credu bod cydweithio a gweithio mewn partneriaeth wrth wraidd y Warant? A yw hyn o ganlyniad i'r Warant? (ac os felly, sut a pham?)
- beth mae'r ethos[81] 'Cymru ar y Cyd' yn ei olygu i chi?

4. **Pam, yn eich barn chi, oedd angen y Warant?**
   - mae'r cyd-destun wedi newid, ac yn parhau i newid, ers lansio'r Warant ym mis Tachwedd 2021. Ni wireddwyd y rhagfynegiadau ar gyfer cynnydd mawr mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc ar ôl y pandemig, felly a yw'r angen am y Warant wedi newid o gwbl? Beth mae hyn yn ei olygu i'r Warant (e.e. o ran cynllun, cyflawni a/neu ei heffaith debygol)?

5. **Pa wahaniaeth rydych yn credu y bydd cael y Warant yn ei wneud?**
   - [trafodwch] pa wahaniaeth os o gwbl, *fydd* y Warant yn ei wneud i 'gynnig cymorth' Llywodraeth Cymru i bobl ifanc? [e.e. beth sy'n newydd / ychwanegol / gwahanol am y cynnig cymorth?]

---

[80] Fel y mae'r fanyleb yn amlinellu: Mae'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid a'r Warant ar y cyd yn cyflenwi llinell weledol i gynorthwyo pobl ifanc drwy gydol eu taith ysgol a thu hwnt hyd nes iddynt symud i gyflogaeth neu hunangyflogaeth. Maent yn eistedd ochr yn ochr, i gynorthwyo pobl ifanc agored i niwed wrth iddynt symud drwy'r system addysg a thu hwnt. (Llywodraeth Cymru, 2022b, t. 20)

[81] Fel y mae'r fanyleb yn amlinellu, mae adeiladu ethos Cymru ar y Cyd yn ogystal ag annog ac ymgorffori diwylliant o gydweithio a gweithio mewn partneriaeth wrth wraidd y Warant. Mae'r Warant yn annog rhanddeiliaid i ymuno â'r llywodraeth a phobl ifanc eu hunain i feithrin adferiad cynhwysol [o'r pandemig], lle mae pobl ifanc yn cael pob cyfle i ffynnu. (Llywodraeth Cymru, 2022b, t. 8).

- pa wahaniaethau *ddylai'r* Warant eu gwneud, neu y mae angen iddi eu gwneud [efallai fod bwlch rhwng bwriad a disgwyliadau o effaith] er mwyn cynyddu cyfran y bobl ifanc 16 i 24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant?
- a fydd rhannau/pa rannau o'r Warant fydd yn gynnig hygyrch a deniadol i'r rhai sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur, pobl â nodweddion gwarchodedig, a'r rhai sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol wrth gael mynediad at waith a'i gynnal?
- [trafodwch] sut a pham y bydd y 'cynnig cymorth i gael lle mewn addysg neu hyfforddiant, dod o hyd i swydd neu ddod yn hunangyflogedig' yn newid meddwl ac ymddygiad pobl ifanc? a
- [trafodwch] beth arall, os o gwbl, sydd ei angen, yn ychwanegol at y 'cynnig cymorth' i gynyddu cyfran y bobl ifanc 16 i 24 oed mewn addysg, cyflogaeth, neu hyfforddiant? [Er enghraifft, beth sydd angen digwydd i annog pobl ifanc i fanteisio ar y cynnig cymorth? Pa mor ddibynnol mae effaith y Warant (a'r cynnig cymorth) ar amodau economaidd? Beth allai arafu neu rwystro effaith y Warant ar gyfran y bobl ifanc 16 i 24 oed mewn addysg, cyflogaeth, neu hyfforddiant?]

**6. Beth yn eich barn chi fyddai'n bwysig ei ddysgu o werthusiad o'r Warant?**

- beth fyddech am ei wybod neu ei ddeall [o ganlyniad i'r gwerthusiad]?

**7. A oes unrhyw beth arall nad ydym wedi ei drafod sy'n bwysig yn eich barn chi?**

A oes gennych unrhyw gwestiynau i mi?

**Diolch yn fawr iawn am eich amser**